

# Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 1

Gorffennaf 2020



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd Cymru: **[www.senedd.cymru/Seneddlechyd](http://www.senedd.cymru/Seneddlechyd)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **[Seneddlechyd@senedd.cymru](mailto:Seneddlechyd@senedd.cymru)**

Twitter: **[@Seneddlechyd](https://twitter.com/Seneddlechyd)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 1

Gorffennaf 2020



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.senedd.cymru/SeneddNHAMG](http://www.senedd.cymru/SeneddNHAMG)

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Dai Lloyd AS**  
Plaid Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Rhun ap Iorwerth AS**  
Plaid Cymru



**Jayne Bryant AS**  
Llafur Cymru



**Angela Burns AS**  
Ceidwadwyr Cymreig



**Lynne Neagle AS**  
Llafur Cymru



**David Rees AS**  
Llafur Cymru

---

# Cynnwys

<b>Rhagair y Cadeirydd.....</b>	<b>5</b>
<b>Argymhellion.....</b>	<b>7</b>
<b>1. Casgliadau cyffredinol.....</b>	<b>12</b>
Yr adroddiad hwn .....	14
<b>2. Cyflwyniad.....</b>	<b>15</b>
Covid-19 .....	15
Llinell amser digwyddiadau allweddol.....	16
Ymchwiliad y Pwyllgor .....	16
<b>3. Cyfarpar Diogelu Personol .....</b>	<b>17</b>
Canllawiau ar gyfarpar diogelu personol.....	17
Cyflenwadau cyfarpar diogelu personol.....	18
Caffael a gweithgynhyrchu.....	19
Argaeledd cyfarpar diogelu personol.....	21
Dyluniad a ffit cyfarpar diogelu personol .....	24
Cyflenwi'r sector gofal cymdeithasol.....	25
Gofal preswyl .....	25
Gofal cartref .....	29
Hosbisau .....	30
Ein barn ni .....	30
<b>4. Profi .....</b>	<b>34</b>
Canllawiau ar brofi .....	34
Hygyrchedd .....	34
Gallu i brofi .....	37
Profi mewn cartrefi gofal.....	39
Ein barn ni .....	42
Capasiti .....	44
Amseroedd ar gyfer cael canlyniadau profion.....	44

Cartrefi gofal.....	44
Profi ar gyfer staff cartrefi gofal.....	45
<b>5. Gwarchod Pobl Eithriadol o Agored i Niwed .....</b>	<b>47</b>
Llythyrau gwarchod.....	47
Rôl llywodraeth leol.....	49
Gwasanaethau i bobl a gynghorwyd i warchod eu hunain .....	51
Cymorth tymor hwy .....	53
Ein barn ni .....	54
<b>6. Strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu.....</b>	<b>58</b>
Amcanion a llywodraethu .....	58
Prosiectau peilot.....	61
Gallu i brofi .....	63
Amser prosesu profion.....	64
Dechrau'r broses.....	66
Adnoddau a chyllid .....	67
Adnoddau .....	67
Cyllid.....	69
Cyfranogiad y cyhoedd yn y broses Profi, Olrhain, Diogelu.....	70
Defnyddio technoleg .....	72
Apiau olrhain cysylltiadau/olrhain agosrwydd.....	73
Olrhain trawsffiniol.....	74
Ein barn ni .....	75
Cyflymder a chywirdeb y profion.....	75
Gallu i brofi .....	77
Adnoddau a chyllid .....	78
Ymddiriedaeth a chydymffurfiaeth.....	79
Defnyddio technoleg .....	79
Trefniadau trawsffiniol.....	80

---

**7. Goblygiadau ariannol i lywodraeth leol a chyllid ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion ..... 81**

Costau uwch a cholli refeniw ..... 81

Cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol ..... 82

Ein barn ni ..... 85

**Atodiad: Llinell amser digwyddiadau allweddol yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol..... 87**





## Rhagair y Cadeirydd



Ym 1854, yn wyneb epidemig o golera yn Soho a laddodd 500 o bobl mewn 10 diwrnod, aeth Dr John Snow ati i ganfod cyfeiriadau'r bobl a fu farw a'u nodi ar gynllun manwl o strydoedd yr ardal. Trwy wneud hyn, gwelodd mai pwmp dŵr Broad Street oedd ffynhonnell yr epidemig. Ymhell cyn darganfod feirysau a bacteria, llwyddodd gwaith olrhain cysylltiadau Dr Snow i atal yr haint.

Mae'r arloesi hwn yn sail i ymyriadau iechyd y cyhoedd hyd heddiw; ymyriadau sy'n destun sylw unwaith eto yn y frwydr yn erbyn yr haint sy'n plagio bron pob gwlad yn y byd ar hyn o bryd - Covid-19.

Mae dyfodiad y coronafeirws hwn wedi newyd y byd am byth. Daeth parodrwydd ar gyfer pandemig, a oedd wedi'i hen esgeuluso, yn allweddol dros nos, felly hefyd bwysigrwydd iechyd y cyhoedd, disgyblaeth a oedd hefyd wedi'i hen esgeuluso.

Yn ein hysbytai a'n cartrefi gofal, roedd ymdeimlad amlwg o ofn ymhlith y staff a oedd ond yn rhy ymwybodol o effeithiau Covid-19, ond brwydo ymlaen fu eu hanes o dan yr amgylchiadau anoddaf.

Yn y dyddiau cynnar hynny, ac yn y dyddiau ers hynny, mae cymdeithas wedi dysgu pwy oedd y gwir weithwyr allweddol. Mae staff iechyd a gofal cymdeithasol wedi ymateb yn arwrol i'r pandemig hwn. O dan y pwysau mwyaf eithafol, maent wedi dangos penderfyniad diwro i ymateb i'r heriau eithriadol sydd wedi dod i'w rhan yn sgil y feirws. Yn anffodus, mae rhai ohonynt wedi colli eu bywydau.

Mae hyn, wrth gwrs, wedi bod yn ymdrech dîm epig, gyda swyddogion iechyd y cyhoedd, yr holl weithwyr allweddol a gofalwyr di-dâl yn chwarae eu rhan. Mae awdurdodau lleol wedi symud mynyddoedd i amddiffyn a chefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed. O fewn ein cymunedau, mae nifer enfawr o wirfoddolwyr wedi camu i'r adwy, gan wneud popeth o ddsbarthu bwyd a meddyginiaeth i wneud scrubs, gynau a mygydau. Mae'r cyhoedd hefyd wedi chwarae ei ran, gan aberthu cyswllt â theulu a ffrindiau er budd y boblogaeth yn ei chyfanrwydd.

Mae Covid-19 wedi bod yn greulon a didostur. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae mwy na 10 miliwn o bobl wedi cael eu heintio ledled y byd ac, yn y DU, mae dros 43,000 o bobl wedi marw yn anffodus, gyda mwy na 1500 o'r rheini yng Nghymru. Er bod trafodaethau ac anghytundebau wedi bod ynglŷn â'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r feirws, ni allwn ac ni ddylem anghofio bod y bobl y tu ôl i'r


ffigurau hynny'n fam, yn fab, yn ferch, yn dad i rywun. Rhaid i ni wneud popeth yn ein gallu i atal digwyddiadau'r pedwar mis diwethaf rhag digwydd eto – dyna yw prif ddiben yr adroddiad hwn.

Nid yw hynny'n golygu na fydd tonnau eraill neu gynnydd mewn achosion mewn ardaloedd mwy lleol, ond rhaid i ni ganolbwyntio ar osgoi ail don o'r math rydym wedi'i gweld eisoes, sydd wedi hawlio cynifer o fywydau. Bydd angen i lywodraethau ledled y DU weithredu'n barhaus gyda ffocws penodol i gadw'r rhif R yn isel, a bydd angen iddynt ddangos hyblygrwydd yn eu hymatebion, gan gofio bob amser bod Covid-19 fel SARS, nid fel y ffliw.

Mae heriau difrifol o'n blaenau, ac mae angen i ni sicrhau bod mesurau ar waith – cyflenwad cadarn o gyfarpar diogelu personol priodol; mynediad hawdd i brofion gydag amseroedd gweithredu cyflym ar gyfer canlyniadau; a system olrhain cysylltiadau gwbl weithredol. Dyma'r arfau sy'n rhoi'r cyfle gorau i ni lwyddo yn erbyn y feirws.

Mae sioc Covid-19 wedi bod mor ddifrifol, mae wedi ysgwyd ein byd i'w sylfeini. Eto i gyd, mae'n rhoi'r cyfle i ni newid ein cwrs ar gyfer y dyfodol. Gallwn ailfeddwl sut rydym yn cefnogi ein sector gofal cymdeithasol hanfodol ond bregus, ac ailasesu ein hagwedd at iechyd meddwl, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cydfynd â'r rhai ar gyfer iechyd corfforol. Dyma'r amser i fod yn eofn, a gellir gwneud newidiadau sylweddol er gwell os bachwn ni ar y cyfle hwn. Bydd adroddiadau pellach y Pwyllgor Iechyd yn rhoi sylw manwl i'r materion hyn.

Mae diwydrwydd ac ymroddiad pobl fel Dr Snow yn oes Fictoria wedi dangos i ni sut gellir dileu clefyd angheuol cudd heb unrhyw driniaeth hysbys. Yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif, mae angen y gallu a'r drefniadaeth arnom i gyflawni'r un nod.



Dr. Dai Lloyd AS  
Cadeirydd

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati ar fyrder i:

- gyhoeddi strategaeth ar gyfer sicrhau cyflenwad gwydn o gyfarpar diogelu personol;
- casglu ynghyd lefelau digonol o gyfarpar diogelu personol priodol ar gyfer unrhyw achos yn y dyfodol;
- adolygu'r cyfarpar diogelu personol y mae wedi'i gasglu ynghyd i sicrhau ei fod yn parhau i fod o ansawdd digonol a'i fod yn addas at y diben, gan gynnwys bod y dyluniad a'r ffit yn briodol ar gyfer pawb sy'n ei wisgo ac yn addas ar gyfer staff, cleifion neu ofalwyr sy'n fyddar neu â nam ar eu clyw;
- cyhoeddi strategaeth ar gyfer sicrhau gwydnwch y trefniadau dosbarthu ar gyfer cyfarpar diogelu personol;
- gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod canllawiau ar gyfarpar diogelu personol yn cael eu diweddarau yng ngoleuni'r cyngor gwyddonol diweddaraf, a chyfathrebu'r cyngor hwn yn glir i'r staff. .... Tudalen 32

**Argymhelliad 2.** Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu ei systemau ei hun i sicrhau bod y mecanweithiau ar waith i alluogi gweithgynhyrchwyr yng Nghymru i ymateb yn gyflym wrth gyflenwi cyfarpar diogelu personol priodol pe bai unrhyw achosion yn y dyfodol. Rhaid i hyn gynnwys cael trefniadau caffael sy'n gallu ymateb yn amserol..... Tudalen 32

**Argymhelliad 3.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau gofal hanfodol fynediad dibynadwy at gyfarpar diogelu personol priodol..... Tudalen 33

**Argymhelliad 4.** Rhaid i Lywodraeth Cymru, a'i phartneriaid, sicrhau bod mynediad lleol at brawf i unrhyw un sydd ei angen, yn ôl yr angen. Mae angen i feddygon teulu a gofal sylfaenol fod yn rhan annatod o'r trefniadau hyn.  
..... Tudalen 43

**Argymhelliad 5.** Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid, sicrhau ymgyrch barhaus o negeseuon cyhoeddus clir, cyson ac ailadroddus - ar lefel genedlaethol a lleol - ynghylch pryd i geisio prawf Covid-19 a sut i wneud hyn.  
..... Tudalen 43

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod negeseuon clir a chyson yn yr un modd ynglŷn â gwerth profi, nid yn unig o ran adnabod pobl sydd â'r feirws ond i gynorthwyo gydag ymchwil a datblygu atebion at y dyfodol.

..... Tudalen 43

**Argymhelliad 7.** Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda GIG Cymru, ddatblygu cynllun clir ar gyfer profion rheolaidd ac ailadroddus ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys staff asymptomatig..... Tudalen 43

**Argymhelliad 8.** O ystyried y pryderon y bydd yr haint yn cyrraedd ail benllanw yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid, asesu'r galw tebygol am brofion yn y dyfodol a chymryd camau i sicrhau bod digon o allu i brofi fel y bydd unrhyw un sydd angen prawf yn gallu cael un yn gyflym ac yn hawdd. Fel rhan o hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru a phartneriaid aros yn effro i ddatblygiad gwahanol fathau o fodelau profi..... Tudalen 44

**Argymhelliad 9.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob claf sy'n cael ei ryddhau o'r ysbyty yn uniongyrchol i gartref gofal wedi'i brofi yn unol â'r arfer gorau diweddaraf i sicrhau bod preswylwyr a staff yn cael eu diogelu cystal â phosib..... Tudalen 45

**Argymhelliad 10.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau:

- bod profion mewn cartrefi gofal yn digwydd yn rheolaidd ac yn systematig,
- bod profion o'r fath yn cael eu gwneud gan unigolion sydd wedi cael hyfforddiant addas yn hytrach na defnyddio pecynnau profi gartref a
- bod gallu digonol i brofi i gefnogi'r ddau bwynt uchod. .... Tudalen 46

**Argymhelliad 11.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau i:

- sicrhau nad oes unrhyw achosion pellach o dorri data cleifion wrth symud ymlaen, a
- chyfathrebu'n well â phobl sydd wedi cael eu cynghori i warchod eu hunain. Mae angen dull clir, ymatebol, amserol a thryloyw sydd wedi'i strwythuro'n dda, a rhaid iddo fod yn rhan annatod o strategaeth y dyfodol o roi cymorth i'r grŵp agored iawn i niwed hwn o unigolion.

..... Tudalen 55

**Argymhelliad 12.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ail-edrych ar y trefniadau gyda'r prif archfarchnadoedd i sicrhau y gall fodloni ei hun y bydd digon o wasanaethau siopa bwyd ar-lein a danfon i'r cartref yn gallu ateb y galw, yn enwedig yn ystod y gaeaf sydd i ddod.....Tudalen 56

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod carfan o bobl nad ydynt ar y rhestr cleifion sydd i fod i warchod ond sydd fel arall yn agored i niwed neu fel arfer yn dibynnu ar wasanaethau siopa bwyd ar-lein a danfon i'r cartref. Rhaid i Lywodraeth Cymru edrych ar y ffordd orau o adnabod y bobl hyn a rhoi cymorth iddynt.....Tudalen 56

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad cyflym a phenodol o'r trefniadau cyfredol ar gyfer danfon meddyginiaethau i sicrhau eu bod yn gadarn, yn ddibynadwy, yn ddiogel ac yn gynaliadwy, ac yn gallu ateb y galw cyfredol a phwysau posibl yn y dyfodol, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.....Tudalen 56

**Argymhelliad 15.** Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i adolygu'r trefniadau cymorth presennol ar gyfer pobl sy'n gwarchod eu hunain, a gweithredu gwelliannau yn ôl yr angen.....Tudalen 56

**Argymhelliad 16.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau clir ar gael i'r rhai sy'n gwarchod ynghylch cyrchu gwasanaethau gofal iechyd arferol a sut i wneud hyn yn ddiogel.....Tudalen 57

**Argymhelliad 17.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau clir yn cael eu darparu ar gyfer teuluoedd a gofalwyr pobl sy'n gwarchod ynghylch dychwelyd i'r gwaith, a'r cymorth y gallant ei ddisgwyl.....Tudalen 57

**Argymhelliad 18.** Rhaid i Lywodraeth Cymru achub ar y cyfle yn awr i adolygu'r holl drefniadau i sicrhau bod graddfa'r isadeiledd, y gwaith o gyflwyno technoleg a'r ymarferion recriwtio angenrheidiol ar waith i sicrhau system olrhain cysylltiadau effeithlon sy'n gweithredu'n effeithiol. Rhaid i'r system beidio â dioddef yn sgil diffyg cynllunio, adnoddau neu dechnoleg, pan fu amser i baratoi a chyfleoedd pwysig ar gyfer dysgu.....Tudalen 75

**Argymhelliad 19.** Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, geisio sicrhau bod canlyniadau pob prawf yn cael eu dychwelyd o fewn 24 awr.....Tudalen 76

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru symud ar unwaith i system lle mae olrhain cysylltiadau yn cychwyn naill ai ar ôl derbyn prawf positif, neu o fewn 24 awr.....Tudalen 76

**Argymhelliad 21.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod systemau ar waith i fonitro'r gyfradd negyddol ffug yn effeithiol, ac i sicrhau bod profion yn cael eu cyflwyno'n gyfrifol ac yn hyblyg er mwyn lleihau'r gyfradd negyddol ffug.  
..... Tudalen 77

**Argymhelliad 22.** Mewn ymgynghoriad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, dylai Llywodraeth Cymru:

- gyhoeddi strategaeth i gynyddu nifer y bobl sy'n dod ymlaen i gael prawf er mwyn defnyddio'r capasiti profi sydd ar gael yn llawnach;
- cymryd camau yn awr i roi sicrwydd y bydd modd cyflawni 20,000 o brofion y dydd;
- sicrhau bod mesurau diogelwch ar waith i sicrhau bod capasiti o gyfleusterau y tu allan i Gymru yn addas i'r diben ac yn ddigonol i ateb y galw.
- sicrhau bod y system yn gallu ymateb i gynnydd yn y galw, ac ehangu i'w ddiwallu. .... Tudalen 78

**Argymhelliad 23.** Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o frys, adolygu ei phenderfyniadau ynghylch nifer y staff sydd eu hangen ar gyfer olrhain cysylltiadau er mwyn sicrhau ei hun a'r cyhoedd y bydd y system yn gallu gweithredu'n effeithiol pan fydd y galw ar ei uchaf, ac y gall fod yn hyblyg ac ymateb yn ôl newidiadau yn y galw. Dylai gyhoeddi canlyniadau'r adolygiad.  
..... Tudalen 78

**Argymhelliad 24.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gadarnhau, fel mater o flaenoriaeth, y pecyn cymorth ariannol i awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith o gyflogi gweithwyr olrhain proffesiynol, yn hytrach na dibynnu ar adleoli staff presennol  
..... Tudalen 79

**Argymhelliad 25.** Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid, sicrhau system o negeseuon cyhoeddus clir ac ailadroddus - ar lefel genedlaethol a lleol - ynghylch cyfrifoldebau unigolion i hunanynysu os oes ganddynt symptomau, a phwysigrwydd hunanatgyfeirio ar frys i gael prawf. .... Tudalen 79

**Argymhelliad 26.** Rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio gyda Llywodraeth y DU y trefniadau ar gyfer tâl salwch statudol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n gorfod hunanynysu. Dylid gwneud hyn ar frys. .... Tudalen 79

**Argymhelliad 27.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu mwy o wybodaeth am y protocol ar drefniadau trawsffiniol. .... Tudalen 80

**Argymhelliad 28.** Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o frys, roi ar waith ymrwymiad cyllid gwarantedig byrdymor i gefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion i liniaru effaith ariannol Covid-19. Rhaid datblygu'r ymrwymiad hwn mewn ymgynghoriad â darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys llywodraeth leol.....Tudalen 86

## 1. Casgliadau cyffredinol

- 1.** Mae maint yr her sy'n wynebu llywodraethau a'u partneriaid wrth ddelio ag effeithiau Covid-19 wedi bod yn ddigynsail. Gwnaed ymdrechion enfawr ym mhob agwedd ar fywyd, gan arwain at lawer o gyflawniadau sylweddol.
- 2.** Rhaid canmol gwaith staff ym mhob un o'r sectorau sydd wedi bod ynghlwm wrth yr ymateb i'r argyfwng; yn enwedig felly'r rhai ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Maent wedi trawsnewid gwasanaethau ac wedi datblygu trefniadau a gweithdrefnau newydd mewn cyfnod byr iawn o amser. Maent wedi dangos ymrwymiad ac ymroddiad enfawr mewn amgylchiadau anodd tu hwnt i sicrhau y gallai'r rhai sydd angen eu cymorth ei dderbyn. I lawer, mae hyn wedi golygu gwneud aberthau personol sylweddol, fel byw ar wahân i'w teuluoedd am gyfnodau hir er mwyn parhau i ddarparu gofal yn ddiogel i eraill.
- 3.** Mae'r cyhoedd yn gyffredinol wedi gwneud aberthau enfawr, ac mae'r rhain yn haeddu cael eu cydnabod. Mae teuluoedd a ffrindiau wedi cael eu gwahanu, ac mae'r rhai mwyaf agored i niwed wedi'u hynysu oddi wrth eu rhwydweithiau cymorth ehangach. Mae eu hymdrechion i gadw at y cyfyngiadau symud wedi atal lledaeniad y feirws yn sylweddol; fodd bynnag, bydd ei effeithiau yn parhau i gael eu teimlo yn ein cymunedau am gryn amser i ddod.
- 4.** Yn anffodus, bu dros 1500 o farwolaethau yng Nghymru yn ymwneud â Covid-19. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teuluoedd a ffrindiau sydd wedi colli anwyliad.
- 5.** Rydym wedi dysgu llawer o wersi caled dros y pum mis diwethaf. Amlygodd yr argyfwng wendidau difrifol a oedd yn bodoli mewn sawl maes, gan gynnwys ein trefniadau ar gyfer cynhyrchu a chaffael cyfarpar diogelu personol, ein trefn ar gyfer profi, ein capasiti gofal critigol a'n gallu i amddiffyn ein pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal.
- 6.** Nid yw ond yn iawn bod unrhyw benderfyniadau ar gyfnodau pellach o gyfyngiadau symud yn cael eu gwneud a'u barnu ar sail yr hyn rydym wedi'i ddysgu yn ystod yr amser hwn. Mae gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid gyfoeth o brofiad i dynnu arno wrth i ni symud ymlaen i'r cam nesaf o reoli'r achosion.
- 7.** Nid oes rhaid i ail don fod yn anochel os yw gwersi'r misoedd diwethaf yn cael eu dysgu a'u cymhwyso'n llawn.



- 8.** Nid yw hynny'n golygu na fydd angen mesurau i reoli'r feirws. Efallai y bydd cynnydd mewn achosion, a'r angen am fesurau lleol i reoli hynny. Ac, wrth gwrs, rydym yn dibynnu i raddau helaeth ar weithredoedd aelodau'r cyhoedd wrth iddynt dderbyn eu cyfrifoldebau cymdeithasol unigol. Ond mae'n rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau nad ydym yn profi ail don ar yr un raddfa neu ar raddfa debyg i'r gyntaf.
- 9.** Rhaid i ni achub ar y cyfle hwn i fod yn fwy parod, ar bob llaw, ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau, yn enwedig pan ddaw'r gaeaf.
- 10.** Yn benodol, ac er mwyn osgoi'r angen am ail gyfnod o gyfyngiadau symud, mae'n hanfodol bod gennym system olrhain cysylltiadau effeithlon ac effeithiol ar waith yn llawn. Yn gysylltiedig â hyn mae'r angen i sicrhau bod ein cartrefi gofal yn cael eu cefnogi a'u diogelu'n llawn. Bydd angen monitro hyn yn ofalus a bydd angen gallu i ymateb yn gyflym i newidiadau mewn cyfraddau heintio yn y boblogaeth.
- 11.** Bydd hefyd yn hanfodol ailgyflenwi stociau o gyfarpar diogelu personol sydd wedi'u dihysbyddu i bob pwrpas yn ystod yr argyfwng presennol, yn ogystal â sicrhau cyflenwad sicr yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, rhaid gweithredu ar brofiadau'r misoedd diwethaf i leihau ein dibyniaeth ar fewnforion tramor ac i sicrhau bod dyluniad a ffit y cyfarpar yn addas i bawb sydd angen ei wisgo, a'r rhai sy'n fyddar neu sydd â nam ar y clyw. Rhaid ei adolygu'n rheolaidd hefyd i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn parhau i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.
- 12.** Dylai ein paratodau ar gyfer pandemig fod yn fwy hyblyg i allu ateb y galw am niferoedd uchel o dderbyniadau i'r ysbyty/gofal critigol. Rhaid i waith cynllunio at y dyfodol ystyried hyn yn llawn, yn ogystal â sicrhau y gellir parhau i gynnig hyn a hyn o wasanaethau arferol ochr yn ochr â'r rhai sy'n ofynnol mewn argyfwng cenedlaethol.
- 13.** Yn gysylltiedig â hyn, bydd yn hanfodol peidio â pharhau i redeg y system gofal critigol, a chyflenwad gwelyau yn gyffredinol, ar lefel mor 'boeth' yn y dyfodol, gyda mwy na 85 y cant o wlaŵ yn llawn ar unrhyw adeg. Yn hytrach, mae angen sicrhau bod capasiti ychwanegol yn parhau, o ran staffio, gwelyau ac offer, i ymateb i gynydd yn y galw yn y dyfodol.
- 14.** Yn fwy eang, mae'r argyfwng wedi ein hatgoffa o'r angen i ailsefydlu blaenoriaeth iechyd y cyhoedd. Mae wedi bod yn dirywio'n gyson ers blynyddoedd lawer, ar ôl cael ei wthio i'r neilltu gan nifer o faterion eraill, gan gynnwys hunanfodddhad gan lywodraethau ynghylch y tebygolrwydd o achosion o glefydau heintus, yn ogystal â chyfyngiadau ar wariant cyhoeddus.

**15.** Gan droi o iechyd i ofal cymdeithasol, mae bregusrwydd parhaus y sector gofal cymdeithasol a'r angen am ateb tymor hwy yn hysbys iawn. Er gwaethaf y rôl hanfodol y mae'r sector yn ei chwarae, mae diffyg gweithio cydgysylltiedig â'r GIG o hyd, ac mae angen dybryd i integreiddio'r ddau wasanaeth yn well ynghyd â chydabyddiaeth briodol i staff gofal cymdeithasol yn eu telerau a'u hamodau. Byddwn yn ystyried hyn ymhellach mewn adroddiadau yn y dyfodol.

**16.** Yn olaf, bydd angen cefnogi'r rhai sydd wedi profi trawma o ganlyniad i'r argyfwng hwn, a'r rhai â chyflyrau iechyd meddwl parhaus. Ni fydd llawer o'r bobl hyn wedi gallu manteisio ar eu gwasanaethau arferol ers cryn amser a bydd gan hyn oblygiadau sylweddol i'w hiechyd a'u llesiant, ac i'r gwasanaeth iechyd. Unwaith eto, bydd hyn yn destun adroddiad yn y dyfodol.

### Yr adroddiad hwn

---

**17.** Dyma'r adroddiad cyntaf mewn cyfres ac mae'n canolbwyntio ar nifer o feysydd allweddol, sef cyfarpar diogelu personol; profi; gwarchod pobl agored i niwed; y Strategaeth Profi, Orlhain, Diogelu; a goblygiadau ariannol i lywodraeth leol. Rydym wedi dewis canolbwyntio ar y meysydd hyn i ddechrau oherwydd eu bod yn adlewyrchu'r meysydd lle'r oedd y pryderon mwyaf dybryd a'r angen i wneud cynnydd yn gyflym.

**18.** Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn ystyried materion cyn bwysiced, ond nad ydym wedi cael cyfle i'w hystyried yn fanwl hyd yma, gan gynnwys llacio ar y cyfyngiadau; y strategaeth ymadael; dychwelyd i 'wasanaethau arferol' yn y GIG a'r sector gofal; y galw am wasanaethau adsefydlu yn y dyfodol; gwasanaethau iechyd meddwl; effeithiau ar ofalwyr di-dâl; a data a'r defnydd o dechnoleg.

**19.** Pwrpas yr adroddiad hwn yw llywio cynlluniau tymor byr a chanolig.

**20.** Ni fwriedir iddo fod yn archwiliad manwl o'r penderfyniadau a wnaed. Mae'n anochel y bydd y rhain yn destun unrhyw ymchwiliad cyhoeddus a gynhelir yn y dyfodol.

## 2. Cyflwyniad

### Covid-19

- 21.** Mae coronafeirysau (CoV) yn deulu mawr o firysau sy'n achosi salwch yn amrywio o'r annwyd cyffredin i glefydau mwy difrifol fel Syndrom Anadlol y Dwyrain Canol (MERS-CoV) a Syndrom Anadlol Acíwt Difrifol (SARS-CoV). Mae coronafeirws newydd (nCoV) yn straen newydd sydd heb ei gweld o'r blaen mewn pobl.
- 22.** Cafodd niwmonia heb achos hysbys a oedd wedi'i ganfod yn Wuhan, Tsieina ei adrodd gyntaf i swyddfa Tsieina Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar 31 Rhagfyr 2019. Cafodd yr achos ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd Cyhoeddus o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020. Rhoddodd WHO enw ar y syndrom a achoswyd gan y coronafeirws newydd hwn: Covid-19.
- 23.** Cadarnhawyd bod coronafeirws 2019-20 wedi lledaenu i'r DU ar 31 Ionawr 2020 pan gadarnhawyd y ddau achos cyntaf o'r clefyd anadlol Covid-19 yn Newcastle upon Tyne.
- 24.** Cadarnhawyd yr achos cyntaf yng Nghymru ar 2 Mawrth 2020.
- 25.** Dechreuodd arbenigwyr gwyddonol a meddygol yn y DU ystyried effaith bosibl Covid-19 ym mis Ionawr. Ar 11 Chwefror, dechreuodd Prif Gynghorydd Gwyddonol dros Iechyd Llywodraeth Cymru ymuno â chyfarfodydd y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar gyfer Argyfyngau (SAGE) bob yn ail wythnos a briffio Prif Swyddog Meddygol Cymru (CMO) a'r Tîm Diogelu Iechyd yn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru.
- 26.** Ar 27 Chwefror, sefydlodd Llywodraeth Cymru Gell Cyngor Technegol (TAC)<sup>1</sup>, wedi'i gyd-gadeirio gan y Prif Gynghorydd Gwyddonol dros Iechyd. Mae'r aelodau'n cynnwys arbenigwyr o Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW).<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> TAC yw'r tîm craidd o weision cyhoeddus sydd: yn cymryd rhan weithredol mewn grwpiau gwyddonol Covid-19 y DU fel SAGE; yn cadeirio a rhedeg TAG a'i is-grwpiau cysylltiedig; yn drafftio a chyhoeddi cyngor i sector cyhoeddus Cymru ac yn cyfleu cyngor a thystiolaeth ar Covid-19 i'r cyhoedd ehangach yn ôl yr angen. TAG yw'r Grŵp Cynghori Technegol: y grŵp o arbenigwyr gwyddonol a thechnegol sy'n darparu cyngor ac arweiniad i Lywodraeth Cymru mewn ymateb i Covid-19.

<sup>2</sup> <https://busnes.senedd.cymru/documents/s100082/Papur%201%20-%20Llywodraeth%20Cymru.pdf>

## Linell amser digwyddiadau allweddol

**27.** Darperir llinell amser fanwl o ymateb llywodraethau Cymru a'r DU ym Mlog Ymchwil y Senedd. Mae fersiwn fyrrach ynghlwm wrth yr adroddiad hwn. Mae'n canolbwyntio ar y digwyddiadau iechyd a gofal cymdeithasol allweddol hyd at ac yn cynnwys 29 Mehefin.

## Ymchwiliad y Pwyllgor

**28.** Canol mis Mawrth 2020, cytunodd y Pwyllgor i oedi pob busnes nad oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â Covid-19, ac i gynnal ymchwiliad i effaith yr achosion, a'r rheolaeth ohonynt, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**29.** Fel rhan o hyn, bydd y Pwyllgor yn archwilio ymateb Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus perthnasol, yn ogystal ag ystyried yr effaith ar staff, cleifion ac eraill sy'n derbyn gofal neu driniaeth mewn lleoliadau clinigol ac yn y gymuned. Bydd hefyd yn ystyried ymateb Cymru yng nghyd-destun ehangach y DU.

**30.** Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi cais agored am dystiolaeth ac mae hefyd yn cynnal arolwg er mwyn deall yn well yr heriau i'r rheini sy'n gweithio ar y rheng flaen, a'r rheini y mae Covid-19 wedi effeithio'n uniongyrchol, neu'n anuniongyrchol, ar eu hanghenion iechyd neu ofal.

**31.** Yn ogystal â gwahodd barn yn ysgrifenedig, mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar raglen o ddigwyddiadau rhithwir i gasglu tystiolaeth lafar, a bydd yn cyhoeddi cyfres o adroddiadau yn nodi ei ganfyddiadau.

**32.** Oni nodir yn wahanol, y ffigurau diweddaraf a oedd ar gael adeg cyhoeddi'r adroddiad yw'r holl ffigurau ynddo.

### 3. Cyfarpar Diogelu Personol

**33.** Nod Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) yw helpu i ddiogelu unigolyn rhag risgiau iechyd neu ddiogelwch yn y gwaith ac atal haint rhag lledaenu. Mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, mae cyfarpar diogelu personol yn cynnwys ystod eang o eitemau, gan gynnwys cyfarpar diogelu ar gyfer y llygaid a'r wyneb, menig, ffedogau a gynau, a chyfarpar diogelu anadlol, fel masgiau neu amddiffynwyr wyneb. Defnyddir gwahanol fathau o gyfarpar diogelu personol, yn ôl lefel y risg, y lleoliad neu'r hyn sy'n cael ei wneud. Mae cyfarpar diogelu personol yn hanfodol er mwyn sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer gofalu am bobl â'r coronafeirws ac osgoi heintio'r rhai sy'n rhoi ac yn derbyn gofal.

**34.** Yng Nghymru, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, yn gweithio gyda'r Storfeydd Cyfarpar ar y Cyd sy'n gwasanaethu awdurdodau lleol, sy'n cydgyssylltu'r gwaith o ddsbarthu cyfarpar diogelu personol.

#### Canllawiau ar gyfarpar diogelu personol

**35.** Cytunwyd ar ganllawiau ar gyfarpar diogelu personol ar y cyd rhwng pedair gwlad y DU, ac fe'u hamlinellir ar yr hwb [cyfarpar diogelu personol Covid-19 DU](#) gyfan, sy'n cynnwys argymhellion ar ddefnyddio cyfarpar diogelu personol ar gyfer ysbytai, gofal sylfaenol, lleoliadau cymunedol a gofal cymdeithasol, yn ogystal ag ar gyfer parafeddygon. Mae'r canllawiau hefyd yn ymdrin â pha mor hir y dylid defnyddio cyfarpar diogelu personol a phryd y dylid ei newid.

**36.** Yn ôl y CLILC, roedd cyhoeddi'r canllawiau wedi'u diweddarau hyn ar 2 Ebrill, a gwybodaeth ychwanegol ddilynol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd yn nodi'n glir ganllawiau manwl ar y lefel briodol a gofynnol o gyfarpar diogelu personol i'w defnyddio gan ofal cymdeithasol mewn lleoliadau penodol, yn bwysig o ran egluro'r defnydd o gyfarpar diogelu personol gan staff gofal cymdeithasol a chynyddu dealltwriaeth o'r hyn sy'n ofynnol.<sup>3</sup>

**37.** Fodd bynnag, dywedodd Fforwm Gofal Cymru wrthym fod y newidiadau i'r canllawiau wedi achosi rhywfaint o ddryswch yn y sector cartrefi gofal. Yn gyntaf, oherwydd bod rhai awdurdodau lleol wedi gweithredu arnynt ar unwaith, tra bod eraill wedi cymryd wythnos neu fwy i'w gweithredu:

“we were getting members contacting us saying the local authority was saying they're not supplying this because it's not the guidance,

<sup>3</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C26

whereas, actually, we were saying, [ ] this new guidance, issued on an all-UK basis by the four nations, was issued last week, and this is what they should be doing.”<sup>4</sup>

**38.** Ac yn ail, oherwydd bod gofynion gwahanol i wisgo cyfarpar diogelu personol ar gyfer staff cartrefi gofal a gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymweld â nhw, a oedd wedi achosi rhywfaint o ddryswch a gofid ymhlith preswylwyr.

### Cyflenwadau cyfarpar diogelu personol

**39.** Mae sicrhau cyflenwadau digonol a pharhaus o gyfarpar diogelu personol wedi achosi cryn bryder ac wedi cael sylw helaeth yn y DU ac yng ngweddill y byd. Mewn diweddariad ar y coronafeirws ar 21 Ebrill, nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod pryderon gwirioneddol am y mater yn y llywodraeth, ac mai'r her cyfarpar diogelu personol oedd ei brif flaenoriaeth ac er bod gan Gymru:

“...enough of stocks of all items to last for a few days, partly because of the mutual aid we received from other UK countries, partly because of the UK supplies that have come in that we've got our population share from. But we're not in a position to say that we have weeks and weeks of advanced stock on all of those items.”

**40.** Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor hwn ar 30 Ebrill, pwysleisiodd y Gweinidog unwaith eto fod y galw yn debygol o aros ymhell uwchlaw'r lefel arferol, ond bod digon o gyfarpar diogelu personol yn y system. Aeth ymlaen i ddweud:

“this is an area where we have made real progress over the last few weeks, but it's not something that I am in any way complacent about or see as a done deal. It's still my No. 1 anxiety about keeping staff safe.”<sup>5</sup>

**41.** Aeth ymlaen i ddweud:

“We're going to use PPE at a much greater rate across health and social care for a long time, so for a long time we'll need to both procure and manufacture our own PPE in different measures, and we then need to think, as we come towards the end of this extraordinary period of time, of what the balance should be for the future in having a robust and sustainable approach to PPE provision that involves the balancing of

---

<sup>4</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Mai 2020, paragraff 264

<sup>5</sup> Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2020, paragraff 233

international procurement and then home provision and home manufacture.”<sup>6</sup>

**42.** Mewn diweddariad i'r Pwyllgor hwn ar 4 Mehefin, dywedodd y Gweinidog wrthym:

“So, we think we are in a much better position. This was my biggest anxiety for some time, as you know, and we came within having days of supplies of some items, rather than weeks. We're now in a position where we think we do have months of supply across most of our items. There's an issue about eye protectors—they're not in quite the same position, but we still have enough—and we're not in a position where we think that that supply chain is at a point where we should be worried about it immediately.”<sup>7</sup>

**43.** Aeth ymlaen i ddweud ei fod yn gweithio'n agos gyda gwledydd eraill y DU:

“We're all trying to pursue our own deliveries as well as working collaboratively around UK procurement, because we need to make sure that we're not closing off any of our routes to market and supply chains, because the position could change, and I do not want to see us go back to the position that we were in in March and April. So, that means longer term manufacture for PPE, not just a few months, from companies in Wales and the rest of Britain, and it means getting ready for the fact that we may see further stress come onto our supply chains in the future. And easing out of lockdown is one of the factors where more PPE could be used.”<sup>8</sup>

## Caffael a gweithgynhyrchu

**44.** Yn draddodiadol mae Cymru a'r DU wedi dibynnu'n gryf ar gyflenwadau o Tsieina a gwledydd eraill yn Asia.

**45.** Mewn diweddariad ar 27 Ebrill, dywedodd y Prif Weinidog nid yn unig bod Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar gysylltiadau sefydledig, ond ei bod yn defnyddio dull amlweddog o sicrhau cyflenwadau cynaliadwy o gyfarpar diogelu personol, gan gynnwys:

---

<sup>6</sup> Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2020, paragraff 236

<sup>7</sup> Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 81

<sup>8</sup> Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 84

- Gweithio gyda gwledydd eraill y DU i gyfuno ymdrechion caffael, dod â stociau newydd i mewn a chynnig cymorth i'w gilydd wrth ddarparu cyfarpar diogelu personol;
- Caffael cyflenwadau ychwanegol o gyfarpar diogelu personol gan ddefnyddio Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru;
- Cyflenwadau rhyngwladol parhaus, gan gynnwys masgiau o Tsieina a gynau o Cambodia;
- Mwy o weithio gyda busnesau Cymru trwy arloesi a llwybrau gweithgynhyrchu newydd, i gynhyrchu cyfarpar diogelu personol gan gynnwys amddiffynwyr wynebau a sgrybs, gyda Chymru bron â bod yn hunangynhaliol o ran cyflenwadau sgrybs.

**46.** Mae tua 90 y cant o gyflenwadau cyfarpar diogelu personol Cymru yn dal i ddod o dramor, er bod Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i gefnogi mwy o gynhyrchu domestig. Yn y Pwyllgor hwn ar 30 Ebrill, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym:

“we’ve had more companies that are coming online making items, from the early stage about hand sanitiser and eye protection equipment—we’ve got quite a number of Welsh firms doing that now. (...) We should be self-sufficient, I think, on scrubs this week. And we’re also then looking at the potential for fluid-resistant gowns to be produced here as well.”<sup>9</sup>

**47.** Mewn diweddariad a gyhoeddwyd ar 19 Mai, dywedodd Llywodraeth Cymru:

“Ni allwn ddibynnu ar gyflenwadau o dramor yn unig – rhaid inni ddatblygu cyflenwad cartref o gyfarpar hanfodol. Rydym yn awyddus i gefnogi cynhyrchwyr yng Nghymru, i’n cadw’n ddiogel a chynnal ein cymunedau, ac rydym yn edrych ar ffyrdd o gynhyrchu mwy o’r PPE y mae ei angen arnom yn nes at adref.

Mae’r arloesedd a’r gefnogaeth o bob cwr o Gymru i ddatblygu mwy o PPE a thechnoleg newydd i fynd i’r afael â’r argyfwng wedi creu cryn argraff arnom.

---

<sup>9</sup> Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2020, paragraff 235



Hyd yn hyn, rydym wedi cael tua 1,000 o ymholiadau a chynigion o gefnogaeth gan gynhyrchwyr, ac mae hanner o'r rhain wedi bod ynglŷn â PPE neu dechnoleg feddygol.

Rydym eisoes yn gweithio gyda llawer o fusnesau yng Nghymru, sydd wedi cynnig eu cymorth a'u harbenigedd i wneud PPE a chyfarpar hanfodol arall i'r GIG, gan gynnwys hylif diheintio dwylo.

Am y tro cyntaf, rydym yn hunangynhaliol o ran sgrybs yng Nghymru – rydym yn gwneud 5,000 yr wythnos, gan ddod â swyddi yn ôl o dramor a'u sefydlu yn economi Cymru.”<sup>10</sup>

## Argaeledd cyfarpar diogelu personol

**48.** Roedd llawer o'r dystiolaeth gynnar a gawsom yn adlewyrchu ofnau a phryderon staff rheng flaen ynghylch argaeledd cyfarpar diogelu personol priodol.

**49.** Yn ôl arolwg<sup>11</sup> a gynhaliwyd gan y BMA rhwng 28 a 30 Ebrill, nid oedd 67 y cant o feddygon yng Nghymru yn teimlo eu bod wedi'u diogelu'n llawn rhag Covid-19 yn y gwaith, ac roedd 60 y cant wedi gorfod prynu eitemau cyfarpar diogelu personol yn uniongyrchol, neu wedi derbyn cyflenwadau fel rhodd allanol oherwydd nad oedd cyflenwadau caffael swyddogol y GIG ar gael.

**50.** Dywedodd y Coleg Nyrsio Brenhinol ei fod wedi cael nifer uchel o alwadau ym mis Mawrth gan aelodau ledled Cymru a oedd yn poeni nad oeddent yn gallu cael gafael ar gyfarpar diogelu personol, yn enwedig gan dimau nyrsio cymunedol. Dywedodd fod 74 y cant o staff nyrsio wedi codi pryderon am gyfarpar diogelu personol, gyda thros hanner (53.8 y cant) wedi teimlo dan bwysau i ofalu am glaf heb amddiffyniad digonol.<sup>12</sup>

**51.** Codwyd pryderon tebyg mewn tystiolaeth a gyflwynwyd gan Goleg Brenhinol y Meddygon<sup>13</sup>, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi<sup>14</sup>, Coleg Brenhinol y Llawfeddygon<sup>15</sup>, a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion.<sup>16</sup>

---

<sup>10</sup> [Coronafeirws a chyfarpar diogelu personol \(PPE\)](#) - 19 Mai 2020

<sup>11</sup> [Datganiad i'r wasg BMA](#) - 3 Mai 2020

<sup>12</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C05

<sup>13</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C08

<sup>14</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C12

<sup>15</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C22

<sup>16</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C31

**52.** Dywedodd Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu wrthym eu bod, yn wreiddiol, wedi cael gwybod nad oedd darpariaeth ar y gweill ar gyfer meddygon teulu. Er i'r sefyllfa hon esblygu'n gyflym, roedd y cyflenwad cychwynnol yn dameidiog ac ni chafodd ei gyfathrebu'n dda. Roedd prinder eglurder ynghylch defnyddio offer yn iawn hefyd.<sup>17</sup> Fodd bynnag, yn ein cyfarfod ar 14 Mai, dywedodd Dr Rob Morgan wrthym:

“I do think we're in a better position now, and I think we as GPs feel a little bit more reassured by the fact that we do have reassurances of supply chains and that PPE isn't likely to run out. (...) those early days were quite scary for us on the front line, and particularly at the point where it was clear that this condition (...) was likely to hit the community quite quickly.”<sup>18</sup>

**53.** Roedd y Gymdeithas Gwarchod Meddygol yn pryderu pe bai meddyg yn penderfynu na allai weld claf Covid-19 yn ddiogel oherwydd diffyg cyfarpar diogelu personol digonol, a bod y claf hwnnw wedyn yn dod i niwed, ni ddylai'r meddyg gael ei ddal yn bersonol gyfrifol gan ei gyflogwr na'r rheoleiddiwr. Galwodd ar Lywodraeth Cymru i gymeradwyo ei barn na ddylai meddygon ledled GIG Cymru fod yn destun camau rheoleiddio neu ddisgyblu yn dilyn penderfyniad neu ganlyniad sy'n codi yn sgil darpariaeth cyfarpar diogelu personol wael.<sup>19</sup>

**54.** Mewn perthynas â darparu cyfarpar diogelu personol ar gyfer fferyllfeydd, dywedodd Fferylliaeth Gymunedol Cymru “er gwaethaf y gefnogaeth wirioneddol a ddangoswyd gan Lywodraeth Cymru i'r rhwydwaith fferylliaeth” dyma un o'r unig feysydd lle maent wir yn teimlo eu bod wedi cael eu methu a'u gadael i ddod o hyd i'w ffynonellau eu hunain o gyfarpar diogelu personol. Dywedodd Mark Griffiths wrthym:

“we received supplies very early on (...) from the health board, which was really good. But, as the time has gone on, there have been issues with regard to getting hold of PPE. So, I would say it's a mixed bag with PPE with regard to pharmacy.”<sup>20</sup>

---

<sup>17</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C03

<sup>18</sup> Cofnod y Trafodion, 14 Mai 2020, paragraff 51

<sup>19</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C07

<sup>20</sup> Cofnod y Trafodion, 14 Mai 2020, paragraff 174

**55.** Fodd bynnag, fe wnaeth y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol groesawu a llongyfarch Llywodraeth Cymru am ei hymateb wrth sicrhau bod cyfarpar diogelu personol yn cael ei gyflenwi i dimau fferyllol yn gynnar, gan ddweud:

“We were pleased that PPE was distributed rapidly to all 715 community pharmacies in Wales. Feedback from our members suggests that, generally, the standard of PPE and the speed of its distribution to pharmacy teams has met need.”<sup>21</sup>

**56.** Nododd tystiolaeth ysgrifenedig gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<sup>22</sup> fod y Bwrdd yn credu bod y rheolaeth a'r cyflenwad o gyfarpar diogelu personol wedi bod yn effeithiol, gydag unrhyw risgiau'n cael eu rheoli'n dda trwy brosesau uwchgyfeirio. Dywedodd Dr Sarah Aitken wrthym:

“the issue with PPE was the quantity that was needed very quickly and the need to put in place a supply chain that could manage that quantity from sourcing it at Government level through to distributing it to every single frontline worker. The military have been incredibly helpful in terms of understanding that end-to-end supply chain, and in terms of the hospital, we have always had sufficient PPE in our hospitals and we've now got good flow through to every ward.”<sup>23</sup>

**57.** Dywedodd Dr Chris Stockport am sefyllfa debyg yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

“we set up within the first few weeks a PPE cell and took in support from our military liaison colleagues in terms of help to distribute equipment more quickly and to move it around north Wales, and that's worked well. I'd say that, at the moment, we're in a position where our PPE supplies are more predictable. Certainly, looking at the stocks that we're holding at the moment, we have stocks across all of our equipment.”<sup>24</sup>

**58.** Rydym wedi clywed gan nifer o dystion, gan gynnwys Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu a'r Coleg Nyrsio Brenhinol, er bod y sefyllfa wedi gwella o ran cyflenwadau ac argaeledd cyfarpar diogelu personol, y byddent yn parhau i geisio sicrwydd ynghylch parhad cyflenwadau cyfarpar diogelu personol, yn enwedig ar

---

<sup>21</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C21

<sup>22</sup> [Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon](#), 21 Mai 2020, Papur 1

<sup>23</sup> Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 214

<sup>24</sup> Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 217

ôl i'r cyfyngiadau symud cyfredol gael eu llacio. Yn yr un modd, dywedodd y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys:

“Frontline staff are grateful for the PPE that has been made available to them to date, but the ongoing supply continues to be a worry, and the fear remains that a significant surge in demand (...) could stress the supply chain.”<sup>25</sup>

**59.** Dywedodd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon wrthym, cyn ailddechrau gwasanaethau llawfeddygol, y dylai ysbytai fod yn fodlon bod ganddynt gyflenwadau digonol o gyfarpar diogelu personol ac offer llawfeddygol sy'n briodol i'r nifer a'r math o driniaethau a wneir, a pholisïau clir ar sut a phryd i'w defnyddio.<sup>26</sup>

### Dyluniad a ffit cyfarpar diogelu personol

**60.** Cododd tystiolaeth gan Goleg Brenhinol y Meddygon bryderon ynghylch ffit cyfarpar diogelu personol, gan ddweud:

“Bydd PPE ond yn effeithiol pan fydd yn ffitio'n briodol, felly mae'n peri pryder nad oedd 21% [o'i aelodau] wedi'u mesur i'w ffitio neu nad oeddent wedi gallu cael mynediad at wasanaeth mesur ar gyfer eu PPE. (...) Mae'n rhaid mesur a gwirio er mwyn diogelu staff yn briodol.”<sup>27</sup>

**61.** Aeth ymlaen i ddweud bod profi ffit yn bwysicach nag erioed os oedd masgiau'n cael eu hailddefnyddio, ac roedd y Coleg wedi bod yn annog ei aelodau i gael partner cyfarpar diogelu personol wrth wisgo a dadwisgo cyfarpar i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn gywir i leihau risg.

**62.** Tynnodd sylw hefyd at y problemau ychwanegol sy'n wynebu menywod sy'n ceisio cael ffit diogel ar gyfer eu masgiau cyfarpar diogelu personol:

“Er y gyfran uchel o glinigwyr benywaidd sy'n gweithio yn y GIG, mae masgiau PPE wedi'u cynllunio ar gyfer fframiau gwrywaidd yn bennaf. Dywedodd un aelod o CBM wrthym eu bod ond wedi pasio'r prawf ffitio pan oedd y masg wedi'i osod yn dynn iawn – rhywbeth yr oeddent yn poeni na allant ei ailadrodd mewn sefyllfa frys.”<sup>28</sup>

---

<sup>25</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C37

<sup>26</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C22

<sup>27</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C08

<sup>28</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C08

**63.** Dywedodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru wrthym fod hyfforddiant a chyfathrebu wedi bod yn allweddol, gan gynnwys cefnogi staff gyda hyfforddiant ar ddefnyddio cyfarpar diogelu personol a bod yn glir ynghylch y lefelau sy'n ofynnol mewn gwahanol senarios clinigol:

“Mae profi ffit, proses asesu aelod staff yn defnyddio masg wyneb hidlo (FFP3) wedi bod yr un mor bwysig, gan ei fod yn hanfodol bwysig bod staff yn sicrhau “ffit” cywir pob math o fasg a ddarperir i sicrhau eu defnydd diogel yn y lleoliadau gweithredol.”<sup>29</sup>

**64.** Roedd tystiolaeth gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar a Choleg Brenhinol y Meddygon yn tynnu sylw at y problemau y mae masgiau cyfarpar diogelu personol afloyw yn eu hachosi i weithwyr gofal iechyd, cleifion a gofalwyr sy'n fyddar neu'n dioddef o golli clyw:

“We understand the need for PPE in health settings to mitigate risks of the virus and keep people safe, but we are concerned that this does present communication barriers for deaf patients and for deaf members of staff.”<sup>30</sup>

**65.** Adroddodd Coleg Brenhinol y Meddygon fod cyflau ag anadlyddion a oedd yn dryloyw wedi'u defnyddio gydag adborth cadarnhaol gan y rhai a oedd yn eu gwisgo a chleifion mewn rhai ysbytai. Awgrymodd y dylai timau caffael Llywodraeth Cymru geisio ehangu'r dewis o gyfarpar diogelu personol sy'n cael ei brynu gyda'r nod o sicrhau bod gan bob aelod o weithlu'r GIG y cyfarpar diogelu personol sydd ei angen arnynt.

## Cyflenwi'r sector gofal cymdeithasol

### Gofal preswyl

**66.** Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae pob lleoliad gofal cymdeithasol wedi derbyn cyflenwadau rheolaidd o gyfarpar diogelu personol am ddim o storfeydd canolog a phandemig Cymru i ategu eu cyflenwadau rheolaidd o gyfarpar diogelu personol. Dywed “erbyn 24 Ebrill, roedd bron i 12m o eitemau Cyfarpar Diogelu Personol wedi'u dosbarthu i holl storfeydd offer ar y cyd ag awdurdodau lleol i'w dosbarthu ymlaen i lleoliadau gofal cymdeithasol yng Nghymru”.<sup>31</sup>

<sup>29</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C41

<sup>30</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C36

<sup>31</sup> [Cefnogi gofal cymdeithasol yn ystod yr achos coronafeirws](#) - 29 Ebrill 2020

**67.** Fodd bynnag, mae tystiolaeth gan Undeb Llafur y GMB yn awgrymu nad oedd mwyafrif y cyflogwyr wedi paratoi'n ddigonol ar gyfer Covid". Aeth ymlaen i ddweud:

"GMB members working in the sector were terrified that the only provision that they were being provided with to deal with the Covid outbreak were gloves and plastic aprons, this was woefully inadequate and GMB believed that this left the workforce at high risk of infection and heightened the risk and the number of deaths in the care homes."<sup>32</sup>

**68.** Ymhellach, nododd y GMB, er bod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu i ddsbarthu i leoliadau gofal cymdeithasol ar 21 Mawrth ac o stociau canolog i Fyrddau Iechyd ar 25 Mawrth, roedd llawer o ddarparwyr yn dal i gael trafferth cynnal cyflenwadau am nifer o wythnosau ar ôl y dyddiad hwn.

**69.** Tynnodd Fforwm Gofal Cymru sylw hefyd at broblemau yn ymwneud â rhagweladwyedd y cyflenwad:

"I had one provider speak to me yesterday to say, 'Oh, it's brilliant, we've received (...) 6,000 gloves, whereas last time, in the last few weeks, we got a box of a 100. And so, it's great, but we didn't know if we were going to get that and we don't know what we're going to get through that route next week.'"<sup>33</sup>

**70.** Roedd hygyrchedd cyflenwad wedi achosi problemau i'r sector hefyd:

"a lot of PPE suppliers were only dealing with existing clients. If you happened to be an existing client of a firm that had things in stock that Public Health England were saying could only be sold to providers in England, then you weren't able to access those, but you also weren't able to access them from alternative suppliers in the way you normally would, because they were only dealing with existing clients."<sup>34</sup>

**71.** Yn olaf, dywedwyd wrthym fod cost gynyddol cyfarpar diogelu personol yn byder sylweddol i'r sector wrth symud ymlaen:

---

<sup>32</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C46

<sup>33</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Mai 2020, paragraff 262

<sup>34</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Mai 2020, paragraff 272

“the problem with PPE is a lot of it is not reusable, and so we’ve got continuing concerns going forward about if something were to happen to break supply chains again, or simply just the escalating costs. We’ve been in contact with suppliers who are talking about 200 per cent increases in the costs of PPE going forward, and, obviously, that’s another financial burden for providers.”<sup>35</sup>

**72.** Canmolodd CLILC y sector am y ffordd yr oedd wedi ymateb i’r heriau a godwyd gan Covid-19, gan ddweud:

“the workforce is doing an incredible job in extremely testing circumstances, many going above and beyond to care for people. However, it is also a dangerous job with the risk posed by the virus, with colleagues putting themselves, their families and their communities at risk.”<sup>36</sup>

**73.** Dywedodd fod llywodraeth leol, ar ddechrau’r achos, wedi codi pryderon sylweddol ynghylch argaeledd cyfyngedig cyfarpar diogelu personol o stociau Llywodraeth Cymru ar gyfer staff gofal cymdeithasol, gan gynnwys diffyg eglurder ar lefelau stoc a chyflenwadau anghyson ac anghyflawn yn cael eu darparu ar draws awdurdodau. Roedd pryderon ynghylch cyflenwi cyfarpar diogelu personol wedi hoelio’r sylw mewn trafodaethau cynnar rhwng arweinwyr a Gweinidogion ac roeddent yn parhau i fod yn risg sylweddol i lawer o awdurdodau. Dywedodd y Cynghorydd Huw David wrthym:

“Initially, all Members will be aware that there were significant concerns about the limited availability of PPE. That has been addressed. We saw the new guidance back at the start of April, which led to a big increase in the demand and use of PPE. We’ve now got a stable supply from Welsh Government, and we are able to meet the current needs. We are, of course, very cautious, because if restrictions continue to be lifted and there’s a demand for PPE in other sectors of society, then that may have an impact on the overall total supply, and I know that, with Welsh Government, we are looking at opportunities to secure future supplies from here in Wales.”<sup>37</sup>

---

<sup>35</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Mai 2020, paragraff 244

<sup>36</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C2

<sup>37</sup> Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 94

**74.** Gwaethygydd y sefyllfa ymhellach gan yr angen i ddarparu cefnogaeth i'r sector cartrefi gofal annibynnol, a fyddai wedi dod o hyd i'w gyflenwadau cyfarpar diogelu personol ei hun cynt, ond a oedd yn cael trafferth gwneud hynny oherwydd bod cyflenwadau'n cael eu prynu'n ganolog i'w defnyddio yn y gwasanaeth iechyd. Ar 30 Ebrill, dywedodd y Gweinidog wrthym:

“... it became very clear that the Government, through the National Health Service, would need to provide PPE to the social care sector, because their supply lines had collapsed, they weren't able to provide PPE. And whilst it's legally the employer's responsibility to provide PPE to their workers, if we'd said, 'We're not helping social care', then we could all predict in a few easy steps what would have happened to businesses in that sector and to workers in that sector who'd have been left unprotected. So, we stepped in, and that is the measure of the extraordinary times that we're in to provide free, state-provided personal protective equipment to a largely independent sector business.”<sup>38</sup>

**75.** Dywedodd CLILC fod cryn dipyn o waith a thrafodaethau wedi digwydd ac yn parhau i ddigwydd i gynyddu a gwella cyflenwad cyfarpar diogelu personol a'r arwyddion cyfredol oedd bod cyflenwadau i gynghorau o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru bellach yn gwella.

**76.** Cadarnhaodd y Cynghorydd Andrew Morgan, hyd y gwyddai, nad oedd unrhyw awdurdod lleol wedi rhedeg allan o gyfarpar diogelu personol ond bod hynny wedi dod o fewn trwch blewyn i ddigwydd, mater o oriau, a'u bod wedi gorfod cael cyflenwadau brys a'u dosbarthi i'r sector gofal preifat ac annibynnol.<sup>39</sup> Aeth ymlaen i ddweud:

“There is a robust system in place. (...) I've had no complaints on PPE for the last couple of weeks. Initially, I think it was around understanding exactly who needed it and making sure we had those. Ideally, every council leader would like to say to their staff, 'We've got a store of a week's or two weeks' worth of PPE'. Unfortunately, at best we had a day's supply of PPE, and that's why it was critical to make sure we kept getting those supplies.”<sup>40</sup>

---

<sup>38</sup> Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2020, paragraff 234

<sup>39</sup> Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 96

<sup>40</sup> Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 100



**77.** Yn olaf, dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Deloitte i ddarparu map o'r galw i helpu i drefnu cyflenwadau o gyfarpar diogelu personol yn fwy effeithlon yn y dyfodol ac roedd CLILC wedi bod yn helpu i gydlynu'r data galw ar gyfer awdurdodau lleol:

“There remains a need to be cautious about how supplies are distributed as quantities are huge and supply arrangements are still being developed however, good working relationships have been established with the NHS Shared Services Partnership and across procurement teams in Wales.”<sup>41</sup>

## Gofal cartref

---

**78.** Codwyd diffyg cyfarpar diogelu personol ar gyfer gweithwyr gofal cartref mewn tystiolaeth i ni hefyd. Clywsom am rwystredigaethau un gofalwr ynglŷn â diffyg cyfarpar diogelu personol ar gyfer gofalwyr cyflogedig a oedd yn dod i mewn i gynorthwyo ei wraig, gan roi eu bywyd eu hunain a bywydau ef a'i wraig sy'n byw gyda dementia mewn perygl. Roedd y gofalwr yn ymwybodol nad y gweithiwr gofal oedd ar fai ond roedd yn teimlo y dylai'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r darparwr gofal fod wedi delio â hyn.<sup>42</sup>

**79.** Dywedodd yr MS Society<sup>43</sup>, Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor<sup>44</sup> a Tide (together in dementia everyday)<sup>45</sup> wrthym fod y diffyg cyfarpar diogelu personol yn achosi i rai pobl ganslo eu gofal er mwyn amddiffyn eu hunain rhag haint. Roedd hyn yn rhoi straen ychwanegol arnynt ar adeg pan oedd eu hiechyd meddwl yn dioddef o ganlyniad i hunanynysu a diffyg darpariaeth seibiant.

**80.** Yn fwy eang, cododd y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys bryderon y gallai diffyg darpariaeth cyfarpar diogelu personol mewn gofal cymdeithasol arwain at ganlyniadau niweidiol i Adrannau Brys, gan y byddai cynnydd yng nghyfraddau heintio cartrefi gofal yn golygu bod angen derbyn mwy o gleifion i'r Adran Achosion Brys. Dywedodd wrthym hefyd fod clinigwyr mewn Adrannau Brys yn dechrau gweld cynnydd yn nifer y bobl ifanc dan oed a chleifion Covid-19 nad

---

<sup>41</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C26

<sup>42</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C28

<sup>43</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C24

<sup>44</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C40

<sup>45</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C28

---

oeddent yn sâl a oedd, tan yn ddiweddar, wedi osgoi mynd i Adrannau Brys, a fyddai hefyd yn arwain at ddefnyddio mwy o gyfarpar diogelu personol.<sup>46</sup>

## Hosbisau

---

**81.** Nododd tystiolaeth gan Hospice UK a Hospices Cymru fod hosbisau yng Nghymru wedi'u cynnwys mewn cyflenwadau cyfarpar diogelu personol gan eu byrddau iechyd lleol ac, yn dilyn rhai problemau ddiwedd mis Mawrth, bod mwyafrif yr hosbisau bellach yn rhan o broses cynllunio cyflenwad wythnosol eu bwrdd iechyd. Nodwyd ganddynt fod hyn yn wahanol i hosbisau yn Lloegr, a oedd heb gael eu cynnwys yng nghadwyni cyflenwi cyfarpar diogelu personol GIG Lloegr tan ddechrau mis Mai. Er gwaethaf hyn, nododd:

“most hospices are still reliant on purchasing PPE through private suppliers (where supply is available) and on the generous donations of PPE from their communities.”<sup>47</sup>

**82.** Galwodd am ddull mwy unffurf a sefydledig sy'n golygu bod pob hosbis yn derbyn yr hyn sydd ei angen arno.

**83.** Ymhellach, wrth i Lywodraeth Cymru gymryd camau tuag at adferiad, nododd ei fod yn gobeithio y bydd mesurau'n cael eu cynnwys sy'n rhoi mwy o sicrwydd a hyder i ddarparwyr gofal diwedd oes. Bydd sicrwydd y byddant yn gallu cael y lefelau gofynnol o gyfarpar diogelu personol yn amserol yn galluogi hosbisau i flaengynllunio ymhellach a chynyddu eu gallu i gefnogi'r fframwaith adfer.<sup>48</sup>

## Ein barn ni

**84.** Diffyg cyfarpar diogelu personol priodol oedd un o'r problemau mwyaf yn gynnar yn yr achos Covid-19.

**85.** Mae cyfarpar diogelu personol yn hanfodol er mwyn sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer gofalu am bobl â'r coronafeirws ac osgoi heintio'r rhai sy'n rhoi ac yn derbyn gofal. Mae'n destun pryder mawr, felly, ein bod ni, ar brydiau, wedi dod o fewn dyddiau i redeg allan. Yn wir, dywedodd y Gweinidog ei hun wrthym mai argaeledd cyfarpar diogelu personol oedd ei bryder mwyaf am gryn amser.

---

<sup>46</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C37

<sup>47</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C20

<sup>48</sup> Hospice UK a Hospices Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig

- 86.** Testun pryder arall oedd yr adroddiadau am y gorbryder a'r ofn a brofwyd gan lawer o staff rheng flaen heb fynediad at gyfarpar diogelu personol priodol. Clywsom fod rhai wedi gorfod ailddefnyddio cyfarpar diogelu personol untro, neu hyd yn oed wedi gorfod dod o hyd i'w masgiau a'u sgrybs eu hunain gan nad oeddent yn gallu eu cael trwy stociau swyddogol.
- 87.** Arweiniodd methiant i gyfathrebu'n effeithiol yn gynnar yn yr achos at ddryswch ynghylch pa gyfarpar diogelu personol oedd yn briodol i'w ddefnyddio o dan wahanol amgylchiadau. Ymhellach, roedd canfyddiad ymhlith rhai staff bod cyngor ar ddefnydd priodol o gyfarpar diogelu personol, y cytunwyd arno ar lefel y DU, yn newid yn ôl yr hyn a oedd ar gael yn hytrach na'r hyn a oedd ei angen. Bu hyn yn niweidiol i hyder a morâl. Mae angen i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid ddysgu o hyn, a sicrhau nad yw amgylchiadau tebyg yn codi eto.
- 88.** Roedd problemau difrifol hefyd gyda'r gwaith o ddsbarthu cyfarpar diogelu personol, gyda llawer, gan gynnwys llywodraeth leol, fferyllwyr a darparwyr gofal cymdeithasol, yn sôn am broblemau gyda chyflenwadau yn eu cyrraedd.
- 89.** Mae'r sefyllfa wedi gwella dros amser o ran cyflenwadau, argaeledd a dosbarthiad cyfarpar diogelu personol o ganlyniad i ymdrechion ar y cyd gan GIG Cymru, llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru, naill ai'n unigol neu mewn cydweithrediad â'u sefydliadau cyfatebol yn y DU. Ymhellach, rydym yn croesawu'r trefniadau cymorth cyd-fuddiannol sydd wedi datblygu gyda gwledydd eraill y DU sydd wedi bod yn dyngedfennol ar adegau pan fydd y naill neu'r llall wedi profi prinder cyflenwadau.
- 90.** Fodd bynnag, yng ngeiriau Llywodraeth Cymru, mae'r system yn parhau i fod yn sefydlog ond yn fregus.
- 91.** Canfuwyd bod y dull yn y DU o ddibynnu ar ddarparwyr tramor ar gyfer cyfarpar diogelu personol a sicrhau cyflenwadau 'dim ond mewn pryd' pan fydd eu hangen wedi bod yn ddiffygiol yn wyneb pandemig byd-eang a'r pwysau a gododd yn sgil hynny. Rhaid i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid gymryd camau brys i ddatrys y problemau hyn cyn unrhyw achos pellach.
- 92.** Wrth wneud hynny, rhaid mynd i'r afael â'r problemau a godwyd yn yr adroddiad hwn ynghylch dyluniad a ffit cyfarpar diogelu personol, ynghyd â'r angen i sicrhau bod cyfarpar diogelu personol yn addas ar gyfer staff, cleifion neu ofalwyr sy'n fyddar neu â nam ar eu clyw.

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati ar fyrder i:

- gyhoeddi strategaeth ar gyfer sicrhau cyflenwad gwydn o gyfarpar diogelu personol;
- casglu ynghyd lefelau digonol o gyfarpar diogelu personol priodol ar gyfer unrhyw achos yn y dyfodol;
- adolygu'r cyfarpar diogelu personol y mae wedi'i gasglu ynghyd i sicrhau ei fod yn parhau i fod o ansawdd digonol a'i fod yn addas at y diben, gan gynnwys bod y dyluniad a'r ffit yn briodol ar gyfer pawb sy'n ei wisgo ac yn addas ar gyfer staff, cleifion neu ofalwyr sy'n fyddar neu â nam ar eu clyw;
- cyhoeddi strategaeth ar gyfer sicrhau gwydnwch y trefniadau dosbarthu ar gyfer cyfarpar diogelu personol;
- gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod canllawiau ar gyfarpar diogelu personol yn cael eu diweddarau yng ngoleuni'r cyngor gwyddonol diweddaraf, a chyfathrebu'r cyngor hwn yn glir i'r staff.

**93.** Rydym yn cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu gwydnwch yn y cyflenwad trwy annog cynhyrchu cyfarpar diogelu personol yn y cartref. Mae llawer o fusnesau yng Nghymru wedi arallgyfeirio o'u meysydd cynhyrchu arferol i gynorthwyo'r ymateb brys. Ar ryw bwynt, efallai y byddant am ddychwelyd i'w busnes craidd, oni bai bod y cynhyrchion cyfarpar diogelu personol y maent wedi bod yn eu gwneud yn parhau i fod yn gynnyrch hyfyw iddynt. Credwn ei bod hi'n werth i Lywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau ar gyfer cefnogi busnesau lleol sy'n dymuno parhau i wneud cyfarpar diogelu personol, naill ai fel eu prif gynnyrch neu drwy ehangu eu busnes presennol.

**94.** Yn gysylltiedig â hyn, rydym yn ymwybodol o lawer o gynigion a wnaed gan nifer o fusnesau Cymru i Lywodraeth Cymru i ddarparu cyfarpar diogelu personol na chawsant eu hystyried ymhellach. Mae angen mynd i'r afael â'r broblem hon cyn unrhyw achos pellach fel bod systemau ar waith ar gyfer gwerthuso a gwneud y defnydd gorau o gynigion o gymorth mewn modd amserol.

**Argymhelliad 2.** Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu ei systemau ei hun i sicrhau bod y mecanweithiau ar waith i alluogi gweithgynhyrchwyr yng Nghymru i ymateb yn gyflym wrth gyflenwi cyfarpar diogelu personol priodol pe bai unrhyw achosion yn y dyfodol. Rhaid i hyn gynnwys cael trefniadau caffael sy'n gallu ymateb yn amserol.

- 95.** Roedd sicrhau cyflenwadau digonol o gyfarpar diogelu personol yn her sylweddol i'r sector gofal cymdeithasol, yn enwedig yn nyddiau cynnar yr achos. Clywsom fod cyflenwadau mawr sy'n dod i'r DU yn cael eu cyfeirio i'r GIG, gan adael i'r sector ddod o hyd i'w gyflenwadau ei hun i raddau helaeth. Darparwyd rhai cyflenwadau gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, a bu'r rhain o gymorth i ategu'r cyflenwadau roedd darparwyr yn eu prynu eu hunain.
- 96.** Mae'n hanfodol, wrth i ni symud ymlaen, ac yn enwedig wrth i'r cyfyngiadau symud a'r cyfyngiadau ymweld gael eu llacio, bod cyflenwadau digonol o gyfarpar diogelu personol yn cael eu cynnal i'w defnyddio yn y sector gofal cymdeithasol.
- 97.** Yn ychwanegol at hyn, rydym yn ymwybodol o rai problemau y mae sefydliadau'r trydydd sector wedi'u hwynebu wrth geisio cael cyfarpar diogelu personol priodol. Mae'r sefydliadau hyn yn darparu gwasanaethau gofal hanfodol i rai o'n pobl fwyaf agored i niwed. Credwn y dylai unrhyw un sy'n darparu gwasanaethau o'r fath gael mynediad at y cyfarpar diogelu personol sydd ei angen arnynt.
- Argymhelliad 3.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau gofal hanfodol fynediad dibynadwy at gyfarpar diogelu personol priodol.
- 98.** Yn olaf, mae Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cael eu syfrdanu gan gyfraniad anhygoel y gwirfoddolwyr lu ledled y wlad sydd wedi bod wrthi'n cynhyrchu cyfarpar diogelu personol. Hoffem fachu ar y cyfle hwn i dalu teyrnged i bawb sydd wedi bod yn gwneud masgiau, yn gwnïo sgrybs a gynau ac yn argraffu feisorau. Gwerthfawrogir eich cyfraniad yn fawr ac mae'n dangos ein cymunedau ar eu gorau.

## 4. Profi

### Canllawiau ar brofi

**99.** Mae canllawiau ar brofi wedi newid yng ngoleuni'r dystiolaeth wyddonol sy'n dod i'r amlwg a chynnydd yn nifer y profion y gellir eu cynnal.

**100.** Ym mis Mawrth, ar ôl symud o'r cam cyfyngu i'r cam oedi, cafodd profion yng Nghymru eu blaenoriaethu i ddechrau ar gyfer unigolion a oedd angen cael eu derbyn i'r ysbyty, cyn cyflwyno profion yn raddol ar gyfer gweithwyr gofal iechyd a oedd yn rhoi gofal clinigol rheng flaen i iechyd wrth i'r capasiti gynyddu.<sup>49</sup>

**101.** Cyhoeddwyd canllawiau wedi'u diweddarau ar brofi gan Lywodraeth Cymru ar 30 Mai<sup>50</sup>. Ehangodd hyn y profion i aelodau'r cyhoedd a oedd yn profi symptomau, ac roedd yn cynnwys oedolion a phlant. Mae angen cynnal y prawf yn ystod y pum niwrnod cyntaf o gael symptomau ac mae unigolion yn gallu dewis rhwng canolfan profi drwy ffenest y car neu archebu pecyn profi gartref.

### Hygyrchedd

**102.** Cawsom adroddiadau cychwynnol bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn cael anhawster cael gafael ar brofion. Yn ôl arolwg o'i aelodau a gynhaliwyd gan Goleg Nyrsio Brenhinol Cymru:

“Of the 556 respondents who said they needed a test 255 were offered it or 45.9%.”

**103.** Nododd hefyd, er bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau a pholisi clir ar brofi, ei bod yn bwysig bod y canllawiau hyn yn ddealladwy ac yn hygyrch i weithwyr rheng flaen a rheolwyr ledled Cymru. Dim ond 50 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn gwybod sut i gael prawf/gwneud cais am brawf yn eu gweithle.<sup>51</sup>

**104.** Erbyn canol mis Mai, fodd bynnag, roeddent yn adrodd rhywfaint o welliant er ei fod yn eithaf bach:

---

<sup>49</sup> [Datganiad Ysgrifenedig: Coronafeirws \(Covid-19\) - Profion](#) - 18 Mawrth 2020

<sup>50</sup> [Gwneud cais i gael prawf coronafeirws](#) - 30 Mai 2020

<sup>51</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C05

“the data shows that we’ve still got some work to do, although that is improving, to make sure that we get the message out about who can have the test and who can’t.”<sup>52</sup>

**105.** Roedd Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu hefyd yn teimlo bod y broses profi wedi gwella o ran mynediad, ond dywedodd fod rhywfaint o amrywiad o hyd ledled Cymru:

“if you look back to March, I know that some of my colleagues have e-mailed and tweeted members on the committee already about difficulties they had, and particularly if they’re working freelance. But those difficulties seem to have been erased now and people seem to be able to access tests very well. I think that’s because the system’s become a little bit more refined.”<sup>53</sup>

**106.** Tynnodd tystiolaeth gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru sylw at amrywioldeb ledled Cymru hefyd, er ei bod yn awgrymu bod hyn bellach wedi setlo ac wedi ei symleiddio. Soniodd hefyd fod “tipyn o rwystredigaeth o du cyflogeion a’r sefydliad gyda’r broses atgyfeirio, cyflymder cael prawf a’r prosesau derbyn canlyniadau” a daeth i’r casgliad:

“Mae mwyafrif y problemau hyn wedi’u datrys yn awr, ond wrth i’r wlad symud at fodel “profi, olrhain, diogelu” bydd cael prosesau llyfn, sydyn ac unfath yn bwysig.”<sup>54</sup>

**107.** Yn ôl BMA Cymru Wales:

“it is apparent from the data and member feedback, that the increased capacity within the testing system is not being used to its fullest extent and there are still clear operational challenges in accessing tests from within health boards and in primary care.”<sup>55</sup>

**108.** Aeth ymlaen i ddweud, wrth i gynlluniau gael eu trafod ar gyfer ailddechrau rhannau o’r gwasanaeth iechyd sydd wedi’u hatal dros dro, ei bod yn hanfodol bod system o brofion rheolaidd ac ailadroddus ar gael i staff gofal iechyd fel y gallant ddychwelyd i’r gwaith ar ôl hunanynysu, a rhoi sicrwydd parhaus i staff a chleifion. Awgrymodd hefyd, o hyn ymlaen, y dylid profi staff asymptomatig yn

---

<sup>52</sup> Cofnod y Trafodion, 14 Mai 2020, paragraff 72

<sup>53</sup> Cofnod y Trafodion, 14 Mai 2020, paragraff 77

<sup>54</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C41

<sup>55</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C27

rheolaidd wrth i'r gwasanaeth agor i roi sicrwydd rheolaidd ynghylch trosglwyddo'r feirws.”

**109.** Yn yr un modd, galwodd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon ar i ysbytai fod yn ymwybodol o faint o brofion diagnostig sydd ar gael iddynt a datblygu polisiau clir ar gyfer mynd i'r afael â gofynion profi ar gyfer staff a chleifion a pha mor aml fydd y profion hynny'n digwydd. Awgrymodd hefyd y dylid cynyddu'r gallu i brofi yng Nghymru yn ddramatig ac, fel yn Lloegr, y dylid ei ymestyn i gynnwys staff asymptomatig.<sup>56</sup>

**110.** Amlygodd tystion, gan gynnwys Coleg Brenhinol y Meddygon a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion, yr angen i aelodau aelwydydd staff y GIG allu cael eu profi hefyd. Dywedodd Coleg Brenhinol y Meddygon wrthym:

“Dywedodd 31% [o'r aelodau a holwyd] nad oeddent yn gallu cael mynediad at brawf ar gyfer aelod o'u haelwyd sy'n arddangos symptomau. Gallai gwybod a oes gan aelodau aelwyd y coronafeirws wneud y gwahaniaeth o ran a all gweithiwr rheng flaen y GIG ddychwelyd i'r gwaith neu hunanynysu o bosibl am 14 diwrnod heb gadarnhad o ddiagnosis.”<sup>57</sup>

**111.** Dylid nodi, ers 18 Mai, bod pawb dros 5 oed sydd â symptomau yn gymwys i gael prawf bellach.

**112.** Clywsom hefyd am yr angen i ddychwelyd canlyniadau profion yn gyflymach, gyda nifer o ymatebwyr yn tynnu sylw at amrywiadau rhanbarthol. Yn ôl Coleg Nyrso Brenhinol Cymru:

“There are regional differences in the time it takes to return a test result; only 36% of respondents in North Wales received their tests in 2 days, compared to 59% in South Wales Central.”<sup>58</sup>

**113.** Ategwyd y farn hon gan y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys a oedd yn cydnabod yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud i gael profion cyflymach ond daeth i'r casgliad:

“there remains an unacceptable variation in terms of receiving tests and the turnaround with regard to results. A rapid result makes it

---

<sup>56</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C22

<sup>57</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C08

<sup>58</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C05



possible to move a patient to a Covid-positive or negative ward quickly and reduces the potential for admitting patients to Covid-19 wards with suspected Covid-19 who subsequently test negative. Keeping community wards safe is paramount but keeping patients in hospital for up to 14 days will put considerable pressure on secondary care.”<sup>59</sup>

## Gallu i brofi

**114.** Mewn datganiad ysgrifenedig dyddiedig 21 Mawrth 2020, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol “mae’r capasiti profi wedi parhau i gael ei gynyddu a gall Iechyd Cyhoeddus Cymru nawr wneud dros 800 o brofion y dydd.”

“O 1 Ebrill, bydd modd gwneud 5,000 o brofion pellach y dydd (cyfanswm – 6,000 y dydd).

O 7 Ebrill, bydd modd gwneud 2,000 o brofion pellach y dydd (cyfanswm – 8,000 y dydd).

Erbyn diwedd mis Ebrill, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn anelu at allu gwneud hyd at 9,000 o brofion y dydd yng Nghymru.”<sup>60</sup>

**115.** Fodd bynnag, disgrifiodd yr adolygiad o’r profion ar gyfer Covid-19 a gyhoeddwyd ar 18 Ebrill “oedi amrywiol” a “problemau cadwyn gyflenwi”, a chadarnhaodd na fyddai’r targed o 5,000 o brofion erbyn trydedd wythnos mis Ebrill yn cael ei gyrraedd.<sup>61</sup> Argymhellodd yr adolygiad y dylid gwella prosesau ar gyfer atgyfeirio profion a chanlyniadau, ac ymrwymodd i ddiweddariadau wythnosol yn nodi’r cynnydd disgwylidig a gwirioneddol yn y gallu i brofi.

**116.** Ar 20 Ebrill, cadarnhaodd y Prif Weinidog eu bod yn cefnu ar y targed i gynnal 5,000 o brofion y dydd, ac mewn Cyfarfod Llawn ar 22 Ebrill, nododd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

“The reason, though, why we’re not having to test 5,000 people a day and more is because of the social distancing that’s been introduced, because of the measures we took to put the country into lockdown...”<sup>62</sup>

<sup>59</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C37

<sup>60</sup> [Datganiad Ysgrifenedig: Coronavirus \(Covid-19\) - Diweddariad](#) - 21 Mawrth 2020

<sup>61</sup> [Adolygiad o’r profion ar gyfer Covid-19](#) - 18 Ebrill 2020

<sup>62</sup> Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, 22 Ebrill 2020, paragraff 125

**117.** Cefnogwyd hyn gan Dr Rob Orford, a ddywedodd wrthym:

“I made the forecast back in early March and [ ] we’re at the end of April now. If you reflect backwards, the reasonable worst-case scenarios that we’d forecast for unmitigated access of this virus into the community was significant. The control measures that we’ve put in place have suppressed the epidemic significantly in Wales [ ]. And so, some of the forecasts were based on potential numbers that we might be seeing coming through the door at hospitals each day, and that’s been a success story that perhaps we haven’t considered. The might of the public in observing those social distancing measures has suppressed the epidemic so significantly that we’re not getting the anticipated flow.”<sup>63</sup>

**118.** Mewn tystiolaeth i’r Pwyllgor hwn ar 4 Mehefin, dywedodd y Gweinidog wrthym:

“the rapid review that was undertaken in mid-April made very clear that we weren’t going to reach the 5,000-odd tests that we had expected to and it set out the reasons why, and they were honest and truthful reasons. The fact that we’ve now significantly increased our capacity is because those imports have taken place, and so the figures that you see on the testing updates that we provide are the actual lab testing capacity. So, we do have more than 9,500 testing capacity available to us now. We expect to get more, and each week I’ll continue to provide an update on what we’re actually doing”, and I think that matters. I think that matters to give people confidence.”<sup>64</sup>

**119.** Pan ofynnwyd iddo am effaith yr oedi wrth adeiladu’r gallu i brofi, dywedodd yr Athro Deenan Pillay, y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) Annibynnol:

“a focus on numbers of tests is a sort of irrelevancy, is a political target. What matters is what are the protocols and procedures for who we find to test, surely. If we say on the one hand we’re only going to be testing those individuals who are sick enough to come into hospital )(…), then we’re only going test people who are sick enough to come into hospital; we’re not going to be testing people in the community. So,

---

<sup>63</sup> Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2020, paragraff 75

<sup>64</sup> Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 63

that is what determines the number of tests that are done, rather than just a target of tests, which always seemed a disconnect.”<sup>65</sup>

**120.** Mae'r ffigurau profi wythnosol ar gyfer 21 Mehefin yn dangos bod 154,206 o brofion wedi'u cynnal yng Nghymru (yn cynrychioli 122,845 o brofion unigol), gan gynnwys 26,840 o weithwyr gofal iechyd, 35,412 o weithwyr cartrefi gofal, a 26,441 o breswylwyr cartrefi gofal.<sup>66</sup> Capasiti labordy ar 21 Mehefin oedd 12,562 o brofion dyddiol. Mae'r ffigurau Iechyd Cyhoeddus Cymru diweddaraf yn nodi bod 3,054 o brofion wedi'u cynnal ar 8 Gorffennaf<sup>67</sup>.

### Profi mewn cartrefi gofal

**121.** Mae profi mewn cartrefi gofal wedi bod yn fater dadleuol, gyda Llywodraeth y DU a Chymru wedi cael eu beirniadu am y diffyg profion mewn lleoliadau gofal, ac yn arbennig am beidio â phrofi cleifion ysbyty cyn eu rhyddhau i gartrefi gofal yn gynt.

**122.** Mae ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos y bu 663 o farwolaethau Covid-19 yng nghartrefi gofal Cymru hyd at 12 Mehefin - sef 28 y cant o'r holl farwolaethau coronafeirws yng Nghymru.

**123.** Yn ôl Fforwm Gofal Cymru, mae derbyn cleifion ysbyty i gartrefi gofal wedi chwarae rhan fawr o ran galluogi'r haint i ledaenu mewn cartrefi gofal ar gyfradd mor frawychus.<sup>68</sup>

**124.** Dywedodd Mario Kreft wrthym:

“... the barriers seem to us to be that we started from this position on testing where there was not going to be any. We were told, quite categorically, unless they're showing symptoms, they're not going to be tested. So, people were being discharged from hospital to very-well-meaning people in the care sector in Wales, often with smaller homes, with people who had not been tested because they were not showing symptoms.”<sup>69</sup>

<sup>65</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mehefin 2020, paragraff 110

<sup>66</sup> [Profi diweddariad wythnosol 23 Mehefin 2020](#): Coronafeirws

<sup>67</sup> [Golwg Gyflym ar Covid-19 Cyflym Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

<sup>68</sup> [Care Industry News](#), 29 Ebrill 2020

<sup>69</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Mai 2020, paragraff 224

**125.** Yn niweddariad dyddiol Llywodraeth Cymru ar 23 Mehefin<sup>70</sup>, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nad oedd dystiolaeth ar hyn o bryd bod rhyddhau cleifion i gartrefi gofal heb brawf coronafeirws wedi arwain at fwy o farwolaethau. Dywedodd fod y penderfyniad a gymerwyd yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r cyngor ar y pryd.

**126.** Galwodd CLILC am i bobl gael eu profi ddwywaith cyn cael eu rhyddhau i gartrefi gofal. Dywedodd y Cynghorydd Andrew Morgan wrthym:

“if there’s an opportunity for people to be tested twice before they’re discharged, because [ ] on occasion, there is a false-negative on the test, (...) I think all council leaders would welcome that.”<sup>71</sup>

**127.** Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi galw ar i Lywodraeth Cymru fod yn destun ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) oherwydd pryderon y gallai hawliau pobl hŷn fod wedi cael eu torri mewn cartrefi gofal. Mae gan y Comisiynydd bryderon efallai nad oedd hawliau pobl hŷn wedi’u diogelu’n ddigonol yn y lleoliadau hyn ac ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn ehangach:

“Mae’r sefyllfa rydyn ni wedi’i gweld mewn cartrefi gofal yn ystod y pandemig Covid-19 wedi bod yn drychinebus, ac rydw i’n poeni nad yw hawliau pobl hŷn wedi cael eu diogelu i raddau digonol – yn y lleoliadau hyn ac ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn ehangach.”<sup>72</sup>

**128.** Mae Ruth Coombs, Pennaeth Cymru EHRC, wedi ymateb i ddweud eu bod yn parhau i bryderu’n fawr am achosion difrifol posibl o dorri hawliau dynol pobl hŷn yn ystod y pandemig hwn. Dywedodd EHRC Cymru ei fod yn gweithio’n agos gyda’r Comisiynydd ac yn ystyried defnyddio eu holl bwerau i amddiffyn hawliau pobl hŷn.

**129.** Pwysleisiodd CLILC ac ADSS Cymru bwysigrwydd profion ar gyfer staff gofal cymdeithasol. Mewn datganiad ar y cyd a gyhoeddwyd ar 20 Mawrth, dywedasant ei bod hi’n hanfodol bod staff rheng flaen yn derbyn profion, yn yr un modd ag y

---

<sup>70</sup> Diweddariad Dyddiol Llywodraeth Cymru, 23 Mehefin 2020

<sup>71</sup> Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 58

<sup>72</sup> Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru - 21 Mai 2020

mae staff gofal iechyd yn cael eu profi, i'w galluogi i barhau i ddarparu gwasanaethau.”<sup>73</sup>

**130.** Dywedodd Fforwm Gofal Cymru wrthym ei fod yn credu bod profion rheolaidd a phrydlon, a chanlyniadau cyflym, yn allweddol i wella'r sefyllfa yng nghartrefi gofal Cymru.<sup>74</sup> Soniodd CLILC am bwysigrwydd derbyn canlyniadau mewn modd amserol hefyd, gan ddweud:

“that’s where we’ve had some difficulty, is actually in the delay in getting the results back. It’s vastly improved, but at some points, we’ve been waiting as long as four days for test results.”<sup>75</sup>

**131.** Mae polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phrofi mewn cartrefi gofal wedi newid yn gyflym ac yn aml. Cyhoeddwyd diweddariad polisi, a oedd yn ehangu profion i'r holl weithwyr hanfodol (gan gynnwys staff gofal) os oes ganddynt hwy neu eu teulu symptomau, ar 18 Ebrill<sup>76</sup>. Ar 22 Ebrill 2020, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrth y Cyfarfod Llawn eu bod bellach yn profi'r holl breswylwyr cartrefi gofal â symptomau a'r holl breswylwyr cartrefi gofal sy'n dychwelyd o'r ysbyty. Gellir atgyfeirio pob gweithiwr cartref gofal â symptomau i gael prawf hefyd erbyn hyn.<sup>77</sup>

**132.** Ar 2 Mai, ehangwyd profion i holl breswylwyr a staff cartrefi gofal ag achosion neu gartrefi â 50 gwely<sup>78</sup>.

**133.** Fodd bynnag, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, awgrymodd Fforwm Gofal Cymru fod y trothwy o 50 gwely braidd yn fympwyol:

“I have absolutely no idea where the 50 came from, because the average care home in Wales is not 50 beds. You couldn't build a 50-bed home today and make it viable. You'd have to be at least north of 60 and probably in the 70s. But the truth is that, in Wales, most care homes are [ ] 30 or 40-beds.”<sup>79</sup>

<sup>73</sup> **Coronafeirws: Datganiad ar y Cyd gan ADSS Cymru a CLILC** - Dydd Gwener, 20 Mawrth 2020

<sup>74</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Mai 2020, paragraff 267

<sup>75</sup> Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 60

<sup>76</sup> **Polisi profi gweithwyr allweddol (hanfodol): Coronafeirws (Covid-19)** - 18 Ebrill 2020

<sup>77</sup> Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, 22 Ebrill 2020, paragraff 93

<sup>78</sup> **Llywodraeth Cymru yn ehangu profion coronafeirws mewn cartrefi gofal** - 2 Mai 2020

<sup>79</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Mai 2020, paragraff 237

**134.** Dilynwyd hyn yn fuan wedyn gan y cyhoeddiad ar 16 Mai y gall pob cartref gofal yng Nghymru gael mynediad at brofion ar gyfer preswylwyr a staff.<sup>80</sup> Fodd bynnag, roedd hyn gryn dipyn yn hwyrach na Lloegr (28 Ebrill) a'r Alban (1 Mai).

**135.** Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor hwn ar 4 Mehefin, dywedodd y Gweinidog:

“so we're now testing everyone in the care home environment because we have changed our policy. Over the course of six weeks, we made three different policy decisions. And it again highlights the rapid evolution and our understanding of not just the way that coronavirus behaves, but evidence around it as well. And at each of those points where I made a different decision, it was because the evidence base and the advice had changed.”<sup>81</sup>

**136.** Ar 9 Mehefin, cyhoeddodd y Gweinidog ymhellach:

“From Monday 15th June, all care home staff will be offered a weekly test for a four-week period. These will be self-administered swabs acquired either through the Care Home Portal or directly from the health board. We are keeping it under review, following this point we will assess the impact and consider next steps to ensure that we can continue to safeguard our care homes.”<sup>82</sup>

## Ein barn ni

**137.** Bu diffyg eglurder llwyr ynghylch y rhaglen brofi yng Nghymru; gydag ansicrwydd ynghylch pwy oedd yn arwain, rheoli a chydlynu'r gwaith. Mae hyn wedi bod yn achos dryswch a phryder.

**138.** Clywsom adroddiadau fod llawer o weithwyr iechyd proffesiynol, yng nghamau cynnar yr achosion, wedi ei chael yn anodd cael prawf, tra bod eraill wedi mynegi rhwystredigaeth ynghylch faint o amser y cymerodd i gael prawf a chael eu canlyniadau.

**139.** Mae'n ymddangos bod rhai o'r problemau cynnar hyn yn ymwneud â hygyrchedd wedi'u datrys, ond ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cael proses symlach a chilir ar gyfer profi, yn enwedig wrth i ni symud i'r model 'Profi, Olrhain, Diogelu'.

---

<sup>80</sup> [Llywodraeth Cymru yn ymestyn y profi i bob cartref gofal](#) - 16 Mai 2020

<sup>81</sup> Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 76

<sup>82</sup> [Datganiad ysgrifenedig: Diweddariad ar Brofi mewn Cartrefi Gofal](#) - 9 Mehefin 2020

**140.** Un o'r prif wersi o'r ychydig fisoedd diwethaf yw bod mynediad at brofion, yn ôl yr angen, yn hollbwysig. Credwn fod rôl bwysig yma i feddygon teulu a gofal sylfaenol.

**141.** Yn gysylltiedig â hyn, bydd cyfathrebu am bwysigrwydd profi, a sut i gael prawf, yn hanfodol. Mae angen parhaus am negeseuon cyhoeddus clir ac ymatebol ynghylch pryd i gael prawf, a sut i fynd ati i gael un. Mae angen i hyn hefyd allu ymateb i anghenion neu amgylchiadau penodol, fel achosion neu gynnydd mewn achosion lleol sylweddol.

**142.** Dylai'r negeseuon hyn hefyd bwysleisio bod profi yn offeryn gwerthfawr wrth helpu i ddeall sut mae'r feirws yn gweithio a datblygu atebion i fynd i'r afael ag ef. Bydd hyn yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn arddel y strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu a bod gallu i brofi yn cael ei ddefnyddio'n llawn ac i'r graddau mwyaf effeithiol.

**Argymhelliad 4.** Rhaid i Lywodraeth Cymru, a'i phartneriaid, sicrhau bod mynediad lleol at brawf i unrhyw un sydd ei angen, yn ôl yr angen. Mae angen i feddygon teulu a gofal sylfaenol fod yn rhan annatod o'r trefniadau hyn.

**Argymhelliad 5.** Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid, sicrhau ymgyrch barhaus o negeseuon cyhoeddus clir, cyson ac ailadroddus - ar lefel genedlaethol a lleol - ynghylch pryd i geisio prawf Covid-19 a sut i wneud hyn.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod negeseuon clir a chyson yn yr un modd ynglŷn â gwerth profi, nid yn unig o ran adnabod pobl sydd â'r feirws ond i gynorthwyo gydag ymchwil a datblygu atebion at y dyfodol.

**143.** Wrth edrych i'r dyfodol, bydd hi'n hynod bwysig er mwyn ailddechrau gwasanaethau arferol y GIG bod system o brofion rheolaidd ac ailadroddus ar waith ar gyfer gweithwyr gofal iechyd, gan gynnwys staff asymptomatig. Bydd hyn yn rhoi hyder i staff a chleifion am allu defnyddio gwasanaethau'r GIG yn ddiogel. Dylid sicrhau trefniadau tebyg yn y sector gofal. Bydd angen sicrhau bod digon o gapasiti ar gael i gefnogi hyn.

**Argymhelliad 7.** Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda GIG Cymru, ddatblygu cynllun clir ar gyfer profion rheolaidd ac ailadroddus ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys staff asymptomatig.

## Capasiti

---

**144.** Mae'n bwysig cydnabod mai dim ond rhan o ddarparu trefn brofi effeithiol yw sicrhau bod y gallu i brofi ar gael. Rhaid hefyd cael cynlluniau sy'n sicrhau bod y gallu i gael prawf yn hygyrch ac yn cael cyhoeddusrwydd da, yn ogystal â'i ddefnyddio'n briodol ac mor llawn â phosibl. Wrth edrych ymlaen, mae'n bwysig cael darlun clir o'r galw tebygol yn y dyfodol, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf. Rhaid i ni fod yn hyderus y bydd y cyflenwad yn bodloni'r galw cynyddol.

**Argymhelliad 8.** O ystyried y pryderon y bydd yr haint yn cyrraedd ail benllanw yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid, asesu'r galw tebygol am brofion yn y dyfodol a chymryd camau i sicrhau bod digon o allu i brofi fel y bydd unrhyw un sydd angen prawf yn gallu cael un yn gyflym ac yn hawdd. Fel rhan o hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru a phartneriaid aros yn effro i ddatblygiad gwahanol fathau o fodolau profi.

## Amseroedd ar gyfer cael canlyniadau profion

---

**145.** Bydd cyflwyno'r Strategaeth Profi, Orlhain, Diogelu yn gofyn am ymdrech benodol a pharhaus i leihau amseroedd aros am ganlyniadau profion. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau nad yw pobl yn hunanynysu am fwy o amser nag sydd raid. Dywedodd llawer o dystion wrthym am amrywiadau annerbyniol yn yr amseroedd ar gyfer cael canlyniadau profion, gyda gogledd Cymru yn sylweddol arafach na'r de-ddwyrain. Rhaid mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ardal na rhanbarth yng Nghymru dan anfantais oherwydd gorfod aros yn hwy nag eraill.

**146.** Nodir ein barn a'n hargymhellion manwl ar y pwnc hwn ym Mhennod 6 ar y Strategaeth Profi, Orlhain, Diogelu.

## Cartrefi gofal

---

**147.** Mae nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â Covid mewn cartrefi gofal yn peri pryder mawr i ni. Mae cartrefi gofal yn gofalu am rai o'n haelodau hynaf a mwyaf agored i niwed o gymdeithas. Maent yn haeddu cael eu hamddiffyn mewn argyfwng iechyd cenedlaethol, ac eto maent wedi cael eu methu'n wael yn ystod yr argyfwng hwn.

**148.** Ein barn ni yw bod agwedd Llywodraeth Cymru at brofi mewn cartrefi gofal yn y lle cyntaf yn ddiffygiol, ac yna ei bod wedi ymateb yn rhy araf i'r argyfwng cynyddol sydd wedi gweld marwolaethau mewn cartrefi gofal yn cyfrif am 28 y cant o'r holl farwolaethau coronafeirws yng Nghymru. Nodwn y feirniadaeth gyhoeddus iawn o weithredoedd Llywodraeth Cymru gan Gomisiynydd Pobl Hŷn



Cymru, a'r ffaith iddi gyfeirio'r llywodraeth i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

**149.** Cymerodd ormod o amser i weithredu mesurau profi priodol ar gyfer cartrefi gofal. Mae'r penderfyniad cychwynnol i beidio â phrofi cleifion ysbyty a oedd yn cael eu rhyddhau i gartrefi gofal wedi cael ei wrthdroi ers hynny, felly hefyd y penderfyniad i beidio â phrofi preswylwyr a staff mewn cartrefi gofal oni bai eu bod yn dangos symptomau; gwnaed y tro pedol olaf hwn gryn dipyn yn hwyrach nag yn Lloegr a'r Alban. Mae'r ddau benderfyniad wedi costio'n ddrud i'r sector gofal cymdeithasol.

**Argymhelliad 9.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob claf sy'n cael ei ryddhau o'r ysbyty yn uniongyrchol i gartref gofal wedi'i brofi yn unol â'r arfer gorau diweddaraf i sicrhau bod preswylwyr a staff yn cael eu diogelu cystal â phosib.

#### Profi ar gyfer staff cartrefi gofal

---

**150.** Mae'r angen am brofion rheolaidd ar gyfer staff cartrefi gofal yn glir. Rydym yn croesawu'r egwyddor y bydd holl staff cartrefi gofal yn cael cynnig prawf wythnosol am gyfnod o bedair wythnos, ond unwaith eto credwn fod hyn wedi dod yn rhy hwyr.

**151.** Ymhellach, rydym yn pryderu am ddefnyddio pecyn profi gartref ar gyfer staff cartrefi gofal. Ar hyn o bryd dim ond tua 70 y cant yw cywirdeb profion pan gânt eu gwneud gan weithiwr proffesiynol hyfforddedig. Credwn y gallai hyn fod yn is o lawer ar gyfer profion gartref, oherwydd y ffordd fewnwithiol y mae angen casglu'r sampl. Mae ein barn ar becynnau profi gartref, a'r argymhelliad perthnasol, ym Mhennod 6 ar y Strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu (paragraffau 283-4, ac Argymhelliad 21).

**152.** Wrth symud ymlaen, mae angen bod yn hyderus y bydd profion yn parhau i fod ar gael ar gyfer preswylwyr a staff cartrefi gofal, yn enwedig wrth i gyfyngiadau ar ymwelwyr gael eu llacio. Credwn y dylai cartrefi gofal gael yr un mynediad at brofion ag ysbytai, gan gynnwys y dulliau profi.

**Argymhelliad 10.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau:

- bod profion mewn cartrefi gofal yn digwydd yn rheolaidd ac yn systematig,
- bod profion o'r fath yn cael eu gwneud gan unigolion sydd wedi cael hyfforddiant addas yn hytrach na defnyddio pecynnau profi gartref a

- bod gallu digonol i brofi i gefnogi'r ddau bwynt uchod.

## 5. Gwarchod Pobl Eithriadol o Agored i Niwed

**153.** Ers canol mis Mawrth 2020, dywedwyd wrth y rhai yr ystyriwyd eu bod yn eithriadol o agored i niwed yn sgil y coronafeirws am 'warchod'.

**154.** Mae gwarchod yn golygu diogelu'r bobl hynny sy'n eithriadol o agored i niwed yn sgil y coronafeirws oherwydd cyflyrau iechyd sydd ganddynt eisoes. Mae rhestr o'r cyflyrau iechyd hyn wedi'i chynnwys yng [nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar warchod](#).

**155.** Ar 17 Mehefin 2020, mae cyfanswm o 127,095 o bobl ar y rhestr o gleifion sy'n cael eu gwarchod yng Nghymru.

### Llythyrau gwarchod

**156.** Dylai pobl y nodwyd eu bod yn eithriadol o agored i niwed fod wedi derbyn llythyr gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, sef 'llythyr gwarchod'. Roedd yn cynnwys gwybodaeth a chynghor, gan gynnwys sut i gael gafael ar feddyginiaeth ac eitemau hanfodol eraill.

**157.** Ar gyfer unrhyw berson sy'n credu ei fod yn perthyn i un o'r categorïau o bobl eithriadol o agored i niwed ac nad ydynt wedi cael llythyr, mae Llywodraeth Cymru yn eu cynghori i drafod eu pryderon gyda'u meddyg teulu neu feddyg ysbyty. Dywed y canllaw bod meddygon teulu a meddygon ysbyty yn gallu ychwanegu pobl at y rhestr o bobl sy'n gwarchod er mwyn sicrhau bod cyswllt wedi ei wneud gyda phob claf risg uchel.

**158.** Cyn 1 Mehefin 2020, cynghorwyd pobl sy'n gwarchod eu hunain i aros gartref bob amser ac osgoi unrhyw gyswllt wyneb yn wyneb. O 1 Mehefin, newidiodd y cynghor hwn ac mae'r rhai sy'n gwarchod eu hunain bellach yn gallu gadael eu cartref i wneud ymarfer corff neu i gwrdd y tu allan â phobl o aelwyd arall, tra'n cadw pellter cymdeithasol ac ymarfer hylendid da. Mae'r canllawiau diweddaraf yn cynghori'r rheini sy'n gwarchod eu hunain y dylent barhau i wneud hynny tan 16 Awst 2020.

**159.** Ar 15 Ebrill, ymddiheurodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ôl darganfod bod gwall prosesu yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi peri bod tua 13,000 o lythyrau gwarchod wedi cael eu postio i hen gyfeiriad mewn achosion lle'r oedd y sawl a oedd i fod i dderbyn llythyr wedi symud tŷ yn ddiweddar. Cadarnhaodd fod yr holl lythyrau wedi'u hanfon eto ac y dylent gyrraedd pen eu taith yn ystod y dyddiau nesaf.

**160.** Mae nifer o'r rhai sydd wedi darparu tystiolaeth i ni wedi nodi problemau sy'n codi o'r canllawiau. Un broblem o'r fath a amlygwyd gan Goleg Brenhinol y Meddygon Teulu (RCGP) oedd yr oedi cyn cyhoeddi llythyrau gwarchod. Roedd hyn, meddai, wedi arwain at ddryswch i gleifion a meddygon teulu gyda gwybodaeth yn ymddangos yn y cyfryngau ac ar wefannau swyddogol cyn i'r llythyrau ddod i law.

**161.** Ymhellach, roedd yr RCGP yn poeni am y cam-gyfathrebu ynghylch Cynllunio Gofal Uwch (ACP), a arweiniodd at gryn ofid yn dilyn sylw yn y newyddion am ddigwyddiad dadleuol.<sup>83</sup> Dywedodd y RCGP:

“In retrospect a better approach would have been for a clear message from Welsh Government that there was a need for ACP conversations and that these would be about best understanding the most comfortable environment for a patient while ensuring they were receiving all appropriate care. That would have then framed the conversation allowing GPs to have productive conversations with patients.”<sup>84</sup>

**162.** Yn gysylltiedig â hyn roedd cyfuno Cynllunio Gofal Uwch â'r cyfarwyddyd Peidiwch â Dadebru (DNR). Ar y pwynt hwn, nododd yr RCGP fod ACP yn arfer meddygol da o'i wneud mewn ffordd sensitif. Mae ACP a DNR - er bod angen trafodaethau hynod sensitif ar gyfer y ddau - yn faterion ar wahân.<sup>85</sup>

**163.** Dangosodd tystiolaeth gan rai sefydliadau'r trydydd sector y dryswch sy'n wynebu llawer o'r rhai y maent yn eu cynrychioli ynghylch y canllawiau ar warchod a'r cymorth sydd ar gael. Disgrifiodd Parkinson's Cymru ddryswch a phryder gan y gymuned Parkinson's am y categorïau agored i niwed ac eithriadol o agored i niwed a'r cymorth sy'n cael ei gynnig i'r unigolion hyn. Mae'r sefydliad yn annog Llywodraeth Cymru a GIG Cymru i fod yn glir ynghylch y cymorth sy'n cael ei ddarparu i'r rhai sy'n cael eu gwarchod.<sup>86</sup>

**164.** Yn yr un modd, dywedodd Fforwm Cymru Gyfan i Rieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu eu bod yn teimlo y bu diffyg cyfarwyddiadau penodol i bobl ag Anabledd Dysgu, yn arbennig i allu egluro beth i'w wneud os na chawsoch chi

---

<sup>83</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C03

<sup>84</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C03

<sup>85</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C03

<sup>86</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C30

lythyr gwarchod, neu os yw'ch meddyg teulu wedi eich disgrifio chi fel unigolyn agored i niwed.”<sup>87</sup>

**165.** Cyfeiriodd Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor a Phartneriaeth Asthma UK a Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint bryderon ynghylch cyflyrau nad ydynt yn ymddangos ar y rhestr warchod. Nododd Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor fod Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio ag ychwanegu pawb sydd â MND at y rhestr o bobl eithriadol o agored i niwed, er bod MND yn gyflwr angheuol ac yn un sy'n gwaethygu gyflym, gan achosi nam anadlol a bwlbaidd sylweddol. O ganlyniad, rhaid i bobl ag MND gael eu cofrestru'n unigol gan eu clinigwr.

**166.** Mae'r Gymdeithas yn pryderu y bydd meddygon teulu yn tynnu pobl ag MND o'r rhestr warchod mewn camgymeriad, ac mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod meddygon teulu yn cysylltu â thîm gofal arbenigol unigolyn i ddeall graddau eu MND ar hyn o bryd cyn gwneud unrhyw benderfyniad i gael gwared ar statws gwarchod.<sup>88</sup>

**167.** Yn ei thystiolaeth, nododd Partneriaeth Asthma UK a Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, er bod nifer fawr o bobl â chyflyrau anadlol wedi cael eu cynghori i warchod eu hunain, canfu ei harolwg ei hun, yng Nghymru, fod ychydig o dan 10 y cant o'r ymatebwyr wedi derbyn llythyr neu neges destun yn eu cynghori i warchod. Dyma oedd y ganran isaf o ymatebwyr yn ôl rhanbarth o bell ffordd, a chyfartaledd gwledydd eraill y DU oedd 17.7 y cant.

**168.** Awgrymodd y gallai'r ffigur isel hwn yng Nghymru adlewyrchu'r 13,000 o lythyrau (16 y cant o'r ffigur cyffredinol) a anfonwyd i'r cyfeiriad anghywir, neu fod o ganlyniad i'r ffaith bod rhai cyflyrau ysgyfaint heb gael eu cynnwys ar y rhestr ddanfon wreiddiol.<sup>89</sup>

## Rôl llywodraeth leol

**169.** Disgrifiodd tystiolaeth gan CLILC y rôl sylweddol a gyflawnir gan awdurdodau lleol o ran darparu cymorth i bobl sydd wedi cael cyngor i warchod eu hunain. Nododd:

“All local authorities have considered how best to support shielded people, and the majority have been proactive in contacting each person on the list to highlight the support available (...) and to ensure

<sup>87</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C43

<sup>88</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C40

<sup>89</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C16

they know to contact the council if they need help and do not have family and friends to call upon. Local authorities are also processing orders for free food boxes from Welsh Government for those unable to rely on a food source elsewhere.”<sup>90</sup>

**170.** Clywsom fod awdurdodau lleol wedi cael tri diwrnod yn unig o rybudd bod yr ymarfer gwarchod yn mynd i gael ei gyhoeddi ac, ar y pryd, amcangyfrifwyd y gallai oddeutu 100,000 o bobl gael eu gwarchod a bod angen gwasanaethau cymorth.”<sup>91</sup>

**171.** Serch hynny, dywedodd CLLC fod awdurdodau lleol wedi rhoi trefniadau ar waith yn gyflym i nodi ac ymateb i ystod o anghenion cymorth yr oedd eu hangen mewn cymunedau lleol a, thrwy weithio mewn partneriaeth ag eraill,

“local arrangements have been put in place that reflect local circumstances, making best use of local resources and capacity and by knowing and understanding the specific needs of their local communities and in particular those who are vulnerable or in particular need of support.”<sup>92</sup>

**172.** Cydnabu y bu rhywfaint o ddryswch o ganlyniad i ddatblygiad cynllun cenedlaethol ar gyfer pobl a oedd yn cael eu gwarchod, gyda bocsys bwyd am ddim, ond dim ond y rhai a oedd yn cael eu gwarchod oedd yn gymwys:

“The earlier announcement of a scheme in England (and the lack of clarity in the press on it only being available in England and the ensuing confusion) added to the complexity of developing a scheme in Wales at pace.

The pace in establishing the national scheme meant several teething problems around communication, coordination and the way in which the data lists have been shared (...) and the many problems or changes encountered in developing the scheme (GP additions, wrongly addressed letters) has added to the challenge for local authorities to make sense and operationalise the scheme.”<sup>93</sup>

---

<sup>90</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C26

<sup>91</sup> Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 134

<sup>92</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C26

<sup>93</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C26

**173.** Teimlai CLILC y byddai cyfle i adolygu'r cynllun a diwygio sut mae'n cael ei weithredu fel y bo'n briodol, gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer gwelliannau wrth symud ymlaen, i'w groesawu, yn enwedig os yw am barhau ar ôl y 12 wythnos cychwynol. Teimlai y gallai fod ffyrdd eraill o ddatblygu system fwy effeithlon ac effeithiol i sicrhau y gellir diwallu anghenion cymorth pobl sy'n cael eu gwarchod, a grwpiau eraill sy'n agored i niwed neu'n wynebu risg, dros gyfnod cynaliadwy o amser.<sup>94</sup>

**174.** O ran gwirfoddoli, nododd CLILC fod yr ymateb i alwadau am wirfoddolwyr wedi bod yn wych.<sup>95</sup> Fodd bynnag, cyfeiriodd at ansicrwydd o ganlyniad i'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd ledled y DU, yn enwedig mewn perthynas â gwirfoddoli. Nododd fod y cyhoeddusrwydd ledled y DU ar gyfer cynllun yn Lloegr yn unig wedi arwain at ddrwsych yng Nghymru ynghylch sut i wirfoddoli. Roedd hyn yn golygu bod angen gwaith pellach wedyn i ganfod y ffordd orau o gydlynu gwirfoddolwyr rhwng llywodraeth leol a grwpiau'r trydydd sector. Nododd fod y dull gweithredu yng Nghymru wedi adeiladu ar bartneriaethau presennol rhwng awdurdodau lleol, y trydydd sector a chynghorau cymuned a thref.<sup>96</sup>

**175.** Nododd ei bod yn cyfarfod yn rheolaidd â CGGC a Llywodraeth Cymru i drafod trefniadau a'r angen tymor hwy am wirfoddolwyr a'u rôl a'u hargaeledd wrth i gyfyngiadau symud lacio, gan ystyried sut y gellir parhau i ddiwallu anghenion cymorth rhai pobl agored i niwed.<sup>97</sup>

## Gwasanaethau i bobl a gynghorwyd i warchod eu hunain

**176.** Roedd y llythyr gwarchod gan Brif Swyddog Meddygol Cymru yn cynnwys gwybodaeth a chynngor ar ystod o faterion, gan gynnwys cymorth ar sut i gael meddyginiaeth ac eitemau hanfodol eraill fel bwyd.

**177.** Mae'r llythyr yn nodi bod awdurdodau lleol wedi cael manylion cyswllt y bobl sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n wynebu risg uchel fel y gallant gynnig cymorth, a bod y prif archfarchnadoedd wedi cael manylion cyswllt y rhai sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n wynebu risg uchel er mwyn iddynt flaenoriaethu slotiau siopa ar-lein ar eu cyfer.<sup>98</sup>

<sup>94</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C26

<sup>95</sup> Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 138

<sup>96</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C26

<sup>97</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C26

<sup>98</sup> [Llythyr y Prif Swyddog Meddygol i bobl agored i niwed: esboniad o'r cymorth](#)

**178.** Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio dull gwahanol i Loegr i ddarparu cymorth i'r rhai sy'n gwarchod eu hunain. Ni ofynnwyd i bobl yng Nghymru gofrestru fel pobl agored i niwed, fel y mae pobl yn Lloegr yn gallu gwneud. Yn hytrach, mae Llywodraeth Cymru yn cynghori pobl agored i niwed i ofyn i deulu, ffrindiau a chymdogion am help yn gyntaf, neu ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, ac yna gofyn i sefydliadau gwirfoddol lleol, cyn cysylltu â'u hawdurdod lleol am help.

**179.** Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor hwn, roedd yr RCGP yn feirniadol o'r penderfyniad i gysylltu gwarchod â darparu gwasanaethau allweddol, megis danfoniadau archfarchnad a chasglu presgripsiynau. Dywedasant fod hyn wedi arwain at lwyth gwaith cynyddol i feddygon teulu ac wedi rhoi pwysau arnynt i ddarparu llythyrau gwarchod i gleifion, ac y byddai wedi bod yn well ceisio gwahanu mynediad at wasanaethau oddi wrth y cyngor meddygol.<sup>99</sup>

**180.** Codwyd y mater hwn hefyd gan gartrefi gofal sy'n ei chael hi'n anodd sicrhau danfoniadau bwyd, a chan Bartneriaeth Asthma UK a Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, a nododd nad oedd 87 y cant o ymatebwyr i'w harolwg a ddywedodd eu bod yn cael trafferth cael bwydydd wedi derbyn llythyr gwarchod. Dywedodd fod hyn yn destun pryder wrth i gyfyngiadau ddechrau cael eu codi ac wrth i bobl gael ceisiadau i ddychwelyd i'r gwaith.<sup>100</sup>

**181.** Yn ogystal, dywedodd Fforwm Cymru Gyfan i Rieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu fod gofalwyr sydd â'u plant hŷn yn byw gartref wedi ei chael hi'n anodd cael eu cydnabod fel rhai sydd angen help i siopa a sicrhau slotiau danfon bwyd.<sup>101</sup>

**182.** Dywedodd nifer o unigolion a ymatebodd i'n hymgyngoriad wrthym, er eu bod wedi derbyn llythyr gwarchod, eu bod wedi cael trafferth cael unrhyw help:

“My husband is 72 and disabled and also shielding. We have not been given any help or support. When I made an enquiry for assistance at the council, they told me the help was only for those who were struggling financially, I was only given the telephone numbers of charities who might arrange shopping. We have however managed for ourselves using the Internet for our supplies.”<sup>102</sup>

---

<sup>99</sup> Cofnod y Trafodion, 14 Mai 2020, paragraff 86

<sup>100</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C16

<sup>101</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C43

<sup>102</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C42



**183.** Clywsom hefyd nad oedd bocsys bwyd yr awdurdod lleol, er eu bod yn cael eu croesawu, yn ystyried gofynion deietegol arbennig llawer o bobl agored i niwed:

“The box contained mainly wheat products and some high sugar products. Both my mother and I are wheat intolerant (the consumption of wheat causing us both varying painful and debilitating effects) and my mother is diabetic which is controlled with diet.”<sup>103</sup>

**184.** O ran meddyginiaethau, mae fferyllfeydd wedi nodi eu bod wedi gweld cynnydd sylweddol mewn danfoniadau meddyginiaeth. Cododd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol fater cynaliadwyedd o amgylch y gwasanaeth cyflenwi, yn enwedig os yw'r lefel uchel o alw yn parhau i mewn i fisoedd y gaeaf.

### Cymorth tymor hwy

**185.** Rydym wedi derbyn tystiolaeth gan nifer o ymatebwyr sy'n pryderu am y gwasanaethau canllaw a fydd ar gael yn y tymor hwy i'r rhai sy'n gwarchod eu hunain, a'u teuluoedd. Dywedodd Parkinson's Cymru ei fod yn credu y dylai Llywodraeth Cymru a GIG Cymru fod yn cynllunio ar sail fwy hirdymor i helpu'r rhai sy'n gwarchod eu hunain i gael mynediad at ofal iechyd:

“It is crucial that clear guidance on attending face-to-face appointments with appropriate informal support for those who need it will be essential to reduce anxiety and ensure people who need to, can attend appointments.”<sup>104</sup>

**186.** Dywedodd y Gymdeithas Clefydau Niwronau Motor, wrth i gyfyngiadau symud gael eu llacio, y bydd pobl agored i niwed, eu gofalwyr a'u teuluoedd, yn wynebu penderfyniadau anodd ynghylch rheoli'r risg o ddal Covid-19. Dywedodd fod ansicrwydd parhaus ynghylch pa fesurau fydd ar waith i gynorthwyo pobl i reoli'r risg honno yn gwneud pethau'n anos fyth:

“A major cause for concern is whether carers and family members of people vulnerable to Covid-19 will be expected to return to the workplace, potentially risking contracting the virus and passing it on to a vulnerable person at home.

---

<sup>103</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C33

<sup>104</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C30

The Welsh Government should issue clear guidance on the easing of shielding guidelines including anticipated timelines and detailing what support will be available to help the families and carers of vulnerable people during this difficult period.”<sup>105</sup>

**187.** Gwnaethpwyd pwyntiau tebyg gan Bartneriaeth Asthma UK a Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint.<sup>106</sup>

## Ein barn ni

**188.** Yn ein barn ni, mae'r angen i warchod pobl eithriadol o agored i niwed yn gyfaddefiad o fethiant gan lywodraethau wrth reoli'r clefyd hwn. Digwyddodd hyn o ganlyniad uniongyrchol i'r newid mewn polisi cynnar o gyfyngu ar y feirws (gan gynnwys dull profi-olrhain-ynysu) i oedi lledaeniad y feirws. Er i'r dull cychwynnol ganolbwyntio ar atal y feirws rhag lledaenu, roedd yr olaf yn anochel yn derbyn y byddai'r haint yn lledaenu eang a bod yn rhaid i'r bobl fwyaf agored i niwed, felly, gael eu hynysu'n llwyr am gyfnod hir.

**189.** Mae gofynion sylweddol wedi cael eu rhoi ar y boblogaeth gyfan yn ystod y pandemig hwn ac, i'r rhai yn ein cymunedau sydd fwyaf agored i niwed, mae wedi bod yn gyfnod arbennig o anodd a brawychus.

**190.** Mae'n anffodus felly, yn ystod cyfnod pan oedd angen cyfathrebu clir â'r rhai y gofynnwyd iddynt warchod eu hunain a'u teuluoedd, na lwyddwyd i gyflawni hynny ym mhob achos. Er ein bod yn cydnabod yr heriau logistaidd sy'n gysylltiedig â gweithredu'r polisi, achosodd oedi yn gynnar yn y broses o gyhoeddi llythyrau gwarchod ansicrwydd i lawer. Gwaethygydd hyn gan y sylweddoliad maes o law bod tua 13,000 o lythyrau wedi'u hanfon i gyfeiriadau anghywir, ac rydym yn bryderus iawn am yr achos hwn o dorri data cleifion.

**191.** Bu dryswch ynghylch rôl meddygon teulu yn y broses, yn enwedig gan nad oedd ganddynt fynediad i ddechrau at y rhestr o gleifion a oedd angen gwarchod nac at y llythyrau gwarchod. Mae'r dryswch hwn yn parhau i raddau hyd yn oed yn awr, gyda thystiolaeth anecdotaidd o feddygon teulu yn mynd ati mewn amrywiol ffyrdd i ychwanegu pobl at y rhestr cleifion gwarchod, a phryderon gan rai sefydliadau trydydd sector y bydd meddygon teulu yn tynnu pobl oddi ar y rhestr warchod heb ymgynghori â'u harbenigwyr.

---

<sup>105</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C40

<sup>106</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C16

**192.** Testun pryder arall i ni yw nifer cyfyngedig o adroddiadau bod sgysiau sensitif rhwng meddygon teulu a rhai cleifion ynghylch cynllunio gofal uwch ac, yn benodol, ffurflenni Peidiwch â Dadebru, wedi cael eu cynnal yn wael. Roedd y rhain wrth wraidd llawer o drallod diangen i'r bobl dan sylw.

**193.** Wrth symud ymlaen, mae'n bwysig bod cyfathrebu â'r grŵp hwn o bobl yn gwella fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn, ac nad ydynt yn cael eu gadael ar ôl nac yn cael eu gadael yn agored i niwed wrth i gyfyngiadau ehangach ar gyfer y boblogaeth gyffredinol gael eu llacio.

**194.** At hynny, mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried effeithiau'r polisi gwarchod ar iechyd meddwl y grŵp eithriadol o agored i niwed hwn o bobl, ac edrych ar y ffordd orau o liniaru eu heffeithiau trwy ddarparu canllawiau manwl a chymorth.

**Argymhelliad 11.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau i:

- sicrhau nad oes unrhyw achosion pellach o dorri data cleifion wrth symud ymlaen, a
- chyfathrebu'n well â phobl sydd wedi cael eu cynghori i warchod eu hunain. Mae angen dull clir, ymatebol, amserol a thryloyw sydd wedi'i strwythuro'n dda, a rhaid iddo fod yn rhan annatod o strategaeth y dyfodol o roi cymorth i'r grŵp agored iawn i niwed hwn o unigolion.

**195.** Yn fwy cyffredinol, nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod y penderfyniad i gysylltu derbyn llythyr gwarchod â darparu gwasanaethau, fel siopa bwyd ar-lein a danfon meddyginiaethau, wedi bod yn gwbl effeithiol. I lawer iawn o bobl, mae wedi bod yn destun pryder sylweddol a pharhaus, yn enwedig felly yn ystod dechrau'r cyfnod o gyfyngiadau symud pan ddarparwyd manylion y rhai a oedd yn gwarchod i'r prif archfarchnadoedd yn Lloegr ond nid yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru fod wedi bod yn gweithio'n gyflymach ac yn fwy rhagweithiol gyda'r archfarchnadoedd hyn yn ystod y cyfnod hwn i gynyddu capasiti ac i dynnu'r pwysau oddi ar y rhai a oedd yn gwarchod.

**196.** Os yw'r system hon i barhau yn y tymor hwy, teimlwn fod angen iddi gael ei threfnu'n well, yn anad dim i sicrhau bod capasiti yn y system i'r bobl hynny nad ydynt ar y rhestr o gleifion sydd i fod i warchod ond sydd fel arall yn agored i niwed ac wedi defnyddio gwasanaethau siopa ar-lein yn y gorffennol ond sy'n canfod nawr nad ydynt ar gael. Teimlwn y bydd hyn yn arbennig o bwysig yn ystod misoedd y gaeaf nesaf, pan mae'n anochel y bydd mwy o alw am y gwasanaethau hyn.

**197.** Rydym hefyd am dynnu sylw at y galw cynyddol am ddanfôn meddyginiaethau yn ystod y cyfyngiadau symud, a phryderon ynghylch cynaliadwyedd parhaus y gwasanaethau danfôn hyn yn ystod cyfnod y gaeaf.

**Argymhelliad 12.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ail-edrych ar y trefniadau gyda'r prif archfarchnadoedd i sicrhau y gall fodloni ei hun y bydd digon o wasanaethau siopa bwyd ar-lein a danfôn i'r cartref yn gallu ateb y galw, yn enwedig yn ystod y gaeaf sydd i ddod.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod carfan o bobl nad ydynt ar y rhestr cleifion sydd i fod i warchod ond sydd fel arall yn agored i niwed neu fel arfer yn dibynnu ar wasanaethau siopa bwyd ar-lein a danfôn i'r cartref. Rhaid i Lywodraeth Cymru edrych ar y ffordd orau o adnabod y bobl hyn a rhoi cymorth iddynt.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad cyflym a phenodol o'r trefniadau cyfredol ar gyfer danfôn meddyginiaethau i sicrhau eu bod yn gadarn, yn ddibynadwy, yn ddiogel ac yn gynaliadwy, ac yn gallu ateb y galw cyfredol a phwysau posibl yn y dyfodol, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.

**198.** Trwy gydol y cyfnod hwn, mae rôl llywodraeth leol o ran darparu cefnogaeth i bobl sydd wedi cael eu cynghori i warchod eu hunain wedi bod yn hollbwysig. Ledled Cymru, mae cynghorau wedi gweithio'n ddiflino i nodi ac ymateb i anghenion eu cymunedau, gan ad-drefnu gwasanaethau cyfredol, rhoi cymorth ychwanegol ar waith ac adleoli staff lle'r oedd modd. Bu rhai problemau cychwynnol, ond o ystyried maint yr her a'r amser cyfyngedig oedd i'w chwblhau, mae eu cyflawniadau ar y cyd wedi bod yn rhyfeddol.

**199.** Wrth symud ymlaen, mae'n rhaid bod cyfle nawr i awdurdodau lleol adolygu'r trefniadau y maent wedi'u rhoi ar waith i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol ac yn effeithlon. Rhaid i hyn gynnwys ystyried pa mor ddichonadwy fydd hi i awdurdodau lleol roi cymorth yn yr hirdymor pan fydd staff sydd wedi'u hadleoli yn dychwelyd i'w prif rolau.

**Argymhelliad 15.** Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i adolygu'r trefniadau cymorth presennol ar gyfer pobl sy'n gwarchod eu hunain, a gweithredu gwelliannau yn ôl yr angen.

**200.** Yn y tymor hwy, wrth i'r cyfyngiadau lacio a bod y GIG yn ceisio ailsefydlu mwy o wasanaethau arferol, bydd angen canllawiau clir a chymorth i'r rheini sydd wedi bod yn gwarchod ynghylch sut i gael mynediad diogel at ystod lawn o wasanaethau gofal iechyd.

**201.** Yn ogystal, bydd angen canllawiau clir ar gyfer aelodau teulu a gofalwyr y rhai sy'n gwarchod eu hunain, a chyfathrebu clir â nhw, ynghylch unrhyw lacio pellach ar y cyfyngiadau ac unrhyw ofynion iddynt ddychwelyd i'r gweithle.

**Argymhelliad 16.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau clir ar gael i'r rhai sy'n gwarchod ynghylch cyrchu gwasanaethau gofal iechyd arferol a sut i wneud hyn yn ddiogel.

**Argymhelliad 17.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau clir yn cael eu darparu ar gyfer teuluoedd a gofalwyr pobl sy'n gwarchod ynghylch dychwelyd i'r gwaith, a'r cymorth y gallant ei ddisgwyl.

## 6. Strategaeth Profi, Orlhain, Diogelu

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd angen i gysylltiadau gael eu holrhain ‘mewn niferoedd sylweddol, o bosibl ar gyfer y flwyddyn nesaf neu hyd nes y bydd brechlyn ar gael’.

### Amcanion a llywodraethu

**202.** Ar 13 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Profi, Orlhain, Diogelu.<sup>107</sup> Mae'n nodi bod profion, hyd yn ddiweddar, wedi canolbwyntio ar bobl mewn ysbytai, cartrefi gofal a gweithwyr hanfodol â symptomau. Yn y cam nesaf, bydd y strategaeth yn golygu gofyn i bobl roi gwybod os oes ganddynt symptomau; profi unrhyw un sy'n dangos symptomau coronafeirws; ac olrhain y rhai y maent wedi dod i gysylltiad agos â nhw.

**203.** Mae gan brofi ac olrhain o dan y strategaeth nifer o ddibenion allweddol, gan gynnwys rhoi diagnosis o'r clefyd i helpu gyda thriniaeth a gofal; cadw golwg ar iechyd y boblogaeth, i ddeall lledaeniad y clefyd, clystyrau ac ardaloedd â nifer uchel o achosion; olrhain cysylltiadau er mwyn rheoli lledaeniad y clefyd; a pharhad busnes, gan alluogi gweithwyr allweddol i ddychwelyd i'r gwaith yn gyflymach ac yn fwy diogel.

**204.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd cyflawni'r strategaeth Profi, Orlhain, Diogelu yn gofyn am weithio mewn partneriaeth, gyda rolau ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru, BILlau, awdurdodau lleol, y trydydd sector, y byd academiaidd, busnesau lleol a phartneriaid eraill.

**205.** O ran llywodraethu'r broses profi, olrhain, diogelu yn gyffredinol, cadarnhaodd Dr Giri Shankar o Iechyd Cyhoeddus Cymru fod Grŵp Goruchwylio Strategol Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r strategaeth profi, olrhain, diogelu. Cadeirir y Grŵp gan Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Grwpiau Agored i Niwed a Llywodraethiant y GIG.<sup>108</sup>

---

<sup>107</sup> Mae strategaethau tebyg wedi'u lansio ledled y DU. Cychwynnodd gwasanaeth profi ac olrhain GIG Lloegr ar 1 Mehefin. Lanswyd 'Test and Protect' Llywodraeth yr Alban ar 26 Mai. Lansiodd Llywodraeth Gogledd Iwerddon ei strategaeth, Covid-19 Test, Trace, Protect Strategy ar 28 Mai.

<sup>108</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraff 18

**206.** Cadarnhaodd ymhellach fod gweithrediad gweithredol olrhain cysylltiadau wedi'i drefnu ar dair lefel: yr haen genedlaethol, yr haen ranbarthol a'r haen leol:

“The regional tiers have taken responsibility for the delivery at the region. That is a joint effort between the health boards, as well as the local authorities, with specialist input from Public Health Wales as expert health protection staff.

And at a national level, Public Health Wales is undertaking a co-ordinating function of providing the necessary support, as well as the expertise, as well as the human resources to these structures.”<sup>109</sup>

**207.** Yn olaf, nododd, mewn sefyllfaoedd cymhleth, a lle mae angen olrhain cysylltiadau mewn carchardai, er enghraifft, bod lechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflawni'r rôl honno.<sup>110</sup>

**208.** Roedd Syr David King, Cadeirydd y Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) Annibynnol, yn feirniadol iawn o'r oedi cyn cyflwyno system o olrhain cysylltiadau ledled y DU. Meddai:

“We have come to test and trace too late. (...) Every other country in Europe (...) has got a good operative test and trace system; we haven't.”<sup>111</sup>

(...) everyone surely knows that—especially once you've gone into lockdown, but even before you go into lockdown—you need to know where the disease is, you need to be tracing, testing and isolating people. To come into it in the late period of the close-down just seemed to us to be irresponsible.”<sup>112</sup>

**209.** Dywedodd y Gymdeithasol Feddygol Brydeinig, er ei bod yn croesawu cyhoeddi'r strategaeth:

“it is clear that more detail is required, at a rapid pace, due to the scale of the infrastructure, technological rollout and recruitment exercises that need to be put into place to realise this strategy. Development should be guided by public health principles and make best use of the clinical and epidemiological expertise in Wales' public health doctors.

---

<sup>109</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraff 18

<sup>110</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraff 18

<sup>111</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mehefin 2020, paragraffau 21, 105

<sup>112</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mehefin 2020, paragraff 102

Additionally, the rapid operationalisation of the plan would be aided through social partnership work alongside trade unions.”<sup>113</sup>

**210.** Yn ei dystiolaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor hwn, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym, ar ôl tridiau o weithredu’r system profi, olrhain, diogelu, ei fod yn:

“really encouraged and cautiously positive (...) that this new national NHS Wales test, trace and protect service is doing what we wanted it to do..

We’re in a position where we have fewer than 100 positive cases to follow up each day (...) and we’re in a position where I think the two-week trial has really served us well, and the training that we’ve provided to staff in that time and the learning that people have shared, I think, has been really important.”<sup>114</sup>

**211.** Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn bwriadu cyhoeddi, yn wythnosol, ffigurau nid yn unig ar nifer y bobl sy’n dod i mewn, ond rhai o’r cafeatau o gwmpas hynny hefyd.

“So, for example, I said we had fewer than 100 positive cases confirmed each day, but, for some of those, contact tracing won’t take place. So, for example, people in a care home—it’s a closed environment, we haven’t got visitors going in.

So (...) in that overall figure, we’ll then need to provide a different figure for the number we’d want to follow up contacts for, and we’ll then need to indicate something about the amount of activity that takes place on contact tracing.”<sup>115</sup>

**212.** Cadarnhaodd fod trafodaethau ar y gweill gyda llywodraethau eraill yn y DU ynghylch meysydd gweithgarwch cyffredin i’w mesur er mwyn gallu creu cymariaethau rhwng y gwledydd.<sup>116</sup>

---

<sup>113</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C27

<sup>114</sup> Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 110

<sup>115</sup> Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 111

<sup>116</sup> Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 112



## Prosiectau peilot

**213.** Mae nifer o brosiectau peilot, a ddyluniwyd ac a gyflwynwyd ar y cyd gan BILlau ac awdurdodau lleol, wedi bod ar waith yn Hywel Dda, Powys, Betsi Cadwaladr a Chwm Taf Morgannwg ers 18 Mai.<sup>117</sup>

**214.** Mae Prif Weithredwr GIG Cymru wedi **adrodd** rhai pwyntiau dysgu o'r cynlluniau peilot, gan gynnwys yr her o gynyddu'r prosiectau, yn ogystal â'r angen am ddull partneriaeth. Rydym hefyd wedi trafod pwyntiau dysgu gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, a Chynghorau Sir Ceredigion ac Ynys Môn.

**215.** Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthym fod y prif ddysgu wedi cynnwys pa mor addas i'r diben oedd y sgriptiau olrhain cysylltiadau; y ffordd orau o olrhain mewn lleoliad cartref gofal; a sut i nodi problemau gyda chysylltiadau. Ar y pwynt olaf hwn, nododd Dr Giri Shankar y bu problemau yn y cyfnod peilot cynnar lle nad oedd rhifau ffôn cyswllt ar y canlyniadau a oedd yn dod trwy labordai. Cadarnhaodd fod hyn wedi'i ddatrys a'u bod bellach yn cael cyfran uwch o gysylltiadau gyda rhifau ffôn, sy'n ei gwneud hi'n haws cysylltu â phobl.<sup>118</sup>

**216.** Cadarnhaodd Dr Shankar fod y pwyntiau dysgu hyn wedi'u rhoi ar waith yng ngham 1 a cham 2 y broses olrhain.<sup>119</sup>

**217.** Cyn gweithredu'r cynlluniau peilot hyn, roedd Cyngor Sir Ceredigion wedi datblygu a threialu ei system ei hun o olrhain cysylltiadau. Dywedodd Barry Rees, y Cyfarwyddwr Corfforaethol wrthym fod y penderfyniad i ddatblygu'r model yn un:

“ar sail tystiolaeth fyd-eang y byddai'r systemau olrhain cysylltiadau efallai'n medru cael effaith gadarnhaol arnon ni, gan ystyried bod ein niferoedd ni yn hynod o isel, ac felly mi oedd system olrhain cysylltiadau, o bosib, yn mynd i allu bod yn effeithiol, lle'r oedden ni ar y pryd â nifer o achosion—dwi'n credu bod hynny'n gyd-destun pwysig.

Doedden ni ddim mewn *crisis mode*, ac roedd rhywfaint o le gyda ni i greu system, a chreu system cartref—*home-made*—oedd hwn yn gyfan gwbl, gan ddefnyddio ein cydweithwyr o fewn *public protection*. Mi oedd gyda ni swyddogion fan hynny oedd â rhyw fath o arbenigedd mewn systemau tebyg i olrhain cysylltiadau oherwydd eu

<sup>117</sup> Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

<sup>118</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraffau 14-15

<sup>119</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraffau 14-15

swyddogaethau nhw, o ran olrhain pethau fel legionella, gwenwyn bywd ac ati. Felly, mi oedd tipyn o wybodaeth gyda ni o fewn y tîm.”<sup>120</sup>

**218.** Hefyd cawsant gymorth eu hadran TGCh i greu system i gasglu a dadansoddi'r data a gasglwyd.<sup>121</sup>

**219.** Yn fwy cyffredinol, dywedodd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion, Eifion Evans, fod un wers allweddol o'r peilot wedi ymwneud â phrofi a'r gallu i brofi:

“I think what we need to be absolutely crystal clear on is, ‘Let’s test for the virus at this precise moment in time, make sure that we invest in a national CRM [customer relationship management] system that is robust and is easily accessible to all, let’s analyse that data very, very effectively moving forward, and get this contact tracing system well established, and get the skill set.’ If we can get those component parts in place urgently at the right time, we’ll not only suppress this virus, but we can eradicate it from Wales, because the desire is there to do so.”<sup>122</sup>

**220.** Dywedodd ei bod yn hollbwysig peidio ag edrych yn ôl a cheisio adennill tir a gollwyd:

“once you start introducing the new track and trace system, take that as your baseline and take any fresh new cases and attack those, and the more that you can attack those, and the earlier you can attack them, the better.

(...) as an example: Cardiff would never cope with going to address the 2,000 plus infections in Cardiff at this precise moment in time. But, if you look at their daily infection rates, their daily infection rates are down to single-figure numbers. That’s a very manageable figure to deal with. So, go after those and keep going after the daily ones, and, if we’re going to take that approach, I think our infection rates across Wales at the moment are low enough for the contact tracing system to work. (...) it would be a waste of a huge amount of effort and resource to go back after all the high numbers. Leave those alone. Go after the daily ones.”<sup>123</sup>

---

<sup>120</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraffau 233 a 236

<sup>121</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraffau 233 a 236

<sup>122</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraff 272

<sup>123</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraffau 315-316

---

## Gallu i brofi

**221.** Mae'r Strategaeth yn dweud bod graddfa'r gallu i brofi i gefnogi Profi, Orlhain, Diogelu yn 'ddigynsail', gyda'r angen am gapasiti labordy ar gyfer hyd at 10,000 o brofion y dydd i ddechrau, er mwyn gallu profi mwy o weithwyr allweddol, a'r rhai sy'n derbyn gofal mewn ysbytai a lleoliadau gofal. Bwriedir i'r gallu hwnnw gynyddu i 20,000 o brofion y dydd erbyn diwedd mis Gorffennaf 2020, gyda phroffion o Gymru a chyfran o'r rhaglen brofi a arweinir gan y DU.

**222.** O ran gallu domestig, dywedodd Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru, Dr Tracey Cooper, eu bod yn hyderus y gallent gyrraedd 15,000 o brofion. Dywedodd fod ganddynt blatfformau cynaliadwy mawr ar waith a bod darnau pellach o offer yn cyrraedd o Dde Korea, ar gyfer pob cwr o Gymru.<sup>124</sup>

**223.** Ymhellach, dywedodd wrthym:

“there is an untapped additional capacity through home testing and through the lighthouse labs, where samples are sent over to England capacity. So, that gives us a comfortable space to get up to that 20,000.”<sup>125</sup>

**224.** Dywedodd hefyd fod trafodaethau yn cael eu cynnal i weld a oes potensial i labordy o'r fath [UK Lighthouse Labs] ddod i Gymru.<sup>126</sup>

**225.** Mewn perthynas â'r labordai Lighthouse, dywedodd yr Athro Deenan Pillay o'r Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) Annibynnol wrthym fod cyfle bellach i ystyried sut beth fydd y system brofi ar gyfer y don nesaf. Dywedodd:

“The lighthouse laboratories that have been developed are themselves dependent on volunteers staffing them who've come because (...) they're no longer able to do the research they were doing in universities because of the lockdown. Equally, machines that have been used have been taken from universities to put into these lighthouse laboratories. That is all going to come to an end because we're going back, releasing lockdown.”<sup>127</sup>

<sup>124</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraff 88

<sup>125</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraff 88

<sup>126</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraff 88

<sup>127</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mehefin 2020, paragraff 116

**226.** Cadarnhaodd, yn ei farn ef, bod angen mynd ati ar fyrder i gynllunio i symud profi yn ôl o'r labordai Lighthouse argyfwng fel bod capasiti cynyddol o'r fath yn cael ei integreiddio fel elfen bob dydd o waith labordai presennol iechyd cyhoeddus/y GIG.<sup>128</sup>

**227.** Yn ei ddatganiad ar 10 Mehefin, cadarnhaodd y Prif Weinidog:

“Last week the highest number [of positive cases of coronavirus] on any one day was 82, the lowest 35. These cases generated 651 people for follow-up by the contact tracing teams, of whom 619 have been successfully contacted and advised.”

### Amser prosesu profion

**228.** Mae cyngor gan y Gell Cyngori Technegol (TAC) yn nodi'r canlynol:

- Mae gan wledydd sydd â chynlluniau llwyddiannus niferoedd isel o achosion ac nid ydynt yn canolbwyntio ar gapasiti; mae cyflymder y profi a'r olrhain yn bwysicach;
- Mae cynlluniau sy'n cael eu hystyried ymhlith y mwyaf llwyddiannus yn golygu sicrhau canlyniadau profion o fewn 24 awr ac olrhain cysylltiadau yn llwyr o fewn 24-36 awr. Mae cymaryddion yn nodi bod angen olrhain 75-90 y cant o gysylltiadau er mwyn i brofi, olrhain, diogelu fod yn effeithiol.

**229.** Yn ôl y ffigurau ar ddarparu canlyniadau profion ar gyfer 21 Mehefin yng Nghymru, dim ond 64 y cant o brofion ysbyty a gafodd eu darparu o fewn 24 awr, gyda chanran is ar gyfer profion yn y gymuned a chyfleusterau profi drwy ffenest y car. Nid oes unrhyw adroddiadau ar ganlyniadau pecynnau profi gartref, er bod canllawiau ar brofion cartref yn nodi y gallai gymryd hyd at 72 awr ar gyfer prawf gartref.

**230.** Yn eu tystiolaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn, nododd Iechyd Cyhoeddus Cymru mai'r amser o'r dechrau i'r diwedd<sup>129</sup> ar gyfer profi yng Nghymru o fewn 24 awr yw 52.1 y cant, a hynny ar 10 Mehefin. O fewn 48 awr mae'n 85.6 y cant.

---

<sup>128</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mehefin 2020, paragraff 116

<sup>129</sup> Amser o'r dechrau i'r diwedd yw'r amser o'r adeg y bydd unigolyn yn dod i ganolfan brofi a'i fanylion yn cael eu cofnodi mewn cais am brawf electronig hyd y cwblheir y gwaith prosesu yn y labordy.

Dywedodd Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru fod hyn yn fwy ffafriol nag mewn rhannau eraill o'r DU ar rai o brofion y DU.

**231.** Mae nifer o dystion wedi tynnu sylw at bwysigrwydd dychwelyd canlyniadau profion yn amserol i lwyddiant y strategaeth profi, olrhain, diogelu. Ar y pwynt hwn, nododd Syr David King:

“the turnaround time after testing is critically important. If you get the test result five days after the test is made, and that person is still wandering around in their community, imagine the number of people infected during that period. It's critically important that the timeline between the test being drawn and completed, and the information going through, is as short as possible.”<sup>130</sup>

**232.** Yn yr un modd, dywedodd CLILC wrthym:

“(…) if we are doing testing, we need the results back quickly, because if we are to trace the individuals that that person's had contact with, while the individual is supposed to isolate until the results come back (...) and if they think, 'Well, I only had mild symptoms; I don't think I had it', by day three they may decide to go back to work, or they may decide to carry on with what they do.

So, we need to make sure those test results come back, because, otherwise, our tracing job of maybe tracking and tracing five, six, seven individuals could become tracing 30 or 40 individuals, and the whole system then would fail.”

“(…) the one part that we can't control is (...) the actual test being done in a timely way and the result coming back. We have to rely on others for that, and that's the part that we need to make sure we have absolute confidence in.”<sup>131</sup>

**233.** Bu galwadau am gyfleusterau profi mwy lleol yng Nghymru er mwyn gallu gwneud profion yn gyflymach.<sup>132</sup> Ar y pwynt hwn, dywedodd Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthym, erbyn canol mis Mehefin ac erbyn dechrau mis Gorffennaf, y dylai chwe darn newydd o offer fod wedi cyrraedd o Dde Korea a

<sup>130</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mehefin 2020, paragraff 136

<sup>131</sup> Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 80

<sup>132</sup> Gan gynnwys gan Arweinydd Cyngor Ceredigion, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, [Cyfweiliad y BBC](#)

fydd yn gwella amseroedd prosesu lleol yn sylweddol gan ganiatáu i fwy o brofi gael ei gwblhau'n lleol. Cadarnhaodd y bydd dau ddarn o offer yn mynd i ogledd Cymru, dau i'r gorllewin, a dau i'r de.<sup>133</sup>

## Dechrau'r broses

---

**234.** Ar hyn o bryd, mae olrhain cysylltiadau yng Nghymru yn cychwyn unwaith y bydd canlyniad positif wedi'i ddychwelyd. Buom yn holi'r Gweinidog a oedd hyn o ganlyniad i gapasiti o fewn y system, neu'n seiliedig ar gyngor am y ffordd orau i symud ymlaen. Cadarnhaodd mai'r cyngor a oedd ganddynt oedd y byddai'n ddelfrydol symud i system sy'n dechrau olrhain cysylltiadau cyn gynted ag y bo rhywun yn dangos symptomau.

**235.** Dywedodd ei fod eisiau bod mewn sefyllfa yn y dyfodol i olrhain cysylltiadau rhywun sy'n cael canlyniad positif neu rywun sy'n aros 48 awr, ond cydnabu y gallai fod achosion y tu allan i'r ffenestr 48 awr honno. Aeth ymlaen i ddweud ei fod eisiau gallu symud i sefyllfa lle gallwn, yn y dyfodol, olrhain cysylltiadau hyd yn oed os nad yw pobl wedi cael canlyniadau eu profion."

"We're looking for a system that is effective but meets the advice and the guidance we've got, and provides for 80 per cent of the contacts to be traced and followed up, because that's the high watermark that we've been given by Dr Orford and his colleagues on the technical advisory group for a properly effective, robust contact tracing system."<sup>134</sup>

**236.** Bu inni holi'r Gweinidog ymhellach am yr amser a gymerir i ddychwelyd canlyniadau profion, a'r ffenestr 48 awr. Dywedodd:

"The numbers are small enough now that we're able, with our group of 600 staff at present— where we should have some confidence in being able to follow up those contacts to the degree that we need and at the speed that we need. But that does (...) rely on the speed of the testing programme in turning around the results."<sup>135</sup>

**237.** Yn seiliedig ar eu profiad eu hunain, roedd Barry Rees o Gyngor Sir Ceredigion yn glir mai "un peth eithaf pwysig hefyd yw'r dechreubwynt ar gyfer olrhain cysylltiadau". Dywedodd, fel cyflogwr mawr yn y Sir, bod eu mynediad at wybodaeth am eu gweithwyr a oedd yn arddangos symptomau ond nad oeddent

---

<sup>133</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraff 114

<sup>134</sup> Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 116

<sup>135</sup> Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 118

o reidrwydd wedi cael eu profi yn golygu eu bod wedi gallu cychwyn ar y broses olrhain cysylltiadau hyd yn oed cyn profi:

“mae’r ochr ein bod ni’n gallu pigo pobl lan—rhai unigolion a’n staff ni yn yr achos yma—ar y pwynt symptomatig, yn hytrach na derbyn canlyniad positif—dwi’n credu bod hynny wedi bod yn fanteisiol hefyd i dorri’r oedi, efallai, er mwyn troi y broses yn ei blaen.”<sup>136</sup>

**238.** Roedd yr Athro Deenan Pillay, fodd bynnag, yn llai argyhoeddedig ynghylch olrhain cysylltiadau pan fyddai rhywun yn dangos symptomau. Awgrymodd y gallai system o’r fath arwain at fwy o olrhain a chyfnodau cwarantyn nag oedd eu hangen, mewn achosion lle’r oedd gan unigolyn symptomau tebyg i’r fflw ond eu bod wedi’u hachosi gan feirws neu haint arall:

“One of the real problems is that even at the height of the pandemic, we estimated that probably (...) only 20 per cent to 30 per cent of those individuals with these sort of flu-like symptoms (...), even at the peak, would be due to Covid, because there are other viruses and other infections circulating.”

**239.** Dywedodd:

“I think we need to make sure that testing is there—that even if we start isolation based on symptoms, we need to get results of tests back very quickly (...) in order to not mean unnecessary quarantining of contacts, which could become a huge number.”<sup>137</sup>

## Adnoddau a chyllid

### Adnoddau

---

**240.** Bydd y Strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu yn gofyn am weithlu o hyd at 1,000 o staff, wedi’i dynnu o Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol a BILlau. Byddant yn weithwyr proffesiynol iechyd cyhoeddus arbenigol ac yn staff gweinyddol anarbenigol. Adroddodd Prif Weithredwr GIG Cymru ar 28 Mai na fydd angen y 1,000 i gyd i ddechrau, ond roedd 600 o staff eisoes wedi’u recriwtio.

---

<sup>136</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraff 237

<sup>137</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mehefin 2020, paragraff 141

---

**241.** Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor hwn, dywedodd Arweinydd CLILC, er ei fod yn hyderus bod digon o staff ar gael ar hyn o bryd i reoli'r dasg, y bydd yn broblem wrth symud ymlaen:

“If the current stages of lockdown are lifted more and more, and if we get to the stage of more council services being reintroduced, then there is a conflict there, because we won't be able to use those same staff for tracing if we're expecting them to reopen services.

So, where we'll have to backfill staff, there will be significant costs, and we've had discussions with the Welsh Government about that to make them aware that this is a multimillion pound, ongoing task, where, at some point, funding will have to come available.”<sup>138</sup>

**242.** Gwnaethpwyd pwyntiau tebyg gan Brif Weithredwyr cynghorau Ceredigion ac Ynys Môn.

**243.** Dywedodd Prif Weithredwr Cyngor Ynys Môn, Annwen Morgan, fod Ynys Môn wedi bod yn adleoli staff i weithio ar olrhain cysylltiadau, ond y byddai penodi staff yn dod yn her wrth i gyfyngiadau symud gael eu codi. Yn ei barn hi, bydd angen iddynt ddechrau'n raddol, “a pheidio mynd i ofynion y swm mawr cenedlaethol sydd wedi cael ei ofyn.” Tynnodd sylw hefyd at yr “angen hollol ddilys o gael pobl ddwyieithog i wneud y gwaith [olrhain cysylltiadau]”.<sup>139</sup>

**244.** Cadarnhaodd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion, Eifion Evans, er eu bod wedi gallu penodi i nifer o rolau eisoes,

“mae'r *scale-up* yn parhau. Mae popeth yn weithredol yn genedlaethol, ond, mae'n rhaid cydnabod, dyw'r capasiti cyfan, gyda ni, ddim yno eto.”<sup>140</sup>

**245.** Yn ychwanegol at hyn, awgrymodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod angen hyfforddi mwy o bobl nag y gallai fod eu hangen, er mwyn cael y gallu ychwanegol yn y system i fod yn hyblyg ac ymatebol pe bai'r sefyllfa'n gwaethygu.<sup>141</sup>

---

<sup>138</sup> Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 77

<sup>139</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraff 259

<sup>140</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraffau 253-254

<sup>141</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraff 319



---

## Cyllid

---

**246.** Ar 27 Mai, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid gyllideb atodol gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21, a oedd yn cynnwys £57 miliwn yn ychwanegol ar gyfer y strategaeth “Tracio ac Orlhain”. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru eisoes wedi nodi y bydd y strategaeth yn gofyn am adnoddau ychwanegol sylweddol o ran staffio a chyllid er mwyn iddi gael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus:

“Alongside specially trained council public protection officers, and partners in health, other non-clinical staff will need to be either recruited or redeployed to support the mammoth work to manage the disease in local communities.

Welsh Government has recognised that this work will come at a cost, and councils will continue to work with Ministers to explore the implications and the funding required.”<sup>142</sup>

**247.** Yn ein sesiwn dystiolaeth ddiweddaraf gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, dywedodd Dr Quentin Sandifer:

“Welsh Government has recently written to local government and has set aside a total sum of £1 million to be allocated between the local authorities in Wales to help them with the infrastructure costs, and the discussions are ongoing between the Welsh Local Government Association, local authorities and Welsh Government itself on additional cost and resourcing impacts.”<sup>143</sup>

**248.** Fodd bynnag, dywedodd Prif Weithredwr Cyngor Ceredigion nad oedd cynghorau wedi cael unrhyw gadarnhad cadarn eto o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, roeddent wedi cymryd Prif Weithredwr GIG Cymru at ei air yn ei neges yn ystod Fforwm Cenedlaethol y Prif Weithredwyr yn ddiweddar mai'r gwaith hwn oedd prif flaenoriaeth y wlad ac y bydd yr arian yn dilyn.

**249.** Aeth ymlaen i ddweud:

“The only thing we have received is a modelling document from Welsh Government that would enable us to populate our staffing levels against it. It’s a very complex, complicated tool to administer, but

---

<sup>142</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C26

<sup>143</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraff 47

there's no confirmation about what that would equate to financially at the moment."<sup>144</sup>

**250.** Ar wahân, amlygodd y BMA yr angen i wneud y defnydd gorau o adnoddau yn sector cyhoeddus Cymru o ystyried yr amcangyfrif y byddai timau olrhain cysylltiadau yn nodi rhwng 7,500 a 30,000 o gysylltiadau newydd y dydd a 100,000-400,000 o unigolion yn cael eu holrhain ar unrhyw un adeg.<sup>145</sup>

**251.** Galwodd ar bob Llywodraeth ledled y DU i asesu'r gallu presennol a cheisio ehangu, atgyfnerthu ac ategu unrhyw ddiffygion ar frys, gyda chyllid digonol yn cael ei ddarparu i gyflawni'r rhaglen hon.<sup>146</sup>

### Cyfranogiad y cyhoedd yn y broses Profi, Orlhain, Diogelu

**252.** Mae'r Strategaeth Profi, Orlhain, Diogelu yn pwysleisio y bydd rôl y cyhoedd yn allweddol, ac mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi 'er mwyn i hyn fod yn llwyddiannus, rhaid i ni gael help a chydweithrediad pawb i rannu manylion am eu symudiadau a'u cysylltiadau. Hefyd rhaid i bobl hunanyrsu os ydynt yn wynebu risg'.

**253.** Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor hwn, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod cyfranogiad y cyhoedd yn hanfodol er mwyn i olrhain cysylltiadau weithio, ac oherwydd hynny, roedd hi'n

"really important that it's an NHS Wales test, trace, protect service. The NHS is still the most trusted public service in the country (...) so, people being contacted by the health service or people working with the health service I think matters, and that's an agreement from local government and the NHS that that's how the service is being described, because that's the reality of the service."<sup>147</sup>

**254.** Dywedodd fod y cyhoedd wedi dangos parodrwydd hyd yma, yn y treial ac yn y gwaith olrhain cysylltiadau cyntaf, ond y byddai angen ailadrodd i bawb bod y niwed a achosir drwy beidio â chymryd rhan mewn olrhain cysylltiadau yn

---

<sup>144</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraff 295

<sup>145</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C27

<sup>146</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C27

<sup>147</sup> Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 123

debygol o fod yn llawer mwy arwyddocaol, a'n bod yn sôn am system a fydd yn helpu i osgoi niwed ym marn y llywodraeth, sy'n cynnwys colli bywyd.<sup>148</sup>

**255.** Gwnaethpwyd pwyntiau tebyg gan Brif Weithredwyr Cyngorau Ceredigion ac Ynys Môn:

“This has to be part of the new culture of Wales. (...) If we can move the nation to an attitude of where it's a civic duty to recognise that, if you are not feeling well, if you are symptomatic, you don't take any risks, self-isolate for an interim period [and] refer yourself for a test urgently.”<sup>149</sup>

**256.** Yn gysylltiedig â hyn mae pwysigrwydd cydymffurfiad y boblogaeth sy'n gweithio. Mae'r Strategaeth Profi, Orlhain, Diogelu yn nodi:

“Mae olrhain cysylltiadau yn golygu efallai y bydd gofyn i bobl hunanynysu sawl tro. Po fwyaf y daw pobl i gysylltiad ag eraill, y mwyaf tebygol ydyw y bydd angen iddynt hunanynysu. Rydym yn cydnabod y straen y gall hyn ei roi ar unigolion a'u teuluoedd os ydynt yn gorfod hunanynysu ar sawl achlysur.

Byddwn (...) yn siarad gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â sut y gallant wneud yn siŵr bod pobl yn gallu hunanynysu drwy roi darpariaeth briodol o ran hawliau cyflogaeth i unigolion a'r system nawdd cymdeithasol.”

**257.** Mae'r GMB wedi codi pryderon difrifol am y risgiau i'r sector gofal cymdeithasol oherwydd nad yw'r gweithlu'n gallu fforddio cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith os oeddent yn sâl neu os oedd gofyn iddynt ynysu:

“The GMB believes that any worker following a Government instruction to self-isolate should not suffer any financial detriment. SSP is set at £95.85 and is not in any way sustainable for individuals. Therefore, it is highly likely that staff will be forced to ignore your Governments advice and attend work anyway.”<sup>150</sup>

**258.** Mae hefyd yn nodi nad yw'r Strategaeth Profi, Orlhain, Diogelu yn cyfeirio o gwbl at sut mae gweithwyr yn cael eu talu am ynysu. Yn hynny o beth, mae wedi

---

<sup>148</sup> Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 124)

<sup>149</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraffau 325-326

<sup>150</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C46

cymryd yn ganiataol mai dim ond hawl i Dâl Salwch Statudol (SSP) fyddai gan y rhai sy'n cael eu hysbysu bod yn rhaid iddynt hunanyngysu am 14 diwrnod, rhywbeth y mae'n ei ddweud sy'n annerbyniol ac y byddai'n ychwanegu risg sylweddol at y gallu i recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol yng Nghymru yn y dyfodol.<sup>151</sup>

## Defnyddio technoleg

**259.** Yn wahanol i'r DU, mae gwledydd eraill ledled y byd wedi bod yn defnyddio technoleg olrhain cysylltiadau o gamau cynnar yr argyfwng.

**260.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i un platfform digidol ar gyfer olrhain cysylltiadau ledled Cymru, a oedd i gael ei ddatblygu gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) a bod ar gael ledled Cymru o 8 Mehefin. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor hwn, cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'r platfform hwn ar waith yn ystod yr wythnos yn dechrau 8 Mehefin 2020:

“That should actually make reporting and providing data to the public easier, as well as then making sure we're not dealing with the manual workaround we've got at present with the very interim solutions. So, next week will be an important point, and then we'll have several more weeks of that running.”<sup>152</sup>

**261.** Wrth sôn am ddatblygu'r system, dywedodd Dr Giri Shankar o Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthym fod 2,000 o ddefnyddwyr wedi'u cofrestru ar hyn o bryd. Dywedodd fod rhai problemau wedi'u nodi a'u datrys, a bod cymhorthfa ddyddiol yn cael ei chynnal gyda'r defnyddwyr er mwyn gallu datrys problemau.<sup>153</sup>

**262.** Cadarnhaodd, wrth symud ymlaen, y bydd bwrdd rheoli'r rhaglen yn edrych ar yr holl gyngor a'r holl awgrymiadau a ddaw gan y timau lleol, y timau rhanbarthol, i ymgorffori swyddogaethau ychwanegol ymhellach yn y system i'w gwneud yn haws fyth i'w defnyddio.<sup>154</sup>

**263.** Roedd Prif Weithredwr Cyngor Ynys Môn, fodd bynnag, yn glir nad oedd y system wedi bod yn gwbl weithredol o'r cychwyn cyntaf ar 8 Mehefin:

---

<sup>151</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C46

<sup>152</sup> Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 113

<sup>153</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraff 176

<sup>154</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraff 176

“Dydy hi ddim yn gwbl, gwbl weithredol. Fe rof i esiamp l i chi: dydy’n uwch-ddefnyddwyr ni, fel ein *project manager* ni, ddim yn gallu cael mynediad i’r system, a’r bobl yma, wrth gwrs, sy’n rhoi’r trosolwg o bopeth sy’n digwydd.

Dwi ddim yn amau y down ni dros hyn, ond os oedd hi i fod yn barod i fynd fel Rolls-Royce ar yr wythfed, doedd hi ddim.”<sup>155</sup>

## Apiau olrhain cysylltiadau/olrhain agosrwydd

**264. Mae’r Prif Weinidog wedi nodi** y gallai Llywodraeth Cymru hefyd ddefnyddio ap NHSX Covid-19 llywodraeth y DU, ar yr amod ei fod yn cwblhau ei gyfnod prawf yn foddhaol. Gallai’r ap hwn helpu gydag olrhain cysylltiadau trwy ddefnyddio signalau Bluetooth ac mae wedi’i dreialu ar Ynys Wyth. Yn ei dystiolaeth i’r Pwyllgor hwn, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

“The NHSX app could be useful, and what I’ve always said still remains the position: if it works, if the data issues are resolved about the transfer of data into the Welsh system so it’s useful for us, and the privacy issues are resolved, then we want to be part of it. I think that’s the right position to take.”<sup>156</sup>

**265.** Honnodd, fodd bynnag, nad yr ap ei hun sy’n pennu a yw olrhain cysylltiadau yn gweithio, ond yn hytrach y system sydd eisoes ar waith.<sup>157</sup>

**266.** Gwnaethpwyd pwyntiau tebyg gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, a nododd nad yr ap ynddo’i hun fydd yr ateb ar gyfer olrhain cysylltiadau ond gall fod yn offeryn atodol i fonitro symudiad symptomau ar draws y boblogaeth.<sup>158</sup> Dywedodd fod apiau sydd eisoes yn cael eu defnyddio, fel traciwr symptomau ZOE, wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran mesur sut mae’r symptomau yn y boblogaeth.<sup>159</sup>

**267.** Mewn perthynas ag apiau olrhain agosrwydd, fel yr un a dreialwyd ar Ynys Wyth, eglurodd Dr Shankar fod y rhain yn gweithio trwy anfon signal digidol at ddefnyddwyr eraill yr ap, gan adnabod a chadw cof o’r holl unigolion sydd wedi dod o fewn 2m i’r unigolyn am fwy na 15 munud. Pe bai unigolyn yn profi’n bositif

<sup>155</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraff 344

<sup>156</sup> Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 133

<sup>157</sup> Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 135

<sup>158</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraffau 180-181

<sup>159</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraffau 180-181

wedi hynny, byddai wedyn yn rhybuddio pawb a oedd wedi bod mewn cysylltiad fel y gallent gymryd y camau angenrheidiol. Dywedodd:

“we see that to have benefit in areas such as, if you are on public transport, you will not know who you’ve been in contact with; if you are in a large public building, you won’t know where you have been. So, in such locations, these apps will actually help provide that signal, but as I said, again, the app in itself is not the answer; it’s a supplementary tool to our other contact tracing systems that we have.”<sup>160</sup>

**268.** Ar 18 Mehefin, cadarnhaodd Llywodraeth y DU na fyddai’n bwrw ymlaen â’i ap olrhain cysylltiadau cyfredol ac yn hytrach y byddai’n bwrw ymlaen ag ateb sy’n dwyn ynghyd y gwaith ar ein ap ni ac apiau Google/Apple.

### Olrhain trawsffiniol

**269.** Yn ei dystiolaeth, dywedodd Dr Quentin Sandifer, Iechyd Cyhoeddus Cymru fod rhannu data yn elfen hanfodol o olrhain cysylltiadau. Dywedodd fod trefniadau eisoes wedi’u rhoi ar waith fel rhan o ymarferion diogelu iechyd arferol i sicrhau bod gwybodaeth am achosion a chysylltiadau yn cael ei rhannu dros y ffin. Ymhellach, dywedodd fod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gwneud yn hollol siŵr bod y trefniadau cadarn hynny yn cael eu sefydlu, a bod unrhyw dechnolegau sydd ar gael a all gefnogi’r gwaith yn cael eu defnyddio i’n galluogi i wneud hynny.<sup>161</sup>

**270.** Bu inni holi’r Gweinidog ynghylch cynnydd gyda’r protocol ffurfiol ar gyfer olrhain trawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr. Cadarnhaodd fod:

“agreement between officials about how that should work and how information should take place with which contact tracing team of follow-up contacts and then how information will be shared between the two different systems.”<sup>162</sup>

**271.** Dywedodd ei fod yn gobeithio cymeradwyo cytundeb ynglŷn â’r rhannu data hwnnw, ac y gallai hynny wedyn fod yn fodel ar gyfer gweithio a rhyngweithio â gwledydd eraill yn y DU yn y dyfodol.<sup>163</sup>

---

<sup>160</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraffau 180-181

<sup>161</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2020, paragraff 206

<sup>162</sup> Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 137

<sup>163</sup> Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 137

## Ein barn ni

**272.** Mae llawer o wledydd ledled y byd wedi gweithredu eu trefniadau olrhain cysylltiadau eu hunain mewn ymateb i'r pandemig Covid-19. Yn y DU, mae hanes cryf o olrhain cysylltiadau ar gyfer rhai afiechydon, megis legionella a gwenwyn bwyd, gydag lechyd Cyhoeddus Cymru ei hun yn ymwneud ag olrhain cysylltiadau yn ystod achosion o'r frech goch yn 2012-13 a 2018.

**273.** Mae'n amlwg o ganlyniadau'r trefniadau hyn, a thystiolaeth ryngwladol yn fwy cyffredinol, fod olrhain cysylltiadau yn arf profedig yn erbyn afiechydon heintus. Yn absenoldeb brechlyn, dyma'r unig arf go iawn sydd gennym ni.

**274.** Ar ôl cychwyn system olrhain cysylltiadau yng Nghymru yng nghamau cynnar coronafeirws, roedd yn benderfyniad trychinebus, ledled y DU, i roi'r gorau i hynny wedyn pan gododd y gyfradd heintio. Rhaid mai canlyniad dysgu allweddol y penderfyniad hwnnw yw bod yn rhaid i drefniadau olrhain fod yn effeithiol wrth symud ymlaen, a rhaid eu cynnal am weddill yr achos, hyd yn oed pan fydd y galw ar ei uchaf, ac os bydd achosion pellach.

**275.** Wrth i gyfyngiadau gael eu llacio ac wrth i bobl geisio dychwelyd i 'normal newydd', mae'n hanfodol bod y strategaeth Profi, Orlhain, Diogelu yn cael ei gweithredu'n llawn er mwyn osgoi achosion yn y dyfodol a chyfnodau pellach o gyfyngiadau. Mae gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid gyfle yn awr i sicrhau bod yr holl drefniadau angenrheidiol ar waith ar gyfer system brofi ac olrhain cysylltiadau sydd â digon o adnoddau ac sy'n gweithredu'n effeithlon.

**Argymhelliad 18.** Rhaid i Lywodraeth Cymru achub ar y cyfle yn awr i adolygu'r holl drefniadau i sicrhau bod graddfa'r isadeiledd, y gwaith o gyflwyno technoleg a'r ymarferion recriwtio angenrheidiol ar waith i sicrhau system olrhain cysylltiadau effeithlon sy'n gweithredu'n effeithiol. Rhaid i'r system beidio â dioddef yn sgil diffyg cynllunio, adnoddau neu dechnoleg, pan fu amser i baratoi a chyfleoedd pwysig ar gyfer dysgu.

## Cyflymder a chywirdeb y profion

---

**276.** Bydd cyflymder y profi, yr amser mae'n ei gymryd i brosesu canlyniadau, a chywirdeb y canlyniadau hynny yn hanfodol i lwyddiant y strategaeth Profi, Orlhain, Diogelu. Po hiraf yw'r amser prosesu 'o'r dechrau i'r diwedd', o gasglu sampl i roi canlyniadau i unigolion, po fwyaf yw'r oedi ar yr adeg pan mae'r clefyd ar ei fwyaf heintus, neu po fwyaf tebygol yw hi y bydd pobl yn cael eu gosod dan gwarantyn yn ddiangen mewn achosion lle mae'r canlyniadau'n negyddol.

**277.** Yn ôl cyngor y Gell Cyngori Technegol, mae'r cynlluniau mwyaf llwyddiannus yn golygu sicrhau canlyniadau profion o fewn 24 awr a bod y gwaith olrhain cysylltiadau yn cael ei gwblhau o fewn 24-36 awr.

**278.** Mae'r amseroedd prosesu cyfredol ar gyfer canlyniadau yng Nghymru yn siomedig, gyda dim ond 50.7 y cant yn cael eu dychwelyd o fewn 24 awr ac 84.4 y cant o fewn 48 awr (ar 21 Mehefin). At hynny, dim ond 43.6 y cant o ganlyniadau'r Uned Profi Cymunedol a 44.7 y cant o ganlyniadau canolfannau profi drwy ffenest y car sy'n cael eu dychwelyd o fewn 24 awr. Ni chaiff amseroedd prosesu ar gyfer pecynnau profi gartref eu monitro. O'r herwydd, nid ydym eto mewn sefyllfa lle mae canran ddigon uchel o brofion yn cael eu dychwelyd yn ddigon cyflym, ar lefel gyson ar draws pob rhan o Gymru. Mae'n destun pryder arbennig i ni fod yr amseroedd prosesu hyn wedi bod yn gwaethygu'n ddiweddar.

**279.** O ystyried hyn, rydym yn pryderu am benderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â dechrau olrhain cysylltiadau nes bod canlyniad prawf positif wedi'i dderbyn. Dylai'r penderfyniad hwn gael ei adolygu ar unwaith.

**280.** Credwn fod rhinwedd yn y ddadl y dylai olrhain cysylltiadau ddechrau ar y pwynt pan fydd person yn dangos symptomau. Fodd bynnag, nid ydym yn siŵr am ymarferoldeb dull o'r fath, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf pan mae'n debygol y bydd gennym ni feirysau eraill â symptomau tebyg i Covid-19.

**281.** O ystyried pwysigrwydd cael canlyniadau profion cyflym ar gyfer effeithlonrwydd y system, credwn y dylai Llywodraeth Cymru, yn hytrach, ganolbwyntio ar leihau'r amser prosesu ar gyfer canlyniadau profion, yn enwedig o fewn 24 awr, ac amrywioldeb hyn yng ngwahanol ranbarthau Cymru.

**Argymhelliad 19.** Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gydag lechyd Cyhoeddus Cymru, geisio sicrhau bod canlyniadau pob prawf yn cael eu dychwelyd o fewn 24 awr.

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru symud ar unwaith i system lle mae olrhain cysylltiadau yn cychwyn naill ai ar ôl derbyn prawf positif, neu o fewn 24 awr.

**282.** Mae cywirdeb canlyniadau profion yr un mor bwysig er mwyn osgoi rhoi diagnosis coronafeirws i bobl sydd heb eu heintio, ac i osgoi canlyniadau negyddol ffug a allai roi hyder ffug i bobl roi'r gorau i hunanynysu a dychwelyd i'w bywyd arferol er yn heintus o hyd.



**283.** Rydym eisoes wedi amlinellu ein pryderon ynghylch y risgiau sy'n gysylltiedig â chyfraddau canlyniadau negyddol ffug uchel pecynnau profi gartref o ystyried y ffordd ymwthiol y mae angen casglu'r sampl (paragraff 151).

**284.** Credwn ei bod yn well i weithwyr proffesiynol gynnal y profion. O'r herwydd, efallai y bydd angen cynyddu gallu gwasanaethau profi cymunedol er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar becynnau profi gartref.

**Argymhelliad 21.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod systemau ar waith i fonitro'r gyfradd negyddol ffug yn effeithiol, ac i sicrhau bod profion yn cael eu cyflwyno'n gyfrifol ac yn hyblyg er mwyn lleihau'r gyfradd negyddol ffug.

### Gallu i brofi

---

**285.** O ran y gallu i brofi, nodwn y bwriad i gynyddu i 20,000 o brofion y dydd erbyn diwedd mis Gorffennaf, ac y dylai'r capasiti domestig gyfrif am oddeutu 15,000 o'r profion hyn.

**286.** Fodd bynnag, nid oes mwy na 3,263 (7 Mehefin) o brofion wedi'u cynnal mewn diwrnod hyd yma; tua chwarter o'r gallu cyfredol cyffredinol. O'r herwydd, mae capasiti llawn system Cymru eto i gael ei ddefnyddio a'i brofi. Rydym hefyd yn nodi bod amrywiad rhanbarthol sylweddol o hyd o ran capasiti. Er y bu rhai trafodaethau am y potensial i ddod â labordai newydd i Gymru, gobeithiwn fod yr holl opsiynau ar gyfer gwneud defnydd llawn o'r cyfleusterau presennol yng Nghymru wedi'u harchwilio'n llawn yn gyntaf.

**287.** Bydd capasiti ar gyfer y 5,000 o brofion ychwanegol y dydd yn dod o gyfleusterau yn Lloegr. Mae gennym rai pryderon ynghylch y gwarantau a geisir gan Lywodraeth Cymru ynghylch yr amseroedd prosesu ar gyfer canlyniadau'r profion hyn.

**Argymhelliad 22.** Mewn ymgynghoriad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, dylai Llywodraeth Cymru:

- gyhoeddi strategaeth i gynyddu nifer y bobl sy'n dod ymlaen i gael prawf er mwyn defnyddio'r capasiti profi sydd ar gael yn llawnach;
- cymryd camau yn awr i roi sicrwydd y bydd modd cyflawni 20,000 o brofion y dydd;
- sicrhau bod mesurau diogelwch ar waith i sicrhau bod capasiti o gyfleusterau y tu allan i Gymru yn addas i'r diben ac yn ddigonol i ateb y galw.

- sicrhau bod y system yn gallu ymateb i gynnydd yn y galw, ac ehangu i'w ddiwallu.

## Adnoddau a chyllid

---

**288.** Mae olrhain cysylltiadau yn gofyn am lawer o adnoddau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gael 1,000 o staff olrhain cysylltiadau yn eu lle, er y bydd y gallu hwn yn cymryd amser i'w adeiladu, ac nid yw'r holl swyddi wedi'u llenwi ar hyn o bryd. Mae'n bwysig nodi hefyd, mewn llawer o awdurdodau lleol, bod staff sy'n gweithio ar olrhain cysylltiadau ar hyn o bryd wedi cael eu hadleoli o rolau eraill ac, yn ôl pob tebyg, bydd angen iddynt ddychwelyd i'r rolau hynny wrth i wasanaethau ehangach gael eu hadfer yn raddol, neu bydd yn rhaid i'w swyddi blaenorol gael eu hôl-lenwi.

**289.** Sut bynnag, bydd angen cynnal rhaglen recriwtio sylweddol, ac mae'n anochel y bydd hyn yn golygu gwariant ychwanegol. Mae yna gryfderau gwirioneddol mewn gwybodaeth a phrofiad lleol wrth olrhain cysylltiadau; mae hwn yn faes lle mae gan awdurdodau lleol a gofal sylfaenol arbenigedd a dylai unrhyw drefniant yn y dyfodol adeiladu ar hyn.

**290.** Wrth i gyfyngiadau barhau i gael eu llacio, rhaid i ni fod yn barod ar gyfer cynnydd posibl yn y gyfradd heintio a nifer yr heintiau, a rhan bwysig o hyn yw bod yn hyderus bod nifer digonol o staff wedi'u nodi, eu hyfforddi a'u penodi i olrhain cysylltiadau. Mae angen i hyfforddiant o'r fath baratoi staff ar gyfer natur sensitif y sgysiau gyda'r rhai y maent yn eu holrhain. At hynny, bydd angen cynnwys adnoddau hyblyg ychwanegol yn y system i'w galluogi i ymateb i gynnydd mewn cyfraddau heintio, ac angen mwy lleol.

**291.** Nid ydym wedi ein hargyhoeddi eto y bydd 1,000 o staff yn ddigon i alluogi'r system olrhain cysylltiadau i weithredu'n effeithiol bob amser, yn enwedig pan fydd y galw ar ei uchaf.

**Argymhelliad 23.** Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o frys, adolygu ei phenderfyniadau ynghylch nifer y staff sydd eu hangen ar gyfer olrhain cysylltiadau er mwyn sicrhau ei hun a'r cyhoedd y bydd y system yn gallu gweithredu'n effeithiol pan fydd y galw ar ei uchaf, ac y gall fod yn hyblyg ac ymateb yn ôl newidiadau yn y galw. Dylai gyhoeddi canlyniadau'r adolygiad.

**292.** Yn gysylltiedig â hyn mae'r mater o ariannu. Mae angen brys am sicrwydd i awdurdodau lleol ynghylch y cymorth ariannol y bydd Llywodraeth Cymru yn ei roi i gefnogi'r system olrhain, dros yr hyn a allai fod yn gyfnod hir o amser.

**Argymhelliad 24.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gadarnhau, fel mater o flaenoriaeth, y pecyn cymorth ariannol i awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith o gyflogi gweithwyr olrhain proffesiynol, yn hytrach na dibynnu ar adleoli staff presennol.

### Ymddiriedaeth a chydymffurfiaeth

---

**293.** Bydd ffydd y cyhoedd yn y strategaeth Profi, Orlhain, Diogelu, a chydymffurfiaeth â hi, yn hanfodol. Mae'r strategaeth ei hun yn cydnabod y gallai fod gofyn i bobl hunanynysu sawl gwaith, a gallai hyn roi straen ar unigolion a'u teuluoedd.

**294.** Bydd angen negeseuon cyhoeddus clir ac ailadroddus am y cyfrifoldeb cymdeithasol y mae'n rhaid i bawb ei gymryd i hunanynysu os ydynt yn dangos symptomau a chyfeirio eu hunain am brawf ar frys.

**Argymhelliad 25.** Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid, sicrhau system o negeseuon cyhoeddus clir ac ailadroddus - ar lefel genedlaethol a lleol - ynghylch cyfrifoldebau unigolion i hunanynysu os oes ganddynt symptomau, a phwysigrwydd hunanatgyfeirio ar frys i gael prawf.

**295.** I lawer, gall straen ariannol yr ychydig fisoedd diwethaf arwain at bwysau i anwybyddu symptomau a chynghor, a mynd i'r gwaith. Mae yna risgiau sylweddol yma o ran y gweithlu gofal cymdeithasol oherwydd, er eu bod yn darparu gwasanaeth hanfodol, nid oes ganddynt yr un telerau ac amodau â'u cydweithwyr yn y gwasanaeth iechyd. Os bydd yn rhaid i'r gweithwyr hyn ddibynnu ar dâl salwch statudol (SSP) yn ystod cyfnodau o hunanynysu dro ar ôl tro, bydd hyn yn rhoi straen mawr arnynt hwy a'u teuluoedd, yn ogystal â'r gweithlu gofal cymdeithasol ehangach. Mae hwn yn faes sydd angen sylw brys gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig o ystyried nad yw trefniadau tâl salwch statudol wedi'u datganoli.

**Argymhelliad 26.** Rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio gyda Llywodraeth y DU y trefniadau ar gyfer tâl salwch statudol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n gorfod hunanynysu. Dylid gwneud hyn ar frys.

### Defnyddio technoleg

---

**296.** Nodwn fod yr un platfform digidol ar gyfer olrhain cysylltiadau ledled Cymru ar gael o 8 Mehefin, a bod trefniadau ar waith i fwrdd rheoli'r rhaglen fonitro ei ddatblygiad parhaus.

**297.** Mae gennym ddi-ddordeb yng nghynnydd a pherfformiad y system hon wrth symud ymlaen, a hyderwn y bydd y wybodaeth hon yn cael ei gwneud yn gyhoeddus.

**298.** O ran apiau olrhain cysylltiadau ac olrhain agosrwydd, bu llawer o ddyfalu a sylw yn y cyfryngau am yr amrywiol opsiynau a allai fod ar gael. Rydym yn cytuno y byddai unrhyw ddefnydd o apiau o'r fath yn y dyfodol yn ategu'r system olrhain cysylltiadau, yn hytrach na'i disodli neu'n elfen hanfodol o Brofi, Olrhain, Diogelu.

### Trefniadau trawsffiniol

---

**299.** O ran trefniadau trawsffiniol, bydd y rhain yn dod yn bwysicach nag erioed wrth i gyfyngiadau ledled y DU gael eu llacio a bod mwy o bobl yn mynd a dod o Gymru.

**300.** Deallwn fod cytundeb rhwng swyddogion ynghylch sut y bydd hyn yn gweithio rhwng Cymru a Lloegr, a bod y Gweinidog yn gobeithio gallu cymeradwyo protocol sy'n galluogi ac yn cefnogi hyn. Byddem yn croesawu gwybodaeth bellach am y protocol hwn, gan gynnwys manylion am sut y bydd yn gweithredu a phryd y bydd yn cychwyn yn swyddogol. Hoffem hefyd gael mwy o wybodaeth am hynt trafodaethau gyda gwledydd eraill y DU tuag at brotocolau rhannu gwybodaeth.

**Argymhelliad 27.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu mwy o wybodaeth am y protocol ar drefniadau trawsffiniol.

**301.** Rydym yn croesawu'r cadarnhad gan y Gweinidog bod trafodaethau ar y gweill gyda llywodraethau eraill yn y DU ynghylch meysydd gweithgarwch cyffredin i'w mesur fel y gellir credu cymariaethau rhwng y gwledydd. Byddem yn gwerthfawrogi gwybodaeth bellach am hynt y trafodaethau hyn, a chael ein hysbysu pan fyddant wedi'u cwblhau.

## 7. Goblygiadau ariannol i lywodraeth leol a chyllid ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion

Bydd hi'n cymryd cenhedlaeth i gynghorau Cymru dalu am y pandemig coronafeirws<sup>164</sup> yn ôl CLILC.

### Costau uwch a cholli refeniw

**302.** Yn ystod tri mis cyntaf yr argyfwng, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn amcangyfrif eu bod wedi cronni diffyg o oddeutu £173 miliwn o ganlyniad i gollu incwm a chostau uwch.<sup>165</sup>

**303.** O ran costau uwch, dywedodd arweinydd CLILC, y Cynghorydd Andrew Morgan, wrthym fod y rhain wedi bod yn sylweddol, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol yn dilyn y mewnlifiad o bobl ychwanegol o'r ysbytai i gartrefi gofal ar ddechrau'r argyfwng.

**304.** Ymhellach, cyfeiriodd at bwysau costau a achosir gan staff awdurdodau lleol sydd naill ai wedi hunanynysu â symptomau eu hunain neu oherwydd bod gan aelod o'u teulu symptomau. Roedd hyn, meddai, wedi golygu bod angen dod ag adnoddau ychwanegol sylweddol i mewn o ran adnoddau dynol i lenwi'r swyddi hyn, a byddai hyn wedi bod yn wir am y sector annibynnol hefyd.<sup>166</sup>

**305.** Cyfeiriodd hefyd at yr ymrwymiad refeniw a chyfalaf sylweddol gan awdurdodau lleol wrth droi adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor yn ysbytai maes.

**306.** Dywedodd fod cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol wedi cael croeso arbennig, ac wedi golygu bod gan awdurdodau lleol fecanwaith ar waith i ymateb i'r pwysau newydd o ran costau.

**307.** Fodd bynnag, dywedodd mai'r broblem sy'n wynebu awdurdodau lleol bellach oedd colli refeniw sylweddol, nid yn unig yn ystod y tri mis diwethaf, ond hefyd yn y misoedd i ddod:

“Although some of these venues, such as leisure centres for example, would be closed in the current period due to the lockdown, when

<sup>164</sup> [Coronavirus: Councils will take 'generation' to pay for response](#), BBC Cymru, 26 Mai 2020

<sup>165</sup> Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 13

<sup>166</sup> Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 15

restrictions are eased and these facilities or venues might be re-opened it is unclear how long some of the field hospital conversions will be required to remain in place.

Losing such income generating council assets for a prolonged period of time will therefore have a longer-term impact on council revenue.”<sup>167</sup>

## Cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol

**308.** Ar 14 Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £40 miliwn yn ychwanegol i gefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion yn ystod y pandemig. Pwrpas yr arian oedd helpu i dalu costau uwch cyfarpar diogelu personol sylfaenol, bwyd, costau staffio a TGCh, a oedd yn wynebu gwasanaethau cymdeithasol oedolion. Dywedodd y Gweinidog:

“Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i nodi'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i ateb y gofynion ychwanegol ar wasanaethau gofal cymdeithasol oedolion. Byddwn yn adolygu'r dyraniad hwn ac o bosibl yn sicrhau bod arian pellach ar gael os bydd angen yn y dyfodol.”<sup>168</sup>

**309.** Bydd y £40 miliwn yn cael ei ddyrannu i lywodraeth leol trwy'r 'gronfa caledi' llywodraeth leol Covid-19 newydd. Bydd awdurdodau lleol yn gweithio gyda darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion i ddyrannu'r cyllid ychwanegol yn seiliedig ar y costau newydd sy'n codi.

**310.** Cyfeiriodd nifer o dystion, gan gynnwys CLILC a Fforwm Gofal Cymru, at natur fregus y sector gofal yng Nghymru cyn y pandemig, gan ddweud bod y broblem hon wedi cael ei gwaethygu gan yr achos o'r coronafeirws.

**311.** Yn ei dystiolaeth, nododd Fforwm Gofal Cymru fod yr argyfwng presennol yn dod ar ben prinder adnoddau cronig ar gyfer y sector gofal ers blynyddoedd lawer ac yn chwythu holltau yn y system yn llwyr agored.

**312.** Ar y pwynt hwn, dywedodd Prif Weithredwr y Fforwm, Mary Wimbury, wrthym:

“... we're a sector that needs to keep running, keep caring for our most vulnerable citizens. The sector, as you know, was already in a vulnerable situation, with difficulties in recruiting and retaining staff, widely

---

<sup>167</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig CLILC

<sup>168</sup> £40m ychwanegol i gefnogi gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru - 14 Ebrill 2020

recognised as underfunded, and we've gone into this crisis in that situation."<sup>169</sup>

**313.** Wrth roi tystiolaeth ar 7 Mai, croesawodd Fforwm Gofal Cymru y cyllid ychwanegol o £40 miliwn ond dywedodd wrthym mai ychydig o'r arian hwn a oedd wedi'i ddsbarthu mewn gwirionedd gan na chyhoeddwyd canllawiau tan 27 Ebrill. Aeth ymlaen i ddweud:

"Despite this guidance saying local authorities should "provide funding where appropriate, in a timely manner as and when they are aware of them and not delay dealing with these due to the timing of claims to the hardship fund" a number of local authorities are still considering the way forward, suggesting rigid timetables and incorporating significant bureaucracy into their processes."<sup>170</sup>

**314.** Dywedodd Mary Wimbury wrthym y byddai wedi bod yn well ganddynt gynllun dosbarthu cenedlaethol oherwydd nad yw'r arian hwn yn cyrraedd y rheng flaen:

"(...) we are in discussion with local authorities and with health boards for the clients that they fund. (...) In some of our nursing homes over half of the residents are commissioned by health boards, and there's been a lack of clarity about whether the £40 million was supposed to cover that (...). We heard this morning it will be down to health boards to fund their clients, and local authorities, out of the £40 million, to fund the social services clients."<sup>171</sup>

**315.** Dywedodd hefyd fod rhai awdurdodau lleol yn amharod i wario'r dyraniad a gafodd ei addo iddynt oherwydd bod y system sy'n seiliedig ar hawliadau yn golygu nad oeddent yn derbyn yr arian ymlaen llaw:

"The guidance that did come out said that authorities shouldn't wait until they've got the money from Welsh Government; they should pay on the basis of the guidance But I've seen an e-mail (...) from some local authorities saying that they are not prepared to do that until they've got

---

<sup>169</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Mai 2020, paragraff 169

<sup>170</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C45

<sup>171</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Mai 2020, paragraff 170

confirmation they are getting money to cover those claims and got that actual money.”<sup>172</sup>

**316.** Dadleuodd Fforwm Gofal Cymru, wrth symud ymlaen, fod angen ateb gwell i greu sector cadarn a chynaliadwy i ofalu am ein dinasyddion mwyaf agored i niwed.<sup>173</sup>

**317.** Roedd CLILC yn croesawu'r cyllid ychwanegol o £40 miliwn hefyd, ond nododd mai dim ond rhwng mis Mawrth a diwedd mis Mai 2020 y bydd y cyllid ar gael:

“Local authorities will need to understand what further funding is available at the earliest possible opportunity and to monitor that the £40m is sufficient, as some providers, if they face reduced number of clients, will not be able to carry on without guaranteed funding levels.”<sup>174</sup>

**318.** Cadarnhaodd y Cyngorydd Andrew Morgan fod pob awdurdod lleol wrthi'n gweithio gyda darparwyr gofal annibynnol i ganfod y gwir bwysau o ran costau:

“Because what we don't want to be doing is funding independent care homes to the full occupation level where, maybe, there's obviously a profit margin in there. What we need to do in the short term is make sure that they don't go under and that they remain viable. So, it's getting the balance right and that is something that's being reviewed at present.”<sup>175</sup>

**319.** Dywedodd y Cyngorydd Huw David fod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod na fydd y £40 miliwn yn ddigon, ac wedi nodi mai taliad cychwynnol yw hwn, ac y bydd costau'n parhau i godi wrth i'r galw am wasanaethau gynyddu yn ystod y misoedd nesaf.<sup>176</sup>

**320.** Ar y pwynt hwn, dywedodd y Cyngorydd Morgan:

“All these sums we're talking about—the loss of income, the additional cost pressures, social care money—these are the first three months’

---

<sup>172</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Mai 2020, paragraff 178

<sup>173</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C45

<sup>174</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, C26

<sup>175</sup> Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 40

<sup>176</sup> Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 32



worth, and I have to say the first three months is fast coming to an end. We are now into the last month, in effect—only a few weeks away from the end of the 13-week period—and we are already now starting in the WLGA to look at what the costs will be for the next three months. We're hoping the cost pressures will reduce and we're hoping the loss of income will reduce so that the gap narrows, but there will be a further substantial gap for the coming three months."<sup>177</sup>

## Ein barn ni

**321.** Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi bod yn rhan annatod o'r ymateb i'r achos hwn, gan ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth hanfodol i'w cymunedau yn yr amgylchiadau anoddaf.

**322.** Mae cost yr argyfwng i lywodraeth leol dros gyfnod cymharol fyr o dri mis yn rhyfeddol ac mae'n ganlyniad i golli refeniw a chostau uwch o lawer, gan gynnwys wrth ddarparu gofal cymdeithasol i oedolion.

**323.** Mae darparwyr gofal preifat hefyd wedi wynebu pwysau ariannol cynyddol yn ystod y cyfnod hwn, yn rhannol oherwydd costau uwch ond hefyd o ganlyniad i ostyngiadau mewn cyfraddau deiliadaeth, wrth i breswylwyr farw ac wrth i gartrefi ofni derbyn preswylwyr newydd, yn enwedig rhai a oedd yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae hyn yn rhannol oherwydd nad oedd profion ar gael mewn cartrefi gofal i gychwyn, a diffyg profion i breswylwyr ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

**324.** Mae'r problemau hyn wedi gwaethygu'r sefyllfa mewn sector sydd eisoes yn fregus ac yn peryglu ei ddiogelwch hirdymor ymhellach. Mae'n hanfodol bod camau'n cael eu cymryd yn awr i fynd i'r afael â nhw.

**325.** Roeddem yn bryderus iawn i glywed adroddiadau bod nifer o gartrefi gofal yn debygol o gau heb gymorth ariannol. Byddai hyn yn cael effaith ddinistriol ar breswylwyr a'u teuluoedd, a byddai'n rhoi pwysau pellach ar y GIG a gwasanaethau eraill. Ni ellir caniatáu i hyn ddigwydd; dylid cynorthwyo cartrefi gofal fel na fyddant yn cau'n sydyn.

**326.** Er y cafwyd hwb i'w groesawu o £40 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion, cydnabuwyd na fyddai'n talu costau'r tri mis cyntaf, ac y bydd costau'n parhau i godi dros y misoedd nesaf wrth i'r galw am wasanaethau gynyddu ac wrth i bwysau ariannol barhau. Er gwaethaf hyn, nid yw llywodraeth leol wedi derbyn

<sup>177</sup> Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 37

eglurhad o hyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch y cymorth ariannol a fydd ar gael iddynt am y tri mis nesaf a thu hwnt.

**327.** Dylai cyfraniad awdurdodau lleol a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion gael ei gydnabod, yn y tymor byr, gan ymrwymiad cyllid gwarantedig gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r ddarpariaeth gwasanaethau dros y tri i chwe mis nesaf, yn y man lleiaf.

**Argymhelliad 28.** Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o frys, roi ar waith ymrwymiad cyllid gwarantedig byrdymor i gefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion i liniaru effaith ariannol Covid-19. Rhaid datblygu'r ymrwymiad hwn mewn ymgynghoriad â darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys llywodraeth leol.

**328.** Yn fwy cyffredinol, mae angen dybryd i ddiwygio'r system ac am drefniant cyllido cynaliadwy a hirdymor ar gyfer gofal cymdeithasol sy'n cydnabod yn llawn bwysigrwydd y gwasanaeth a'r staff sy'n gweithio ynddo.

## Atodiad: Llinell amser digwyddiadau allweddol yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol

Darperir llinell amser lawn o ymateb llywodraethau Cymru a'r DU ym [Mlog Ymchwil y Senedd](#).

### Ionawr 2020

- Cadarnheir yr achosion cyntaf o'r coronafeirws yn y DU. Mae [Prif Swyddogion Meddygol y DU yn cynghori](#) cynyddu lefel risg y DU o isel i gymedrol. Fodd bynnag, pwysleisir "nid yw hyn yn golygu [eu] bod yn meddwl bod y risg i unigolion yn y Deyrnas Unedig wedi newid [...] ond dylai llywodraethau gynllunio ar gyfer pob posibilrwydd".

### Chwefror 2020

- Llywodraeth y DU yn lansio [ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus](#) i gynghori ar sut i arafu lledaeniad Covid-19. Llywodraeth Cymru [yn dweud](#) ei bod yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi'r ymgyrch.
- Yr achos cyntaf o'r coronafeirws yng Nghymru yn [cael ei gadarnhau](#). Roedd y claf wedi teithio yn ôl i Gymru o ogledd yr Eidal.

### Mawrth 2020

- Llywodraeth y DU yn cyhoeddi [Coronavirus action plan: a guide to what you can expect across the UK](#). Mae'r cynllun gweithredu ar y cyd hwn rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraethau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn nodi ymateb fesul cam i'r feirws.
- Cynhelir cyfarfod arbennig o Gabinet Cymru ac mae'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn cael diweddariad gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru, y Prif Swyddog Meddygol, ac arweinydd Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Mae [Llywodraeth y DU yn cadarnhau](#) y bydd bil argyfwng Covid-19, fel rhan o ymateb fesul cam y DU i'r feirws. Mae'r ddeddfwriaeth, a fydd yn berthnasol ar draws pedair gwlad y DU, [yn darparu pwerau argyfwng i Gymru](#) fel y gall ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i'r achos.

- Prif Weinidog y DU yn cyhoeddi bod y DU wedi aros yng ngham 'cyfyngu' cyntaf yr achos, ond bod paratodau helaeth yn cael eu gwneud ar gyfer symud i'r cam 'oedi'.
- Mae'r DU yn symud i'r cam oedi ac mae Prif Swyddogion Meddygol y DU yn codi'r risg i'r DU o 'gymedrol' i 'uchel'.
- Yng Nghymru, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyhoeddi bod nifer o wasanaethau'r GIG yn cael eu hatal dros dro gan gynnwys apwyntiadau cleifion allanol nad ydynt yn rhai brys a derbyniadau a thriniaethau llawfeddygol nad ydynt yn rhai brys.
- Prif Weinidog y DU yn diweddarau'r cyngor gan ddweud os oes gan unrhyw un yn y cartref beswch parhaus newydd neu dymheredd uchel y dylai'r aelwyd gyfan hunanynysu am 14 diwrnod.
- Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn derbyn briff gan y Prif Swyddog Meddygol ar yr ymateb i Covid-19 yng Nghymru, a chan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y ddeddfwriaeth frys. Ar yr un diwrnod, daeth Rheoliadau i rym sy'n darparu ar gyfer "gosod cyfyngiadau cymesur" ar unigolion lle yr amheuir y gallent fod â'r coronafeirws. Gwnaed rheoliadau tebyg yn Lloegr ym mis Chwefror.
- Prif Weinidog y DU annerch y genedl - mae'n ofynnol bellach i bawb aros gartref ac eithrio at ddibenion cyfyngedig iawn. Mae siopau nad ydynt yn hanfodol a lleoedd cymunedol ar gau, ac ni chaiff mwy na dau o bobl ymgynnull yn gyhoeddus. Mae'r mesurau hyn yn orfodadwy gan yr heddlu ac awdurdodau perthnasol eraill. Mae Prif Weinidog Cymru yn gwneud datganiad ar y mesurau newydd.
- Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau i'r rhai sy'n eithriadol o agored i niwed yn sgil y coronafeirws. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ddanfon meddyginiaethau a bwyd yn ogystal â beth i'w wneud os ydych chi'n byw gyda rhywun sy'n agored i niwed.
- Yn dilyn cytundeb gan ddau Dŷ'r Senedd, y Bil Coronafeirws yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cyhoeddi y bydd Stadiwm y Principality yng Nghaerdydd yn cael ei sefydlu fel ysbyty dros dro i ddarparu 2,000 o welyau ychwanegol i'r GIG.

- Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol **yn cyhoeddi** cynllun profion coronafeirws newydd ar gyfer Cymru.

## Ebrill 2020

- Yn dilyn adolygiad cyflym o gyfarpar diogelu personol ledled y DU, **canllawiau newydd ar gyfer y DU gyfan** yn cael eu cyhoeddi.
- **Y rheoliadau aros gartref yn cael eu diwygio yng Nghymru** i gadarnhau na all pobl sy'n gadael eu cartref gydag esgus rhesymol (megis ar gyfer siopa hanfodol, gofal iechyd neu waith) aros y tu allan i wneud pethau eraill. Mae trefniadau newydd hefyd yn caniatáu i bobl â chyflyrau iechyd neu anabledau penodol adael eu cartref i wneud ymarfer corff fwy nag unwaith y dydd. Nod hyn yn benodol yw helpu teuluoedd â phlant ag awtistiaeth ac anabledau dysgu.
- Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei **'fframwaith ar gyfer adferiad'** o bandemig y coronafeirws.
- Y **Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon** yn cyfarfod o bell i graffu ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r coronafeirws. Mae'r Gweinidog Iechyd yn ateb cwestiynau am **gyfarpar diogelu personol** (PPE), profi a 'strategaeth ymadael' ar gyfer codi'r cyfyngiadau coronafeirws cyfredol.
- **Prif Weinidog y DU** yn dweud yn y gynhadledd i'r wasg ddyddiol ein bod wedi pasio penllanw'r clefyd hwn.

## Mai 2020

- **Y cyfyngiadau symud yn cael eu hystyngiadau am dair wythnos arall yng Nghymru** gyda rhai mân newidiadau i'r cyfyngiadau: gall pobl fynd allan i wneud ymarfer corff fwy nag unwaith y dydd ond rhaid iddynt aros yn lleol.
- Mewn **anerchiad ar y teledu** mae Prif Weinidog y DU yn amlinellu newidiadau i gyfyngiadau symud yn Lloegr ac yn hyrwyddo neges 'aros yn effro' newydd. Mae'r neges 'aros gartref' yn parhau ar waith yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei **strategaeth brofi** – Profi Orlhain Diogelu – er mwyn "gwella gwylidwriaeth iechyd" ac "olrhain cysylltiadau yn effeithiol ac yn helaeth".

- Y Prif Weinidog yn amlinellu'r cynllun ar gyfer llacio'r cyfyngiadau yng Nghymru. Mae'n cynnwys naw maes gyda phedwar cam yn symud o'r cyfyngiadau symud, i goch, oren a gwyrdd.
- Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyhoeddi bod holl breswylwyr a staff cartrefi gofal yn trefnu prawf ar borth Llywodraeth y DU.
- Mae pedwar Prif Swyddog Meddygol y DU yn cyhoeddi diweddariad i symptomau'r coronafeirws i gynnwys colli synnwyr o arogl neu flas.
- Dylai pobl yng Nghymru sydd â symptomau'r coronafeirws allu gofyn am brawf coronafeirws gartref trwy wasanaeth archebu ar-lein. Mae hon yn rhan o system newydd DU gyfan ar gyfer archebu pecynnau profi gartref.
- Yng Nghymru, yn dilyn yr adolygiad bob tair wythnos o'r rheoliadau, mae'r Prif Weinidog yn cyhoeddi bod y neges 'aros gartref' yn newid i 'aros yn lleol' o 1 Mehefin, ac y gall dwy aelwyd gwrrdd yn yr awyr agored a dylid parhau i gadw pellter cymdeithasol ac arfer hylendid da.

## **Mehefin 2020**

- Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyhoeddi newidiadau i bobl sy'n gwarchod eu hunain o heddiw ymlaen, ond fe'u cynghorir i wneud hynny ar adegau sy'n llai prysur i leihau'r risg o ddod i gysylltiad ag eraill. Bydd pawb sy'n gwarchod eu hunain "yn derbyn llythyr oddi wrth Brif Swyddog Meddygol Cymru cyn 15 Mehefin yn nodi'r camau nesaf".
- Gyda chyflwyno olrhain cysylltiadau, bydd staff olrhain cysylltiadau yn cysylltu ag unrhyw un sy'n cael prawf positif am y coronafeirws ac yn cael cais i ddarparu manylion pawb y bu mewn cysylltiad agos â hwy. Cysylltir â'r cysylltiadau agos hynny a gofynnir iddynt hunanynysu am 14 diwrnod.
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 yn dod i rym - rhaid i drigolion ac ymwelwyr sy'n dod i mewn i'r wlad o dramor hunanynysu am 14 diwrnod er mwyn atal y coronafeirws rhag lledaenu ymhellach. Mae hyn yn adlewyrchu sefyllfa gyffredin ar draws pedair gwlad y DU.